RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
8/2022
DYDDIAD CYHOEDDI:
31/01/2022

# Arolwg ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022: adroddiad terfynol

© Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80391-616-3

**Arolwg ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022: adroddiad terfynol**

Awduron: Brett Duggan, Hefin Thomas, Morgan Davies-Walker, Arad Research. Claire Sinnema, Athro Cyswllt, Is-adran Addysg a Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Auckland. Dr Nia Cole-Jones, Dr Alison Glover, Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Duggan, B; Thomas, H; Davies-Walker, M; Sinnema, C; Cole-Jones, N; Glover, A. (2022). *Arolwg ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022: adroddiad terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 8/2022.

Ar gael yn https://llyw.cymru/ymarferwyr-ar-gyfer-cyflwyno-cwricwlwm-i-gymru-prif-adroddiad

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Y Gangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilysgolion:llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o’r ffigurau .......... 2

Rhestr o’r tablau .......... 6

Geirfa .......... 7

Crynodeb gweithredol .......... 8

1. Cyflwyniad .......... 12

2. Crynodeb o’r prif ganfyddiadau .......... 17

3. Methodoleg .......... 32

Adrannau 4-9: Canfyddiadau manwl yr arolwg .......... 40

4. Cwestiynau trosfwaol .......... 40

5. Gwybodaeth am newid y cwricwlwm .......... 48

6. Deall sut i ymateb i newid y cwricwlwm .......... 56

7. Ymrwymiad i newid y cwricwlwm .......... 75

8. Gwaith paratoi i ddylunio, mabwysiadu a gwireddu’r cwricwlwm .......... 79

9. Y gallu i ymarfer mewn ffyrdd sy’n gwireddu’r cwricwlwm .......... 91

10. Casgliadau a materion i’w hystyried .......... 98

11. Atodiad A: Holiadur yr arolwg .......... 103

12. Atodiad B: Proffil yr ymatebwyr .......... 112

**Rhestr o'r ffigurau**

Ffigur 1. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad: 'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio ein cwricwlwm ein hunain yn barod i'w gyflwyno fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022': pob sector...................... 17

Ffigur 2. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad: 'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i wneud newidiadau i'n harfer proffesiynol yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022': pob sector ........................................................................................ 18

Ffigur 3. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad: 'Mae angen cefnogaeth neu adnoddau ychwanegol ar fy ysgol er mwyn bod yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022': pob sector ........................................................................................ 18

Ffigur 4. Canran yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr a oedd yn cytuno'n gryf, yn cytuno neu'n cytuno i raddau â datganiadau ynghylch eu gwybodaeth am newid y cwricwlwm: pob sector ................................................................ 20

Ffigur 5: Canran yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr a oedd yn cytuno'n gryf, yn cytuno neu'n cytuno i raddau â datganiadau ynghylch eu dealltwriaeth o sut i ymateb i newid y cwricwlwm: pob sector................................................. 22

Ffigur 6. Canran yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr a oedd yn cytuno'n gryf, yn cytuno neu'n cytuno i raddau â'r datganiad 'Yn seiliedig ar y cynnydd hyd yma, rwy'n hyderus y byddaf yn gallu ymgorffori'r elfennau canlynol o'r Cwricwlwm i Gymru yn fy ymarfer proffesiynol o fis Medi 2022': pob sector ........................................................................................................ 23

Ffigur 7: Canran yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr a oedd yn cytuno'n gryf, yn cytuno neu'n cytuno i raddau â datganiadau ynghylch eu hymrwymiad i newid y cwricwlwm: pob sector ................................................................ 26

Ffigur 8. Canran yr uwch arweinwyr a'r ymarferwyr a ymatebodd gydag 'Ydy/ydyn, llawer' neu 'Ydy/ydyn, ychydig' i ddatganiadau ynghylch eu paratoadau i ddylunio, mabwysiadu a gwireddu'r cwricwlwm: pob sector ...................... 27

Ffigur 9: Canran yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr a oedd yn cytuno'n gryf, yn cytuno neu'n cytuno i raddau â datganiadau ynghylch eu gallu i wireddu'r cwricwlwm: pob sector ...................................................................... 30

Ffigur 10. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad: ‘Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio ein cwricwlwm ein hunain yn barod i'w gyflwyno fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022’: pob sector...................... 41
Ffigur 11. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad: ‘Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i wneud newidiadau i'n harfer proffesiynol yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022’: pob sector ........................................................................................ 42
Ffigur 12. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad: ‘Mae angen cefnogaeth neu adnoddau ychwanegol ar fy ysgol er mwyn bod yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022’: pob sector ........................................................................................ 43
Ffigur 13. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad ‘Mae'r rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm yn glir i mi’: ..................................................... 48
Ffigur 14. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad ‘Rwy'n gwybod beth sy'n ofynnol yn fy ysgol i sicrhau bod dyheadau’r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu cyflawni’: pob sector ............................................................... 49
Ffigur 15. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad ‘Rwy'n glir ynghylch yr hyn a fydd yn aros yr un fath a'r hyn a fydd yn wahanol yn fy ysgol o dan drefniadau newydd y cwricwlwm’: pob sector ......................... 50
Ffigur 16. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad ‘Rwy'n glir ynghylch yr hyn a fydd yn aros yr un fath a'r hyn a fydd yn wahanol yn fy ysgol o dan y trefniadau asesu newydd’: pob sector................................. 51
Ffigur 17. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad ‘Rwy’n deall yr hyn sy'n ofynnol i fy ysgol ei wneud er mwyn dylunio ein cwricwlwm ein hunain i gyd-fynd â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru’: pob sector ........... 57
Ffigur 18. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad ‘Rwy’n deall yr hyn sy'n ofynnol i fy ysgol ei wneud er mwyn cynllunio ein trefniadau asesu ein hunain i gyd-fynd â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru’: pob sector...... 58
Ffigur 19: Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad ‘Rwy’n deall yr hyn sydd angen i mi wneud er mwyn paratoi ar gyfer a gweithredu newidiadau i’r cwricwlwm yn fy ysgol’: pob sector...................................... 59

Ffigur 20. Ymateb uwch arweinwyr i’r datganiad ‘Yn seiliedig ar y cynnydd hyd yma, rwy'n hyderus y byddaf yn gallu ymgorffori'r elfennau canlynol o'r Cwricwlwm i Gymru yn fy ymarfer proffesiynol o fis Medi 2022’: pob sector ..... 63
Ffigur 21. Ymateb ymarferwyr i’r datganiad ‘Yn seiliedig ar y cynnydd hyd yma, rwy'n hyderus y byddaf yn gallu ymgorffori'r elfennau canlynol o'r Cwricwlwm i Gymru yn fy ymarfer proffesiynol o fis Medi 2022’: pob sector ..... 65
Ffigur 22. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad ‘Rwyf wedi ymrwymo i ddyheadau'r Cwricwlwm i Gymru’: pob sector ..... 75
Ffigur 23. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad ‘Rwyf wedi ymrwymo i wneud newidiadau i fy ymarfer proffesiynol er mwyn helpu dysgwyr i wireddu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru’: pob sector ..... 76
Ffigur 24. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad ‘Rwyf wedi ymrwymo i ddysgu mwy am y Cwricwlwm i Gymru’: pob sector ..... 77
Ffigur 25. Ymatebion i’r cwestiwn ‘A yw eich ysgol wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer eich cwricwlwm newydd?’: pob sector ..... 80
Ffigur 26. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r cwestiwn ‘Hyd yma, mae digon o amser wedi bod ar gael o fewn calendr yr ysgol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd’: pob sector ..... 81
Ffigur 27. Ymateb uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r cwestiwn ‘Mae ein hysgol wedi treialu dulliau yn y dosbarth sydd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd’: pob sector ..... 86
Ffigur 28. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r cwestiwn ‘Mae athrawon yn ein hysgol wedi cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol i gefnogi paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd’: pob sector ..... 86
Ffigur 29. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad ‘Mae ein hysgol yn adolygu ein paratoadau ar gyfer addysgu’r cwricwlwm newydd’: pob sector ..... 87
Ffigur 30. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad ‘Mae gennyf y sgiliau i gefnogi dyluniad cwricwlwm newydd ein hysgol’: pob sector ..... 92

Ffigur 31. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i’r datganiad ‘Rwy'n hyderus y byddaf yn gallu cyrchu'r dysgu proffesiynol y bydd ei angen arnaf er mwyn helpu i ddylunio'r cwricwlwm newydd’: pob sector .................................... 93
Ffigur 32. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymatebion i’r datganiad ‘Rwy'n hyderus yn fy ngallu i addasu fy ymarfer proffesiynol mewn ffyrdd fydd yn fy ngalluogi i roi'r cwricwlwm newydd ar waith’: pob sector............................................. 94

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 1. Y gwahaniaethau mewn pwynt canran rhwng grwpiau o ymatebwyr a ddisgrifir fel gwahaniaethau 'nodedig' ...................................................... 37
Tabl 2. Proffil yr uwch arweinwyr a gwblhaodd yr arolwg yn ôl y math o leoliad ... 115
Tabl 3. Proffil yr ymarferwyr a gwblhaodd yr arolwg yn ôl y math o leoliad .......... 117
Tabl 4. Proffil poblogaeth lleoliadau a phoblogaeth sampl yr arolwg yn ôl cyfrwng iaith ........................................................................................................ 117
Tabl 5. Proffil poblogaeth y lleoliadau a phoblogaeth sampl yr arolwg yn ôl rhanbarth a'r cyfernod pwysoli a ddefnyddiwyd ...................................... 118
Tabl 6. Proffil poblogaeth yr ysgolion a phoblogaeth sampl yr arolwg yn ôl canran y y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim*.............................. 119
Tabl 7. Proffil poblogaeth yr ysgolion a phoblogaeth sampl yr arolwg yn ôl categorïau cefnogaeth y system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion................................................................................................ 120

**Geirfa**

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| ADY | Anghenion dysgu ychwanegol |
| AGA | Addysg gychwynnol i athrawon |
| CADY | Cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| DdG | Ddim yn gwybod (talfyriad mewn ffigurau) |
| DPP | Datblygu proffesiynol parhaus |
| HMS | Hyfforddiant mewn swydd |
| Meysydd / MDPh | Meysydd dysgu a phrofiad |
| Ysgol ganol | Ysgol i rai 3 – 16 / 19 oed |
| Ysgol pob oed | Ysgol i rai 3 – 16 / 19 oed |

## Crynodeb gweithredol

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolwg a gynhaliwyd gan Ymchwil Arad ar ran Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021, a hwnnw'n edrych ar baratoadau ysgolion i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'n dilyn yr adroddiad cryno a gyhoeddwyd yn hydref 2021, gan roi rhagor o fanylion a dyfnder dadansoddol er mwyn bod yn sail i bolisi a'r gwaith o gefnogi ysgolion.[1]

### Y fethodoleg a'r gwaith dadansoddi

2. Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar yr ymchwil a'r gwaith dadansoddi canlynol:
   - Arolwg ymhlith yr holl ysgolion a'r unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru, a ddosbarthwyd drwy nifer o sianeli;[2]
   - Cyfanswm o 345 o ymatebion a ddaeth i law gan benaethiaid ac uwch arweinwyr mewn ysgolion unigryw. Cafwyd 222 o ymatebion ychwanegol gan ymarferwyr: unigolion oedd y rhain a ddywedodd eu bod yn arweinwyr canol, yn athrawon neu'n weithwyr cymorth dysgu;
   - Mae data'r arolwg a gyflwynir yn yr adroddiad wedi'u pwysoli yn ôl y math o ysgol i sicrhau bod proffil y sampl yn adlewyrchu'r holl ysgolion a'r unedau cyfeirio disgyblion. Mae disgrifiad o broffil y sampl a'r dull a ddefnyddiwyd i bwysoli wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

### Y prif ganfyddiadau

3. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr ynghylch eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r diwygiadau i'r cwricwlwm yn gadarnhaol.
4. Mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos lefelau cryf o ymrwymiad i ddiwygio'r cwricwlwm ymhlith uwch arweinwyr ac ymarferwyr.

---

[1] Gweler Llywodraeth Cymru (2021), *Arolwg ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022: canfyddiadau interim gan arweinyddion ysgolion cynradd ac uwchradd*.

[2] Ymatebodd rhai lleoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir i'r arolwg hefyd. Mae manylion am y fethodoleg i'w gweld yn Adran 3.

5. Mae uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn cydnabod y cyfleoedd sydd ar gael yn sgil y diwygiadau, gan gynnwys yr hyblygrwydd i lywio cwricwlwm newydd sy’n berthnasol i anghenion dysgwyr. Dywedodd athrawon eu bod yn teimlo brwdfrydedd wrth gael cyfle i gydweithio mwy â chydweithwyr.

6. Adroddodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr gynnydd o ran:

   - Cydweithio i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y cwricwlwm, i gynllunio a thrafod addysgeg, ac i dreialu dulliau gweithio newydd;
   - Mabwysiadu arferion addysgu arloesol;
   - Gweithio gyda dysgwyr i roi sail i gynllunio’r cwricwlwm;
   - Cael cyfleoedd dysgu proffesiynol i roi’r hyder a’r gallu i athrawon i ddylunio eu cwricwlwm ar y cyd;
   - Canolbwyntio ar ddysgu trawsgwricwlaidd ac integredig fel rhan o’u harferion cynllunio ac addysgu.

7. Ymhlith yr uwch arweinwyr, dywedodd mwyafrif clir eu bod mewn sefyllfa dda i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain a gwneud newidiadau i’w hymarfer proffesiynol yn barod ar gyfer cyflwyno’r cwricwlwm o fis Medi 2022.

8. Dywedodd cyfran is o ymarferwyr – tua’u hanner – eu bod yn teimlo bod eu hysgol yn barod i ddylunio’i chwricwlwm a’u bod hwythau’n barod i addasu eu hymarfer proffesiynol yn barod ar gyfer cyflwyno’r cwricwlwm. Roedd amrywiadau pwysig yn yr ymatebion yn ôl sector: roedd ymarferwyr cynradd yn fwy tebygol o lawer na’r rheini mewn ysgolion uwchradd o gytuno bod eu hysgol yn barod i ddylunio’i chwricwlwm a’u bod hwythau’n barod i addasu eu hymarfer proffesiynol.

9. Roedd rhai patrymau cyson i’w gweld yn yr ymatebion cyffredinol i’r arolwg:

   - Yn eu hymatebion i'r holl gwestiynau, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yr un mor gadarnhaol â’u cymheiriaid mewn ysgolion uwchradd, neu'n fwy cadarnhaol na nhw.
   - Bron ym mhob maes a drafodwyd yn yr arolwg, roedd lleiafrif bach, o leiaf, o uwch reolwyr ac ymarferwyr a soniodd am ddiffyg ymrwymiad, gwybodaeth neu barodrwydd.

- Roedd gwybodaeth am sut i ymateb i'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm a'r ddealltwriaeth o'r broses honno'n gyson is ymhlith ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd nag uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion cynradd.

10. Roedd data'r arolwg yn dangos mai prin oedd y gwahaniaeth amlwg yn yr ymatebion gan arweinwyr yn ôl rhanbarth ac yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol.

11. Dywedodd y rhan fwyaf o uwch arweinwyr ac ymarferwyr nad oeddent wedi cael digon o amser i baratoi at gyflwyno'r cwricwlwm. O ganlyniad i'r amharu a fu yn sgil pandemig COVID-19, effeithiwyd yn ddifrifol ar baratoadau ysgolion i ddiwygio'r cwricwlwm yn ystod y flwyddyn academaidd 2020/21.

12. Dywedodd nifer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod angen rhagor o ganllawiau a chymorth arnynt wrth asesu i gefnogi cynnydd dysgwyr. Soniwyd am ddiffyg gwybodaeth am sut y dylid datblygu dulliau asesu'r dyfodol a pha gamau a fyddai'n cael eu cymryd i sicrhau bod y trefniadau asesu a'r dulliau o sicrhau cynnydd rhwng ysgolion yn gyson. Ymarferwyr a gododd y pryderon hyn yn bennaf, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Soniodd ymatebwyr hefyd am eu pryder ynghylch sut y byddai asesu a chynnydd dysgwyr yn cael eu cofnodi a'u defnyddio fel rhan o brosesau atebolrwydd.

13. Dywedodd y rhan fwyaf o uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod angen rhagor o gymorth neu adnoddau arnynt erbyn mis Medi 2022. Gwelwyd bod lefelau hyder ymarferwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, yn is na lefelau hyder uwch arweinwyr wrth drafod eu gallu i gael y cyfleoedd dysgu proffesiynol y mae eu hangen arnynt. Roedd ymatebwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o lawer na'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Saesneg o ddweud bod angen cefnogaeth neu adnoddau ychwanegol ar eu hysgol er mwyn bod yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm.

**Materion i'w hystyried**

i. Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid ystyried pa gamau y gellid eu cymryd i sicrhau bod pob ymarferwr, ac yn enwedig y rheini mewn ysgolion

uwchradd, yn meithrin y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddylunio'u cwricwlwm a'u trefniadau asesu a'u rhoi ar waith.

ii. Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid gefnogi uwch arweinwyr i sicrhau bod pob ymarferwr yn ymwybodol o weledigaeth cwricwlwm ei ysgol ac yn deall ei gyfraniad at helpu i gyflawni'r weledigaeth hon drwy ei ymarfer.

iii. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gwasanaethau gwella ysgolion, gan gynnwys consortia rhanbarthol, i ganfod ysgolion sy'n ymwneud llai â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm, a rhoi cymorth wedi'i dargedu i staff ar bob lefel yn yr ysgolion hyn.

iv. Wrth i'r adferiad yn dilyn y pandemig barhau i roi pwysau ar gapasiti, ysbryd a lles athrawon, dylai Llywodraeth Cymru gadw golwg agos ar baratoadau ysgolion tuag at gerrig milltir mis Medi 2022 a 2023 ac ymateb yn ddiymdroi i anghenion penodol a ganfyddir.

v. Gallai Llywodraeth Cymru a phartneriaid ystyried pa gyfleoedd dysgu a chanllawiau proffesiynol ychwanegol y gellid eu rhoi i ysgolion i egluro'r disgwyliadau mewn perthynas â phrosesau asesu i gefnogi cynnydd dysgwyr.

vi. Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid barhau i sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol a chymorth addas, gan gynnwys enghreifftiau o arferion da a deunyddiau eraill, ar gael i ysgolion yn y cyfnod sy'n arwain at fis Medi 2022.

vii. Wrth wneud hynny, dylai'r broses o gynllunio'r holl gyfleoedd dysgu proffesiynol, y cymorth a'r adnoddau ystyried anghenion ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru ac o ddiben yr astudiaeth gwmpasu, gyda'r nod o helpu i benderfynu ar flaenoriaethau ymchwil a gwerthuso'r dyfodol.

### Y Cwricwlwm i Gymru

1.2 Y Cwricwlwm i Gymru yw conglfaen ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg yng Nghymru a chreu system addysg sy'n gwella safonau addysgol ac yn ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd. Pedwar diben y cwricwlwm yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer holl blant a phobl ifanc Cymru. Mae adroddiad yr OECD am wella ysgolion yng Nghymru (2014) ac adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson (2015) yn cyflwyno rhesymeg dros y diwygiadau ynghyd ag argymhellion ynghylch sut i ddylunio cwricwlwm newydd sy'n addas i'r Gymru gyfoes. O dan y diwygiadau, mae pob ysgol wrthi'n datblygu ei chwricwlwm ei hun, gyda chymorth canllawiau cenedlaethol. Bydd hynny'n galluogi dysgwyr i wireddu pedwar diben y cwricwlwm drwy ddod:

- yn **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn **gyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus** yng Nghymru a'r byd
- yn **unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

1.3 O dan y Cwricwlwm i Gymru, bydd y pynciau wedi'u trefnu o amgylch chwe Maes Dysgu a Phrofiad (Meysydd): y celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; y dyniaethau; ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg.

1.4 Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn hyrwyddo dull integredig o ddysgu ac addysgu. Mae'n annog cydweithio ac addysgu a chynllunio traws-ddisgyblaethol i alluogi dysgwyr i greu cysylltiadau rhwng y gwahanol

feysydd a defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu mewn sefyllfaoedd a chyd-destunau newydd.

1.5 O dan drefniadau'r cwricwlwm newydd, bydd ysgolion yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol ar hyd continwwm dysgu sy'n berthnasol i bawb rhwng 3 ac 16 oed. Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn disgrifio egwyddorion cynnydd yn y cwricwlwm ac mewn Meysydd unigol, ynghyd â chamau cynnydd. I gyd-fynd â'r camau hyn, ceir datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a disgrifiadau dysgu. Yn gysylltiedig â hyn, dylai'r asesu fod yn ffurfiannol, dylai ganolbwyntio ar y dysgwr, a dylid ei ddefnyddio'n sail i sut mae ymarferwyr yn ymateb i anghenion unigolion a grwpiau. Nodwedd amlwg o'r dull newydd yw bod y cwricwlwm, asesu ac addysgeg yn cael eu gweld fel rhan o un system integredig.

1.6 I gyd-fynd â'r diwygiadau i'r cwricwlwm, ceir dull cenedlaethol o weithio ym maes dysgu proffesiynol; ceir trefniadau gwerthuso a gwella newydd; mae'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth ym maes anghenion dysgu ychwanegol wedi'u trawsnewid; ac mae cymwysterau newydd yn cael eu datblygu.

1.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi creu cyfres o ddogfennau canllaw i ysgolion ynghylch sut i fynd ati i ddylunio'r cwricwlwm a'i roi ar waith, gan gydnabod bod datblygu cwricwlwm o'r fath yn broses raddol. Roedd y cyhoeddiad mwyaf diweddar, *Cwricwlwm i Gymru: y daith i weithredu'r cwricwlwm* (2021) yn datblygu ar ddogfennau blaenorol ac yn cyflwyno'r camau a fyddai'n rhan o ddylunio'r cwricwlwm, sef:

- **ymgysylltu** i ddatblygu dealltwriaeth ysgol gyfan o'r cwricwlwm a gweledigaeth ar gyfer yr addysgu a'r dysgu sy'n sail iddo;
- **dylunio, cynllunio a threialu** – gan ddefnyddio canllawiau a chymorth;
- **gwerthuso a pharatoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf;**
- **addysgu am y tro cyntaf,** dechrau rhoi'r cwricwlwm ar waith, myfyrio am ba mor effeithiol yw'r cwricwlwm dros amser, a mireinio dyluniad y cwricwlwm wrth i ddysgwyr wneud cynnydd.

1.8 At hynny, cyflwynodd Llywodraeth Cymru yr egwyddorion y dylai ysgolion eu defnyddio yn sail i'r gwaith o baratoi a dylunio'r cwricwlwm: **datblygu ar y cyd**; **addysgeg** effeithiol; ymgysylltu â rhwydweithiau a chyfleoedd **dysgu proffesiynol**; gwreiddio rhinweddau **ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu**; ystyried **cyd-destun ehangach yr ysgol,** gan gynnwys sut y gall y cwricwlwm gefnogi'r Cod ADY; Cymraeg 2050; a hyrwyddo iechyd a lles dysgwyr.

### Cefndir yr astudiaeth gwmpasu

1.9 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Ymchwil Arad, mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored yng Nghymru, i gynnal astudiaeth gwmpasu mewn perthynas â gwerthuso'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru.

1.10 Nod yr astudiaeth gwmpasu yw disgrifio'r damcaniaethau, y tybiaethau, y dystiolaeth a'r parodrwydd sy'n sail i'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu a defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu argymhellion ar gyfer rhaglen fonitro a gwerthuso gadarn. Dyma amcanion yr astudiaeth:

- asesu paratoadau ysgolion ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, gan ganfod y prif gamau gweithredu y mae angen eu cymryd yn gefn i'r paratoadau hynny.
- datblygu damcaniaeth ar gyfer y rhaglen o ddiwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu, gan gyflwyno'r brif dystiolaeth a'r tybiaethau a rhoi darlun clir o'r system a'r rhanddeiliaid a fydd yn eu rhoi ar waith.
- canfod y cwestiynau gwerthuso a thrafod i ba raddau y gellir ateb y rhain mewn ffordd gredadwy a dibynadwy gan ddefnyddio ffynonellau data sy'n bodoli'n barod a rhai newydd.
- argymell strategaeth fonitro a gwerthuso fanwl ar gyfer rhoi sylw i'r cwestiynau gwerthuso.

1.11 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolwg o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion sy'n gysylltiedig â'r amcan cyntaf a restrir uchod. Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021, gan edrych ar baratoadau ysgolion ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd yr arolwg yn targedu penaethiaid, uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn

ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.[3] Bydd adroddiad ar elfennau eraill yr astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2022.

1.12 Cyhoeddwyd canlyniadau interim yr arolwg ym mis Medi 2021.[4] Roedd y papur hwnnw wedi'i seilio ar yr ymatebion a gafwyd gan uwch arweinwyr. Mae'r ymatebion hyn yn cael eu dadansoddi yn fanylach yn yr adroddiad hwn ynghyd ag ymatebion gan ymarferwyr (h.y. arweinwyr canol, athrawon a gweithwyr cymorth dysgu).

1.13 Mae Adran 2 yr adroddiad hwn yn cyflwyno prif ganfyddiadau'r adroddiad. Mae methodoleg yr arolwg wedi'i chyflwyno yn Adran 3, tra bo adrannau 4-9 yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg mewn ffordd sy'n adlewyrchu strwythur yr holiadur (mae pob adran yn cynnwys canfyddiadau o gwestiynau testun caeedig a thestun agored yr arolwg):

- Mae Adran 4 yn cyflwyno data am gyfres o gwestiynau cyffredinol ynghylch paratoadau'r cwricwlwm, addysgeg, a'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion i'w paratoi at gyflwyno'r cwricwlwm.
- Mae Adran 5 yn cyflwyno canfyddiadau sy'n gysylltiedig â chwestiynau am wybodaeth ymatebwyr am newid y cwricwlwm;
- Mae Adran 6 yn cyflwyno canfyddiadau sy'n ymwneud â dealltwriaeth ymatebwyr o sut i ymateb i newid y cwricwlwm;
- Mae Adran 7 yn canolbwyntio ar ganfyddiadau sy'n gysylltiedig ag ymrwymiad ymatebwyr i newid y cwricwlwm;
- Mae Adran 8 yn cyflwyno canfyddiadau sy'n ymwneud â'r paratoadau i ddylunio, mabwysiadu a gwireddu'r cwricwlwm;
- Mae Adran 9 yn cyflwyno canfyddiadau sy'n ymwneud â gallu ymatebwyr i ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwireddu'r cwricwlwm.

---

[3] Cwblhaodd rhai ymatebwyr o leoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir yr holiadur hefyd.
[4] Gweler Llywodraeth Cymru (2021), *Arolwg ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022: canfyddiadau interim gan arweinyddion ysgolion cynradd ac uwchradd*.

1.14 Mae’r casgliadau a’r materion i’w hystyried wedi’u cyflwyno yn Adran 10. Mae holiadur yr arolwg i’w weld yn Atodiad A. Mae Atodiad B yn cyflwyno gwybodaeth am broffil poblogaeth a sampl yr arolwg, tra bo Atodiad C (mewn dogfen ar wahân) yn cynnwys y tablau data a gafodd eu creu o ganlyniadau’r arolwg.

## 2. Crynodeb o'r prif ganfyddiadau


2.1 Mae crynodeb o'r prif ganfyddiadau o'r arolwg i'w weld isod. Mae'r holl ffigurau yn yr adran hon yn cyfeirio at bob sector, oni bai y nodir hynny'n wahanol.

**Y cwestiynau cyffredinol am y paratoadau at 2022**

2.2 Gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â thri datganiad allweddol ynghylch eu paratoadau at gyflwyno'r cwricwlwm yn barod at fis Medi 2022.

2.3 Roedd uwch arweinwyr (81 y cant) yn fwy tebygol nag ymarferwyr (53 y cant) o gredu bod eu hysgol mewn **sefyllfa dda i ddylunio ei chwricwlwm ei hun** yn barod at fis Medi 2022.

**Ffigur 1. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad: 'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio ein cwricwlwm ein hunain yn barod i'w gyflwyno fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022': pob sector**





N=319 o uwch arweinwyr, 214 o ymarferwyr.

Noder: Am resymau gofod, defnyddir 'DdG' i dalfyrru'r opsiwn 'Ddim yn gwybod' uchod a mewn ffigyrau eraill.

2.4 Roedd uwch arweinwyr (86 y cant) yn fwy tebygol nag ymarferwyr (53 y cant) o ystyried bod eu hysgol mewn sefyllfa dda i wneud **newidiadau i'w harfer proffesiynol** yn barod at fis Medi 2022.


**Ffigur 2. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad: 'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i wneud newidiadau i'n harfer proffesiynol yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022': pob sector**




N=315 o uwch arweinwyr, 214 o ymarferwyr

2.5 Credai 67 y cant o uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod ar eu hysgol angen **cefnogaeth neu adnoddau ychwanegol** i fod yn barod at fis Medi 2022.

**Ffigur 3. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad: 'Mae angen cefnogaeth neu adnoddau ychwanegol ar fy ysgol er mwyn bod yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022': pob sector**




N=317 o uwch arweinwyr, 214 o ymarferwyr

*Ymatebion ansoddol i gwestiwn penagored am y gefnogaeth ychwanegol y mae ei hangen i fod yn barod at gyflwyno'r cwricwlwm*

2.6 Mewn cwestiwn testun agored, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa gefnogaeth ychwanegol yr oedd ei hangen arnynt. Dyma'r themâu mwyaf cyffredin a grybwyllwyd:

- Yr angen am **amser ychwanegol** er mwyn: datblygu **adnoddau**; manteisio ar gyfleoedd **dysgu proffesiynol** pwrpasol; myfyrio a gwneud gwaith paratoi i fireinio **strategaethau addysgu**;
- Cais am fwy o ganllawiau a chefnogaeth ynghylch y disgwyliadau o ran **asesu a chynnydd**;
- Yr angen am ragor o amser i **gydweithio ag ysgolion eraill** a threialu arferion addysgu a dysgu newydd.


**Gwybodaeth am newid y cwricwlwm**

2.7 Gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am eu gwybodaeth ynghylch newid y cwricwlwm. Mae **Error! Reference source not found.** isod yn dangos canran yr ymatebwyr a oedd naill ai'n cytuno'n gryf, yn cytuno, neu'n cytuno i raddau â'r datganiadau hyn. Mae'r gyfres lawn o ymatebion i'w gweld yn Adran 5 ac yn Atodiad C.

- Roedd 97 y cant o uwch arweinwyr a 74 y cant o ymarferwyr yn cytuno fod y **rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm yn glir iddynt**.
- Roedd 95 y cant o uwch arweinwyr a 69 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod yn gwybod **beth sy'n ofynnol yn eu hysgol i sicrhau bod dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu cyflawni**.
- Roedd 89 y cant o uwch arweinwyr a 59 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod **yn glir ynghylch yr hyn a fydd yn aros yr un fath a'r hyn a fydd yn wahanol yn eu hysgol o dan drefniadau newydd y cwricwlwm**.
- Roedd 43 y cant o uwch arweinwyr a 32 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod **yn glir ynghylch yr hyn a fydd yn aros yr un fath a'r**

**hyn a fydd yn wahanol yn eu hysgol o dan y trefniadau asesu newydd.**[5]

**Ffigur 4. Canran yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr a oedd yn cytuno'n gryf, yn cytuno neu'n cytuno i raddau â datganiadau ynghylch eu gwybodaeth am newid y cwricwlwm: pob sector**




N = 345 o uwch arweinwyr, 222 o ymarferwyr

*Ymatebion ansoddol i gwestiwn penagored am wybodaeth*

2.8 Gwahoddwyd ymatebwyr i roi sylwadau ychwanegol i gyd-fynd â'u hymatebion i'r cwestiynau am eu gwybodaeth am newid y cwricwlwm. Dyma'r themâu a grybwyllwyd amlaf gan yr ymatebwyr:

- Diffyg **gwybodaeth am y dulliau asesu** a fyddai'n cael eu defnyddio yn y dyfodol. Teimlai rhai fod diffyg gwybodaeth am y trefniadau asesu neu mynegwyd pryder am gysondeb trefniadau asesu'r dyfodol rhwng gwahanol ysgolion.
- Pryderon am **faint o wybodaeth a chanllawiau yr oeddent wedi'u cael, ac am eglurder y rheini**, o ran dylunio cwricwlwm eu hysgol. Gofynnodd rhai am fwy o enghreifftiau ymarferol ar gyfer dylunio'u

[5] Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn cael ei ystyried yn nodedig (Gweler Adran 3 am ddiffiniad o wahaniaethau nodedig).

cwricwlwm a'i roi ar waith, gan gynnwys gofyn am fwy o wybodaeth gan ysgolion sydd wedi gwneud mwy o gynnydd wrth ddatblygu'r cwricwlwm.

- Heriau o ran yr **amser a'r adnoddau** sydd ar gael i roi'r newidiadau ar waith, gyda phandemig COVID-19 yn gwaethygu hynny.

**Deall sut i ymateb i newid y cwricwlwm**

2.9 Gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am eu dealltwriaeth o sut i ymateb newid y cwricwlwm. Mae


2.10 isod yn dangos canran yr ymatebwyr a oedd naill ai'n cytuno'n gryf, yn cytuno, neu'n cytuno i raddau â'r datganiadau hyn. Mae'r gyfres lawn o ymatebion i'w gweld yn Adran 6 ac yn Atodiad C.

- Roedd 91 y cant o uwch arweinwyr a 68 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod **yn deall yr hyn sy'n ofynnol yn eu hysgol er mwyn dylunio eu cwricwlwm eu hunain**.
- Roedd 45 y cant o uwch arweinwyr a 41 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod **yn deall yr hyn sy'n ofynnol yn eu hysgol er mwyn cynllunio eu trefniadau asesu eu hunain** i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd.[6]
- Roedd 92 y cant o uwch arweinwyr a 60 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod **yn deall yr hyn roedd angen iddynt ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer y newidiadau i'r cwricwlwm yn eu hysgol a rhoi'r rheini ar waith**.

---

[6] Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn cael ei ystyried yn nodedig (Gweler Adran 3 am ddiffiniad o wahaniaethau nodedig).

**Ffigur 5: Canran yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr a oedd yn cytuno'n gryf, yn cytuno neu'n cytuno i raddau â datganiadau ynghylch eu dealltwriaeth o sut i ymateb i newid y cwricwlwm: pob sector**




N = 343 o uwch arweinwyr, 221 o ymarferwyr


2.11 O'u cymharu ag uwch arweinwyr, roedd ymarferwyr yn llai tebygol o gytuno eu bod yn hyderus y gallent **ymgorffori'r elfennau canlynol o'r Cwricwlwm i Gymru yn eu hymarfer proffesiynol**:

- **Y pedwar diben:** roedd 74 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod yn hyderus, o'u cymharu â 98 y cant o uwch arweinwyr;
- **Y meysydd dysgu a phrofiad (meysydd):** 72 y cant o ymarferwyr, 95 y cant o uwch arweinwyr;[7]
- **Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:** 70 y cant o ymarferwyr, 93 y cant o uwch arweinwyr;
- **Yr egwyddorion cynnydd:** 56 y cant o ymarferwyr, 75 y cant o uwch arweinwyr;
- **Y disgrifiadau dysgu:** 64 y cant o ymarferwyr, 82 y cant o uwch arweinwyr;

[7] Labelwyd meysydd fel 'MDPh' yn yr holiadur gwreiddiol.

- **Y sgiliau gorfodol trawsgwricwlaidd:** 78 y cant o ymarferwyr, 97 y cant o uwch arweinwyr;
- **Elfennau gorfodol y cwricwlwm: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Cymraeg a Saesneg:** 59 y cant o ymarferwyr, 82 y cant o uwch arweinwyr;
- **Y themâu trawsbynciol: Profiadau sy'n Gysylltiedig â Gyrfaoedd a Gwaith; Addysg Hawliau Dynol, Amrywiaeth**: 62 y cant o ymarferwyr, 83 y cant o uwch arweinwyr.

**Ffigur 6. Canran yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr a oedd yn cytuno'n gryf, yn cytuno neu'n cytuno i raddau â'r datganiad 'Yn seiliedig ar y cynnydd hyd yma, rwy'n hyderus y byddaf yn gallu ymgorffori'r elfennau canlynol o'r Cwricwlwm i Gymru yn fy ymarfer proffesiynol o fis Medi 2022': pob sector**




N=341 o uwch arweinwyr, 222 o ymarferwyr

*Ymatebion ansoddol i gwestiwn penagored am ddeall sut i ymateb i newid y cwricwlwm*

2.12 Gwahoddwyd ymatebwyr i roi sylwadau ychwanegol i gyd-fynd â'u hymatebion i'r cwestiynau am eu dealltwriaeth o sut i ymateb i newid y cwricwlwm. Dyma'r themâu a grybwyllwyd amlaf gan yr ymatebwyr:

- Diffyg dealltwriaeth ymhlith rhai o **sut i ddylunio eu trefniadau asesu eu hunain,** gan gynnwys sut i ymgorffori'r camau cynnydd yn y rhain. Roedd eraill wedi gwneud cynnydd gyda'u prosesau asesu ond yn **ansicr a oedd y rhain yn addas** i helpu dysgwyr i wneud cynnydd ac nid oeddent yn gwybod ble y gallent gael sicrwydd ynghylch hyn;
- Mynegwyd pryderon am y **diffyg amser** i ddatblygu eu dealltwriaeth o newid y cwricwlwm;
- Yr angen am **fwy o ganllawiau strwythuredig** i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddylunio'r cwricwlwm, gydag **enghreifftiau ymarferol** i helpu yn hyn o beth.

2.13 Gofynnwyd i ymatebwyr nodi beth oedd y **prif bethau y byddent yn eu gwneud i baratoi** ar gyfer cwricwlwm newydd eu hysgol. Dyma'r themâu a grybwyllwyd amlaf gan yr ymatebwyr:

- **Cydweithio** â dysgwyr, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned leol. Crybwyllodd rhai gydweithio o fewn yr ysgol ac ag ysgolion eraill, a chanolbwyntiodd eraill ar rannu gwybodaeth a phontio rhwng lleoliadau;
- **Dysgu proffesiynol** i baratoi at y cwricwlwm newydd, gan ailbwysleisio pwysigrwydd caniatáu digon o amser i ymarferwyr gael cyfleoedd dysgu proffesiynol;
- Paratoadau i **ymgorffori'r Meysydd yn nyluniad eu cwricwlwm**, gan gynnwys ailstrwythuro'r dysgu neu'r trefniadau staffio i adlewyrchu'r Meysydd.
- **Datblygu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm**, gyda rhai'n pwysleisio pwysigrwydd gweledigaeth er mwyn rhoi 'cyd-berchnogaeth' a 'dealltwriaeth ysgol gyfan' o'r cwricwlwm newydd.

2.14 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi beth fyddai'r **newidiadau mwyaf arwyddocaol i'w hymarfer proffesiynol** wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru. Dyma'r themâu a grybwyllwyd amlaf gan yr ymatebwyr:

- Crybwyllwyd **asesu** a **chydweithio** yn gyson fel elfennau o'u hymarfer y byddent yn disgwyl iddynt newid. Dymunai rhai gael mwy o eglurder ynghylch sut i ddatblygu dulliau asesu a sut i dracio cynnydd disgyblion mewn ffordd gyson rhwng adrannau a rhwng lleoliadau;
- **Mwy o arloesi mewn addysgeg,** gyda mwy o arbrofi a llai o bwyslais ar ddeilliannau a fesurir.
- Crybwyllwyd y gallai **mwy o bwyslais ar lais y dysgwr** fod yn newid pellach a allai arwain at brofiad dysgu mwy unigryw, sy'n fwy perthnasol i ddiddordebau dysgwyr;
- Mwy o **hyblygrwydd a rhyddid** i lywio eu cwricwlwm eu hunain.


**Ymrwymiad i newid y cwricwlwm**

2.15 Gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am eu hymrwymiad i newid y cwricwlwm. Mae Ffigur 7 isod yn dangos canran yr ymatebwyr a oedd naill ai'n cytuno'n gryf, yn cytuno, neu'n cytuno i raddau â'r datganiadau hyn. Mae'r gyfres lawn o ymatebion i'w gweld yn Adran 7 ac yn Atodiad C.

- Roedd 98 y cant o uwch arweinwyr a 78 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod **wedi ymrwymo i ddyheadau'r Cwricwlwm i Gymru**.
- Roedd 98 y cant o uwch arweinwyr ac 87 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod **wedi ymrwymo i wneud newidiadau i'w hymarfer proffesiynol** er mwyn helpu dysgwyr i wireddu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.[8]
- Roedd 99.6 y cant o uwch arweinwyr a 91 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod **wedi ymrwymo i ddysgu mwy am y Cwricwlwm i Gymru**.[9]

[8] Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn cael ei ystyried yn nodedig (Gweler Adran 3 am ddiffiniad o wahaniaethau nodedig).
[9] Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn cael ei ystyried yn nodedig (Gweler Adran 3 am ddiffiniad o wahaniaethau nodedig).

**Ffigur 7: Canran yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr a oedd yn cytuno'n gryf, yn cytuno neu'n cytuno i raddau â datganiadau ynghylch eu hymrwymiad i newid y cwricwlwm: pob sector**





N = 326 o uwch arweinwyr, 221 o ymarferwyr

**Gwaith paratoi i ddylunio, mabwysiadu a gwireddu'r cwricwlwm**

2.16 Gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am eu paratoadau i newid y cwricwlwm. Mae Ffigur 8 yn dangos canran yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr a oedd yn cytuno'n gryf, yn cytuno neu'n cytuno i raddau â'r datganiadau hyn. Mae'r gyfres lawn o ymatebion i'w gweld yn Adran 8 ac yn Atodiad C.

- Roedd 97 y cant o uwch arweinwyr a 66 y cant o ymarferwyr yn cytuno bod **eu hysgol wedi treialu dulliau yn y dosbarth sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd.**
- Roedd 95 y cant o uwch arweinwyr a 69 y cant o ymarferwyr yn cytno bod **athrawon yn eu hysgol wedi cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol i gefnogi paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd**.
- Roedd 98 y cant o uwch arweinwyr a 76 y cant o ymarferwyr yn cytno bod eu **hysgol yn adolygu paratoadau ar gyfer addysgu'r cwricwlwm newydd.**

**Ffigur 8. Canran yr uwch arweinwyr a'r ymarferwyr a ymatebodd gydag 'Ydy/ydyn, llawer' neu 'Ydy/ydyn, ychydig' i ddatganiadau ynghylch eu paratoadau i ddylunio, mabwysiadu a gwireddu'r cwricwlwm: pob sector**




N = 322 o uwch arweinwyr, 219 o ymarferwyr

2.17 Er i fwyafrif llethol yr uwch arweinwyr mewn ysgolion (81 y cant) ddweud eu bod wedi **datblygu gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm,** dangosodd yr ymatebion **nad oedd ymarferwyr wastad yn ymwybodol o hyn**. Dywedodd tua hanner (55 y cant) yr ymarferwyr fod eu hysgol wedi **datblygu gweledigaeth ar gyfer ei chwricwlwm newydd**. Dywedodd 19 y cant o ymarferwyr nad oedd eu hysgol wedi datblygu gweledigaeth, tra dywedodd 26 y cant o ymarferwyr nad oeddent yn gwybod.

2.18 Roedd 54 y cant o uwch arweinwyr a 62 y cant o ymarferwyr yn anghytuno â'r datganiad eu bod, hyd yma, **wedi cael digon o amser o fewn calendr yr ysgol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd**.[10]

2.19 Dywedodd uwch arweinwyr fod ***uwch arweinwyr*** a ***staff addysgu*** wedi **gwneud mwy i gyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol** na ***staff cynorthwyol*** a ***dysgwyr***.

[10] Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn cael ei ystyried yn nodedig (Gweler Adran 3 am ddiffiniad o wahaniaethau nodedig).

2.20 Gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oedd ymarferwyr yn eu hysgol yn cydweithio â phartneriaid i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd, yn benodol, cydweithio ag: ***ymarferwyr eraill o fewn yr ysgol, ysgolion eraill*** a ***phartneriaid Addysg Uwch.***

- Dywedodd 98 y cant o uwch arweinwyr a 76 y cant o ymarferwyr fod ymarferwyr yn eu hysgol yn cydweithio naill ai 'llawer' neu 'ychydig' ag ***ymarferwyr eraill o fewn yr ysgol*** i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd.
- Dywedodd 89 y cant o uwch arweinwyr a 41 y cant o ymarferwyr fod ymarferwyr yn eu hysgol yn cydweithio naill ai 'llawer' neu 'ychydig' ag ***ysgolion eraill*** i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd.

*Ymatebion ansoddol i gwestiwn penagored am baratoi*

2.21 Gwahoddwyd ymatebwyr i roi sylwadau ychwanegol i gyd-fynd â'u hymatebion i'r cwestiynau am eu paratoadau i ddylunio, treialu a gwireddu'r cwricwlwm. Dyma'r themâu a grybwyllwyd amlaf gan yr ymatebwyr:


- Crybwyllwyd **pwysau amser** drachefn yn rheolaidd, gyda'r ymatebwyr yn dweud eu bod wedi ymrwymo i ddyheadau'r cwricwlwm ond bod angen mwy o amser i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth i baratoi ar ei gyfer. Pwysleisiodd ymatebwyr **effaith pandemig COVID-19,** gan gyfeirio at yr amser a gymerir i asesu graddau a bennir gan y ganolfan, rheoli lles staff a dysgwyr, a chydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â'r pandemig. O ganlyniad, dywedodd rhai ymatebwyr mai megis dechrau paratoi at y cwricwlwm yr oeddent, yn bennaf oherwydd COVID-19.
- Disgrifiodd ymatebwyr y cyfleoedd **dysgu proffesiynol** yr oeddent wedi'u cael, ond gan grybwyll hefyd eu bod yn teimlo bod angen rhagor o gymorth ymarferol.
- Disgrifiodd rhai ymatebwyr y **rhwydweithio a'r cydweithio** a oedd yn digwydd fel rhan o'u paratoadau.

**Y gallu i ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwireddu'r cwricwlwm**

2.22 Gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am eu gallu i ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwireddu'r cwricwlwm. Mae Ffigur 9 isod yn dangos canran yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr a oedd yn cytuno'n gryf, yn cytuno neu'n cytuno i raddau â'r datganiadau hyn. Mae'r gyfres lawn o ymatebion i'w gweld yn Adran 9 ac yn Atodiad C.

- Roedd 95 y cant o uwch arweinwyr a 75 y cant o ymarferwyr yn cytuno bod ganddynt y **sgiliau i gefnogi'r broses o ddylunio cwricwlwm newydd eu hysgol**.
- Roedd 91 y cant o uwch arweinwyr a 60 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod yn **hyderus y byddant yn gallu manteisio ar y dysgu proffesiynol y bydd ei angen arnynt er mwyn helpu i ddylunio'r cwricwlwm newydd.** Roedd gwahaniaeth amlwg rhwng ymarferwyr cynradd ac uwchradd; roedd 49 y cant o ymarferwyr uwchradd yn cytuno o'u cymharu â 82 y cant o ymarferwyr ysgolion cynradd.
- Roedd 98 y cant o uwch arweinwyr ac 82 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod yn **hyderus yn eu gallu i addasu eu hymarfer proffesiynol mewn ffyrdd a fydd yn eu galluogi i roi'r cwricwlwm newydd ar waith.** Roedd gwahaniaeth amlwg rhwng ymarferwyr cynradd ac uwchradd; roedd 76 y cant o ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd yn cytuno o'u cymharu â 93 y cant o ymarferwyr mewn ysgolion cynradd.

**Ffigur 9: Canran yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr a oedd yn cytuno'n gryf, yn cytuno neu'n cytuno i raddau â datganiadau ynghylch eu gallu i wireddu'r cwricwlwm: pob sector**




N = 323 o uwch arweinwyr, 217 o ymarferwyr

2.23 Roedd mwyafrif yr uwch arweinwyr (85 y cant) yn cytuno bod gan eu **hysgol y caledwedd a'r seilwaith digidol sy'n angenrheidiol i roi'r cwricwlwm newydd ar waith**. Serch hynny, roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd (89 y cant) yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion uwchradd (66 y cant) i gytuno â'r datganiad hwn.

*Ymatebion ansoddol i gwestiwn penagored am allu*

2.24 Gwahoddwyd ymatebwyr i roi unrhyw sylwadau ychwanegol am eu gallu i ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwireddu'r cwricwlwm. Dyma'r themâu a grybwyllwyd amlaf gan yr ymatebwyr:

- Crybwyllodd ymatebwyr drachefn yr heriau o sicrhau bod gan ymarferwyr ddigon o **amser i baratoi at ddylunio'u** cwricwlwm **a'i roi ar waith**;

- Mynegwyd pryderon **nad oedd gan ymarferwyr yr arbenigedd i allu dylunio eu cwricwlwm eu hunain**, ac nad oedd ymarferwyr wedi cael eu hyfforddi i ddatblygu cwricwlwm;
- Dywedodd rhai ymatebwyr fod **ymarferwyr yn teimlo'n frwdfrydig** wrth ddylunio'u cwricwlwm eu hunain, a rhoi hwnnw ar waith, a'u bod yn hoffi'r cyfle i ddatblygu'n broffesiynol a oedd yn gysylltiedig â hyn;
- Mynegodd rhai ymatebwyr **bryderon am y gefnogaeth neu'r hyfforddiant** gan nodi bod angen mwy o gymorth ymarferol ac enghreifftiau i'w dilyn arnynt.

# 3. Methodoleg

3.1 Mae'r adran hon yn rhoi manylion am fethodoleg yr ymchwil. Mae hyn yn cynnwys manylion y broses o ddylunio'r adnodd ymchwil, y gwaith maes a wnaed, y broses ddadansoddi, yr heriau a wynebwyd, a chyfyngiadau'r fethodoleg.

### Yr adnodd ymchwil

3.2 Cynlluniwyd holiadur gan dîm ymchwil Arad, gan weithio gyda'n partneriaid a chael mewnbwn gan swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid haen ganol. Treialwyd yr arolwg ddechrau mis Mehefin ymhlith sampl o ysgolion cynradd ac uwchradd, a chafodd ei ddiwygio yn dilyn hyn. Roedd yr arolwg wedi'i strwythuro o amgylch fframwaith cysyniadol a oedd yn dynodi pum elfen o barodrwydd ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Roedd hwn yn addasiad o fodel a ddatblygwyd gan aelod o'r tîm ymchwil, yr Athro Claire Sinnema.[11] Cafodd y model hwn ei addasu ar ôl cynnal trafodaethau â rhanddeiliaid wrth ddylunio'r arolwg. Cafodd yr arolwg hefyd ei dreialu ymhlith uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am y canlynol:

- **Gwybodaeth** am newid y cwricwlwm
- **Deall sut i ymateb** i newid y cwricwlwm
- **Ymrwymiad** i newid y cwricwlwm
- **Gwaith paratoi** i ddylunio, mabwysiadu a gwireddu'r cwricwlwm
- **Y gallu** i ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwireddu'r cwricwlwm

Mae testun yr arolwg i'w weld yn Atodiad A.

[11] Gweler Sinnema, C. a L. Stoll (2020), *Learning for and realising curriculum aspirations through schools as learning organisations*, European Journal of Education 55, tt. 9-23.

**Dosbarthu'r arolwg**

3.3 Cafodd dolen i arolwg electronig ei hanfon mewn e-bost at benaethiaid holl ysgolion Cymru (dull cyfrifiad) a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo drwy sianeli cyfathrebu Llywodraeth Cymru a'i sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â thrwy gymorth timau cyfathrebu awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol. Roedd yr arolwg yn targedu penaethiaid, uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.[12] Anogwyd penaethiaid a gafodd yr arolwg drwy e-bost i rannu'r ddolen i'r holiadur â'u cydweithwyr. Lansiwyd yr arolwg ar 17 Mehefin 2021 a chaeodd y broses ar 17 Gorffennaf 2021.

3.4 Cafodd y sampl o ymatebion ei monitro'n barhaus, ac anfonwyd negeseuon atgoffa wedi'u targedu at ysgolion i sicrhau cynrychiolaeth dda fesul sector, cyfrwng, daearyddiaeth, maint a chanran y dysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Cafwyd cyfradd ymateb dda, yn enwedig ac ystyried y pwysau a oedd yn wynebu ysgolion ar ddiwedd blwyddyn academaidd yr effeithiodd y pandemig arni'n ddifrifol.

**Sampl yr arolwg**

3.5 I gyd, **daeth 620 o ymatebion i'r arolwg i law.** Roedd y sampl hon yn cynnwys y grwpiau canlynol o ymatebwyr sy'n cael eu dadansoddi ar wahân yn yr adroddiad hwn:

- **345 o ymatebion gan benaethiaid ac uwch arweinwyr** mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion gwahanol (h.y. gan gyfrif un ymateb gan bob ysgol yn unig);[13]
    - Mae hyn yn cyfateb yn fras i 23 y cant o holl boblogaeth yr ysgolion a gynhelir a'r unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru.

[12] Ymatebodd chwech o leoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir i'r arolwg hefyd.
[13] Mewn lleoliadau lle'r ymatebodd y pennaeth ac uwch arweinydd arall, dewiswyd ymateb y pennaeth fel prif ymateb y lleoliad i'w ddadansoddi yn y sampl o 345 o ymatebion unigryw gan ysgolion.

    - Mae'r sampl hon yn adlewyrchu'n fras boblogaeth gyffredinol yr ysgolion yn ôl y math o ysgol (cynradd, uwchradd, Uned Cyfeirio Disgyblion, ysgol arbennig), cyfrwng iaith, rhanbarth daearyddol a chanran y dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim.
        - Gweler Atodiad B i weld proffil y sampl.
- **222 o ymatebion gan ymarferwyr;**
    - ymatebwyr a oedd y rhain a nododd eu bod yn arweinwyr canol, yn athrawon neu'n weithwyr cymorth dysgu yn yr ysgolion a gynrychiolwyd yn y sampl o ymatebion gan benaethiaid ac uwch arweinwyr.
    - roedd y rhain yn cynnwys ymatebion niferus o'r un ysgol mewn rhai achosion.
- Cafwyd **47 o ymatebion ychwanegol i'r arolwg gan uwch arweinwyr** mewn ysgolion lle roedd y pennaeth hefyd wedi ymateb. Mae hon yn sampl rhy fechan i'w dadansoddi'n fanwl. Defnyddiwyd y canlyniadau er mwyn cymharu a dilysu'r brif sampl o ymatebion gan 345 o uwch arweinwyr.
    - Nid oedd gwahaniaethau nodedig rhwng y sampl hon o ymatebwyr a'r brif sampl o 345 o uwch arweinwyr o ysgolion gwahanol, ac felly nid yw'r canlyniadau o'r sampl hon wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad hwn.
- Cwblhaodd **chwech o ymatebwyr o leoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir** yr holiadur.[14] Mae hon yn sampl rhy fechan i'w dadansoddi'n fanwl, er bod y tablau data wedi'u cyflwyno yn Atodiad C.

Mae proffil llawn o'r sampl wedi'i gyflwyno yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

[14] Ni chafodd yr arolwg ei anfon yn uniongyrchol at leoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir, ond mae'n debygol eu bod wedi gweld yr arolwg drwy sianeli cyfathrebu a sianeli cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

**Dadansoddi'r arolwg**

3.6 Mae ymatebion uwch reolwyr ac ymatebion ymarferwyr yn cael eu dadansoddi ar wahân yn yr adroddiad hwn. Wrth ddadansoddi'r arolwg, mae'r termau canlynol yn cael eu defnyddio i ddisgrifio'r grwpiau o ymatebwyr:

- Mae ***uwch arweinwyr*** yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn 'bennaeth', yn 'uwch arweinydd', neu'n gwneud swydd arwain uwch arall (e.e. dirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol);
- Mae ***ymarferwyr*** yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn 'arweinydd canol', yn 'athro', yn 'weithiwr cymorth dysgu' neu'n gwneud swydd arall ar wahân i swydd uwch arweinydd (e.e. Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch, myfyriwr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA), clerc ysgol).

3.7 Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r canrannau cyfanredol a oedd yn cytuno / yn anghytuno â phob cwestiwn, oni bai y nodir hynny'n wahanol. Hynny yw, mae'r canrannau a oedd yn cytuno yn cyfuno'r holl ymatebion a ddynododd eu bod yn *Cytuno'n gryf / Cytuno / Cytuno i raddau*. Mae'r canrannau a oedd yn anghytuno yn cyfuno'r holl ymatebion a ddynododd eu bod yn *Anghytuno'n gryf / Anghytuno / Anghytuno i raddau*. Nodir hynny lle ceir ymatebion i gwestiynau sy'n defnyddio fformatau gwahanol. Mae tablau data sy'n cyflwyno'r holl ymatebion heb fod yn gyfanredol wedi'u cynnwys yn Atodiad C.

3.8 Fel rhan o'r dadansoddiad, mae canlyniadau'r arolwg wedi'u pwysoli pan fydd angen er mwyn sicrhau bod proffil y sampl yn adlewyrchu poblogaeth

yr arolwg yn well.[15] Mae manylion am broffil y boblogaeth a’r sampl a’r dull a ddefnyddiwyd i bwysoli’r data wedi’u cyflwyno yn Atodiad B.

- Mae’r ymateb yn ôl y **math o leoliad** (cynradd, uwchradd, ysgol pob oed (3-16/3-18), unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig) wedi’u pwysoli yn achos uwch arweinwyr ac ymarferwyr;
- Nid yw’r ymatebion wedi’u pwysoli yn ôl cyfrwng iaith y lleoliad gan eu bod yn cael eu hystyried yn ddigon cynrychioladol o’r boblogaeth (uwch arweinwyr yn unig);
- Nid yw’r ymatebion yn ôl **rhanbarth** (y Gogledd, y Canolbarth a’r Gorllewin, y De-Ddwyrain, Canolbarth y De) wedi’u pwysoli gan eu bod yn cael eu hystyried yn ddigon cynrychioladol o’r boblogaeth (uwch arweinwyr yn unig).

3.9 Fel y nodwyd uchod, mabwysiadwyd dull cyfrifiad i ddosbarthu'r arolwg, gyda dull samplu cwota yn cael ei ddefnyddio ar gyfer targedu mathau penodol o leoliadau a cheisio sicrhau bod y sampl mor gynrychioliadol â phosibl o boblogaeth ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.

3.10 Mae'r dull a’r niferoedd a ddewisodd beidio ag ymateb yn golygu na ellir ystyried y sampl o ymatebwyr fel sampl tebygolrwydd, ac felly ni ellir ei chyffredinoli i'r boblogaeth gyfan. Dylid defnyddio profion o arwyddocâd ystadegol ar gyfer samplau tebygolrwydd yn unig. Fel opsiwn amgen, er mwyn cael sail ar gyfer adnabod gwahaniaethau nodedig rhwng ymatebion y gwahanol grwpiau o ymatebwyr, ac i helpu i ganfod patrymau yn y sampl, rydyn ni wedi trin gwahaniaethau sy’n fwy na phwynt canran penodol rhwng grwpiau o ymatebwyr fel 'gwahaniaethau nodedig'.[16]. Mae manylion y

[15] Yn achos penaethiaid ac uwch arweinwyr (cafodd un ymateb gan bob ysgol ei gynnwys yn y dadansoddiad hwn), cafodd y data eu pwysoli i adlewyrchu poblogaeth y lleoliadau. Gwnaed hyn drwy bwysoli’r sampl fel bod canran yr ymatebwyr yn ôl y math o leoliad yn cyfateb i ganran y lleoliadau ym mhob un o’r categorïau canlynol: ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin, ysgolion pob oed (3-16 / 3-19), ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion. Yn achos ymarferwyr, cafodd y data eu pwysoli i adlewyrchu canran yr ymarferwyr cofrestredig ym mhob un o’r mathau hyn o leoliadau ym mhoblogaeth yr athrawon.

[16] Pe bai’r sampl o ymatebwyr yn hapsampl go iawn, yna byddai maint y samplau a gafwyd yn ein galluogi i adrodd canlyniadau’r arolwg gyda lefel hyder o 95 y cant ar sail cyfwng hyder o 5 cant ar gyfer yr holl uwch arweinwyr, 7 y cant ar gyfer yr holl ymarferwyr, 6 y cant ar gyfer uwch arweinwyr

trothwyau a ddefnyddiwyd yn sail i gyflwyno canfyddiadau fel rhai 'nodedig' i'w gweld yn y tabl isod.

**Tabl 1. Y gwahaniaethau mewn pwynt canran rhwng grwpiau o ymatebwyr a ddisgrifir fel gwahaniaethau 'nodedig'**

| **Y gwahaniaethau rhwng pa grwpiau o ymatebwyr** | **Y gwahaniaeth mewn pwynt canran yn yr ymatebion i'w ystyried yn 'nodedig'** |
|---|---|
| Y gwahaniaethau rhwng **uwch arweinwyr** ac **ymarferwyr** | 12 |
| Y gwahaniaethau rhwng **uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd** ac **uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd** | 16 |
| Y gwahaniaethau rhwng **ymarferwyr mewn ysgolion cynradd** ac **ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd** | 20 |
| Y gwahaniaethau rhwng **uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg** ac **uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg** | 14 |
| Y gwahaniaethau rhwng **rhanbarth daearyddol uwch arweinwyr** | 22 |

3.11 Mae'r gwahaniaethau a gyflwynir yn yr adroddiad rhwng gwahanol grwpiau o ymatebwyr yn cael eu hystyried yn nodedig (yn unol â'r diffiniad yn Nhabl 1) oni bai y dynodir hynny'n wahanol yn y testun. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r holl ganfyddiadau ar gyfer uwch arweinwyr ac ymarferwyr, yn ogystal â'r gwahaniaethau nodedig rhwng uwch arweinwyr mewn: ysgolion cynradd ac uwchradd; ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg; a rhanbarthau daearyddol. Pan na chyfeirir at wahaniaethau rhwng y grwpiau uchod o

cynradd, 10 y cant ar gyfer uwch arweinwyr uwchradd, 11 y cant ar gyfer ymarferwyr cynradd, 9 y cant ar gyfer ymarferwyr uwchradd, 6 y cant ar gyfer uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a 9 y cant ar gyfer uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn ystadegol, byddai hyn yn ein galluogi i ddatgan gyda hyder o 95 y cant bod yr ymatebion yn ein sampl o fewn y canrannau hyn yn ganran 'wir' ar gyfer poblogaeth yr ymatebwyr. Mae'r canrannau hyn wedi'u defnyddio fel sail ar gyfer dynodi'r trothwyau yn Nhabl 1.

ymatebwyr, nid oedd gwahaniaethau nodedig i’w crybwyll (mae’r tablau data llawn i’w gweld yn Atodiad C).

**Dadansoddiad ansoddol**

3.12 Mae dull fframwaith wedi’i ddefnyddio i ddadansoddi’r data ansoddol o’r cyfweliadau. Mae hyn yn golygu bod modd dadansoddi nodiadau’r cyfweliadau yn strwythuredig yn ogystal â’n galluogi i ystyried y materion a godgodd o’r data nad oeddent o bosibl wedi cael eu hystyried o’r blaen. Cafodd y dystiolaeth ei hadolygu’n wreiddiol yn ystod sesiwn friffio ymhlith yr ymchwilwyr a oedd wedi cynnal y cyfweliadau. Galluogodd hyn yr ymchwilwyr i gytuno ar y prif themâu a oedd yn deillio o’r dystiolaeth, a rhoddodd hyn sail i’r gwaith dadansoddi dilynol.

**Cyfweliadau dilynol ag ysgolion (Hydref 2021)**

3.13 Cytunodd rhai o’r bobl a ymatebodd i’r arolwg i gymryd rhan yn yr ymchwil ansoddol dilynol, ac felly fe’u gwahoddwyd i gyfweliadau. Roedd pwyslais y trafodaethau hyn ar feithrin dealltwriaeth fanylach o hyd a lled y gweithgarwch ar lefel ysgolion ac o brofiadau arweinwyr ac ymarferwyr wrth ddiwygio’r cwricwlwm.

3.14 I gyd, cynhaliwyd cyfweliadau ansoddol â 48 o bobl ym mis Hydref a mis Tachwedd 2021.

**Heriau a chyfyngiadau’r fethodoleg**

3.15 Wrth ddadansoddi’r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae’n bwysig cofio rhai o’r heriau a wynebwyd wrth wneud y gwaith maes.

3.16 Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod pandemig COVID-19. Wrth i heriau a newidiadau cyson effeithio ar y sector addysg, amharodd hynny yn ei dro ar y cynnydd a wnaed wrth gynnal yr arolwg. Dywedodd nifer o leoliadau nad oedd modd iddynt gymryd rhan yn y gwaith maes, yn aml oherwydd pwysau

gwaith, ansicrwydd, a'r heriau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 o ddydd i ddydd.[17]

3.17 Mae'n bwysig cydnabod y risg o duedd wrth ddethol ymhlith y sampl o uwch arweinwyr sydd wedi cymryd rhan yn yr arolwg. Mae'n bosibl bod uwch arweinwyr a oedd yn ystyried bod eu lleoliad wedi gwneud mwy o gynnydd nag eraill gyda'u gwaith paratoi yn fwy tebygol o gwblhau'r arolwg. Yn yr un modd, mae'n bosibl bod uwch arweinwyr a deimlai nad oedd eu lleoliadau wedi paratoi cymaint ag eraill wedi ystyried yr ymchwil yn gyfle i amlygu unrhyw broblemau yr oeddent yn eu hwynebu. Ceisiodd y gwerthusiad liniaru'r risg hon drwy fabwysiadu dull cwota wrth anfon negeseuon atgoffa at bobl i gwblhau'r arolwg, gan dargedu mathau o ysgolion (yn ôl sector, cyfrwng iaith a rhanbarth) nad oedd wedi'u cynrychioli cystal yn y sampl.

3.18 Mae risg hefyd o duedd wrth ddethol ymhlith y sampl o ymarferwyr a fu'n rhan o'r broses. Er i'r arolwg gael ei anfon yn uniongyrchol at rai ymarferwyr drwy sianeli cyfathrebu fel cylchlythyr Dysg, roedd yn rhaid dibynnu hefyd ar benaethiaid i'w rannu'n fewnol â'u staff. Mae'n bwysig ystyried y gallai rhai penaethiaid fod wedi bod yn fwy tebygol o wneud hynny os oeddent yn teimlo bod eu hysgol wedi paratoi'n dda at ddiwygio'r cwricwlwm. Am y rheswm hwn, dylid ystyried y sampl o ymarferwyr yn sampl cyfleus, ac mae'r canlyniadau wedi'u dehongli yn y cyd-destun hwn.

[17] Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos ysgolion arbennig, a arhosodd ar agor yn ystod llawer o 'gyfnodau clo' 2020 a 2021.

## Adrannau 4-9: Canfyddiadau manwl yr arolwg

## 4. Cwestiynau trosfwaol

4.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n gysylltiedig â'r cwestiynau trosfwaol yn yr arolwg am y paratoadau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg ddynodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau a oedd yn ymwneud â'u paratoadau at y cwricwlwm newydd. Dyma oedd y rhain:


- 'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio ein cwricwlwm ein hunain yn barod i'w gyflwyno fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022';
- 'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i wneud newidiadau i'n harfer proffesiynol yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022';
- 'Mae angen cefnogaeth neu adnoddau ychwanegol ar fy ysgol er mwyn bod yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022'.

**Ymatebion i'r datganiad 'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio ein cwricwlwm ein hunain yn barod i'w gyflwyno fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022'**

4.2 Roedd mwyafrif clir (81 y cant) yr uwch arweinwyr a chanran is (53 y cant) o ymarferwyr yn cytuno â'r datganiad: ***'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio ein cwricwlwm ein hunain yn barod i'w gyflwyno fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022'***.[18]

[18] Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r canrannau cyfanredol a oedd yn cytuno / yn anghytuno â phob cwestiwn, oni bai y nodir hynny'n wahanol. Hynny yw, mae canrannau'r rhai a oedd yn cytuno yn cyfuno'r ymatebion Cytuno'n gryf / Cytuno / Cytuno i raddau. Mae canrannau'r rhai a oedd yn anghytuno yn cyfuno'r ymatebion Anghytuno'n gryf / Anghytuno / Anghytuno i raddau. Dynodir hynny lle ceir ymatebion i gwestiynau mewn fformatau gwahanol.

**Ffigur 10. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad: 'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio ein cwricwlwm ein hunain yn barod i'w gyflwyno fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022': pob sector**





N=319 o uwch arweinwyr, 214 o ymarferwyr

4.3 Roedd mwyafrif clir yr ymarferwyr mewn ysgolion cynradd (79 y cant) yn cytuno â'r datganiad hwn, o'u cymharu â 38 y cant o ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn dangos gwahaniaethau barn pwysig rhwng ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ynghylch eu hargraffiadau o baratoadau ysgolion at gyflwyno'r cwricwlwm.

**Ymatebion i'r datganiad 'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i wneud newidiadau i'n harfer proffesiynol yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022'**

4.4 Roedd mwyafrif clir (86 y cant) yr uwch arweinwyr a chanran is (53 y cant) o ymarferwyr yn cytuno â'r datganiad***: 'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i wneud newidiadau i'n harfer proffesiynol yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022'***.

**Ffigur 11. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad: 'Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i wneud newidiadau i'n harfer proffesiynol yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022': pob sector**





N=315 o uwch arweinwyr, 214 o ymarferwyr

4.5 Roedd mwyafrif clir (80 y cant) yr ymarferwyr mewn ysgolion cynradd yn cytuno â'r datganiad hwn, o'u cymharu â 38 y cant o ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd.

**Ymatebion i'r datganiad 'Mae angen cefnogaeth neu adnoddau ychwanegol ar fy ysgol er mwyn bod yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022'**

4.6 Roedd dwy ran o dair o'r uwch arweinwyr (67 y cant) a dwy ran o dair o'r ymarferwyr (67 y cant) yn cytuno â'r datganiad: ***'Mae angen cefnogaeth neu adnoddau ychwanegol ar fy ysgol er mwyn bod yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022'***.

**Ffigur 12. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad: 'Mae angen cefnogaeth neu adnoddau ychwanegol ar fy ysgol er mwyn bod yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022': pob sector**




N=317 o uwch arweinwyr, 214 o ymarferwyr

4.7 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (84 y cant) yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (61 y cant) o gytuno bod angen cefnogaeth neu adnoddau ychwanegol ar eu hysgol er mwyn bod yn barod at gyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud ym mis Medi 2022.

*Ymatebion ansoddol i gwestiwn penagored am y gefnogaeth ychwanegol y mae ei hangen i fod yn barod at gyflwyno'r cwricwlwm*

4.8 Mewn cwestiwn testun agored, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa gefnogaeth ychwanegol yr oedd ei hangen arnynt. I gyd, dewisodd 155 o ymatebwyr roi sylwadau ysgrifenedig yn ateb y cwestiwn hwn. Mae'r adran hon yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd.

<u>Pwysau amser ac effaith COVID-19</u>

4.9 Y mater a grybwyllwyd amlaf yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd yr angen am ragor o amser i baratoi at y cwricwlwm newydd. Cyfeiriodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr at yr angen am ragor o amser i wneud y canlynol:

- datblygu adnoddau;

- cael cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol yn gysylltiedig â diwygio'r cwricwlwm;
- ysgafnhau llwyth gwaith;
- dylunio'r cwricwlwm;
- cydweithio ag ymarferwyr eraill;
- treialu a gwerthuso;
- rhoi mwy o amser i ymarferwyr i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth i fyfyrio, i ymgysylltu ac i wneud gwaith paratoi angenrheidiol.

4.10 Ystyrid bod y pwysau amser yn fwy difrifol o ganlyniad i effaith COVID-19 ar ysgolion. Disgrifiodd uwch arweinwyr, yn enwedig, y modd roedd staff addysgu yn wynebu llwyth gwaith cynyddol ac yn dioddef o flinder.

> 'Rydyn ni wedi colli dros flwyddyn o amser addysgu oherwydd COVID. Rydyn ni wedi gorfod dygymod ag argyfwng byd-eang a dydyn ni ddim wedi cael amser i roi'r ystyriaeth ddyledus i'r Cwricwlwm i Gymru. Yn syml, does gennyn ni ddim digon o amser na chefnogaeth i allu gwneud ein gorau dros ddysgwyr ym mis Medi 2022. Yn amlwg, fe wnawn ni ein gorau glas, ond yn llythrennol does dim digon o amser i ddylunio a threialu cynlluniau gwaith. Rydyn ni hefyd yn wynebu ansicrwydd ynghylch a fydd mwy o ysgolion yn cau, problemau wrth i staff a disgyblion ynysu, ac ansicrwydd ynghylch dulliau atebolrwydd ac asesu.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd.

4.11 Yn gysylltiedig â phroblem pwysau amser, dywedodd ymatebwyr fod ysgolion wedi blaenoriaethu lles staff a dysgwyr yr effeithiodd y pandemig arnynt. O ganlyniad, dywedodd ysgolion nad oeddent wedi gwneud cymaint o gynnydd gydag elfennau o baratoadau eu cwricwlwm â'r bwriad.

> 'Mae Covid yn sicr wedi cael effaith niweidiol ar ein cynnydd wrth ddatblygu'r cwricwlwm. Rydyn ni'n adennill momentwm, ond serch hynny, dydyn ni ddim wedi mynd mor bell gyda'n hymchwil weithredu a'r gwaith o ddatblygu'r 12 Egwyddor ag y bydden ni pe na bai Covid wedi digwydd. Mae llawer o waith o hyd i'w wneud, ac mae'r galwadau ar y staff yn cynyddu o hyd. Mae'r holl system yn wynebu newid strategol ac mae angen amser i baratoi a gweithredu hyn yn iawn... mae'n hanfodol cael amser ac adnoddau.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd.

4.12 Gan gydnabod bod angen rhagor o gyfleoedd i ryddhau athrawon i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm, dywedodd rhai hefyd – yn ystod y cyfnod adfer hwn – nad oedd yn fuddiol tynnu athrawon o ddosbarthiadau ac ystyried bod dysgwyr wedi colli

amser addysgu sylweddol. Pwysleisiodd ysgolion fod angen i ddysgwyr gael cysondeb yn eu haddysgu. Dyma ddwy elfen sy'n croestynnu ym mhrofiad ysgolion – cydbwyso'u hymrwymiad i weledigaeth y Cwricwlwm i Gymru ar y naill law, ac ar y llall, ceisio gwneud eu gorau i gefnogi dysgwyr sydd wedi dioddef yn sgil yr amharu difrifol a fu ar eu dysgu yn y blynyddoedd diwethaf.

4.13 Ymhlith elfennau eraill o baratoi lle roedd angen rhagor o amser (ac adnoddau) roedd:

- **amser i gyfarfod a datblygu adnoddau** ar gyfer pob Maes – gan gynnwys adnoddau wedi'u teilwra i sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael sylw yn y cwricwlwm;
- **amser ac arian i gael staff llanw er mwyn i staff a'r uwch dîm rheoli** achub ar gyfleoedd hyfforddiant ac addysgu i dimau, a chyfleoedd i dreialu strategaethau ac adnoddau ar y cyd;
- **amser i ganiatáu trafodaethau, gwaith paratoi, a threialu rhwng ysgolion cynradd bwydo ac ysgolion uwchradd.** Dywedodd ymatebwyr fod angen dulliau o weithio drwy glystyrau cyfan er mwyn datblygu dulliau newydd o addysgu a dysgu;
- **amser i ymwneud** â rhieni, llywodraethwyr, partneriaid ac asiantaethau lleol, a busnesau lleol.

> 'Rydyn ni am i'r Cwricwlwm hwn fod yn llwyddiannus ac ar flaen y gad yn y byd. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen amser a gofod arnon ni i ddylunio, treialu, cyflawni a gwreiddio'r cwricwlwm drwy hyfforddiant ac adnoddau rhagorol.' CADY, Ysgol gynradd.

4.14 Dywedodd rhai bod amser ychwanegol i baratoi at y cwricwlwm hefyd yn galw am gyllid, yn enwedig i roi mwy o gymorth i ddisgyblion mewn ystafelloedd dosbarth drwy weithwyr cymorth dysgu. Dywedodd ymatebwyr hefyd y bydd ymwneud â'r gymuned a datblygu neu gael gafael ar ddeunyddiau dysgu newydd, fel y nodir uchod, yn galw am ragor o adnoddau.

Cymorth sy'n gysylltiedig â'r trefniadau asesu

4.15 Gan adlewyrchu sylwadau a wnaed wrth ymateb i gwestiynau eraill yn yr arolwg, crybwyllodd ymatebwyr yr angen am ragor o gymorth i ddeall a pharatoi'r trefniadau asesu a fydd yn cefnogi cynnydd dysgwyr o dan y cwricwlwm newydd (gweler hefyd adrannau 5.12, 6.10 a 6.27). Roedd ymatebwyr am weld mwy o eglurder ynghylch y disgwyliadau o ran asesu a chynnydd, a oedd yn achosi dryswch a rhywfaint o bryder mewn ysgolion – yn enwedig ymhlith ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd nifer o'r ymatebwyr o blaid y pwyslais ar asesu ffurfiannol ond yn dweud hefyd eu bod yn teimlo bod angen mwy o ganllawiau penodol mewn nifer o feysydd. Dyma rai o'r pwyntiau a godwyd sawl tro yn yr ymatebion i'r arolwg:

- ansicrwydd ynghylch **sut y dylid canfod, cofnodi ac adrodd am gynnydd dysgwyr ar hyd continwwm o ddysgu**;
- yr angen i ddatblygu dealltwriaeth am y **cysylltiadau rhwng y cwricwlwm newydd ac asesu yng nghyfnod allweddol 4** drwy gymwysterau allanol;
- sut i **integreiddio'r trefniadau asesu newydd a'r fframwaith llythrennedd a rhifedd** a'r fframwaith cymhwysedd digidol;
- ansicrwydd ynghylch sut i sicrhau **cysondeb** mewn arferion asesu rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd (a'u cymedroli).

4.16 Dywedodd ymatebwyr eu bod yn teimlo bod angen rhagor o ganllawiau am sut y dylai ysgolion ddatblygu'r trefniadau asesu a'u rhoi ar waith.

> 'Rwy'n teimlo ein bod ni'n gweithio'n dda i ddylunio'r cwricwlwm ac yn treialu hyn yn effeithiol yn ein hysgol. Rwy'n llai hyderus am y trefniadau asesu a sut olwg fydd ar y rhain ar ôl 2022.' Pennaeth, ysgol gynradd

Cymorth i gydweithio

4.17 Roedd cydweithio, neu gymorth i hwyluso cydweithio, yn thema arall amlwg lle gofynnwyd i ymatebwyr roi sylwadau am yr anghenion cymorth ychwanegol. Disgrifiodd llawer o bobl bwysigrwydd gallu rhwydweithio gydag ysgolion eraill i rannu arferion da a chydlynu â'u clystyrau. Teimlid y dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol flaenoriaethu cyfleoedd i ysgolion ryngweithio, trafod dulliau gweithio, a rhannu syniadau ac adnoddau ymarferol y gellid eu defnyddio yn

yr ystafell ddosbarth. Dyma’r pwyntiau a godwyd amlaf yn yr atebion ysgrifenedig ynghylch cydweithio:

- yr **angen am ragor o amser** i gydweithio ag ysgolion clwstwr a threialu arferion addysgu a dysgu newydd;
- y potensial i ddefnyddio’r prif bethau a **ddysgir gan ysgolion sydd wedi gwneud mwy o gynnydd** gyda’u paratoadau i gyflwyno’r cwricwlwm, gan gynnwys ysgolion arloesi a braenaru;
- **gwerth ymweliadau ag ysgolion eraill** i weld y cwricwlwm newydd yn gweithio’n ymarferol, pan fydd ysgolion wedi dechrau treialu dulliau newydd neu eu rhoi ar waith;
- neilltuo amser i athrawon ysgolion uwchradd dreulio amser mewn ysgolion cynradd yn **arsylwi ac yn dysgu o’r ymarfer.**

> ‘mae angen amser i gydweithio ag ysgolion clwstwr arnon ni, ac i dreialu arferion da, a dydy’r amser hwn ddim wedi bod ar gael oherwydd y pandemig.’ Pennaeth, ysgol gynradd.

## 5. Gwybodaeth am newid y cwricwlwm

5.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil sy'n gysylltiedig â gwybodaeth ymatebwyr am newidiadau i'r cwricwlwm. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg ddynodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am eu gwybodaeth ynghylch newid y cwricwlwm. Dyma oedd y rhain:


- 'Mae'r rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm yn glir i mi'
- 'Rwy'n gwybod beth sy'n ofynnol yn fy ysgol i sicrhau bod dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu cyflawni'
- 'Rwy'n glir ynghylch yr hyn a fydd yn aros yr un fath a'r hyn a fydd yn wahanol yn fy ysgol o dan drefniadau newydd y cwricwlwm'
- 'Rwy'n glir ynghylch yr hyn a fydd yn aros yr un fath a'r hyn a fydd yn wahanol yn fy ysgol o dan y trefniadau asesu newydd'

5.2 Mewn cwestiwn testun agored, gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd roi sylwadau ysgrifenedig i gyd-fynd â'u hatebion.

**Ymatebion i'r datganiad 'Mae'r rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm yn glir i mi'**

5.3 Roedd mwyafrif llethol (97 y cant o) yr uwch arweinwyr a mwyafrif yr ymarferwyr (74 y cant) yn cytuno bod y '***rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm yn glir i mi***'.

**Ffigur 13. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad 'Mae'r rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm yn glir i mi':**





N = 345 o uwch arweinwyr, 222 o ymarferwyr

**Ymatebion i'r datganiad 'Rwy'n gwybod beth sy'n ofynnol yn fy ysgol i sicrhau bod dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu cyflawni'**

5.4 Roedd mwyafrif llethol (95 y cant) yr uwch arweinwyr a 69 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod yn '***gwybod beth sy'n ofynnol yn fy ysgol i sicrhau bod dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu cyflawni***'.

**Ffigur 14. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad 'Rwy'n gwybod beth sy'n ofynnol yn fy ysgol i sicrhau bod dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu cyflawni': pob sector**





N = 343 o uwch arweinwyr, 221 o ymarferwyr

5.5 Roedd ymarferwyr mewn ysgolion cynradd (92 y cant) yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na'r rheini mewn ysgolion uwchradd (57 y cant).

**Ymatebion i'r datganiad 'Rwy'n glir ynghylch yr hyn a fydd yn aros yr un fath a'r hyn a fydd yn wahanol yn fy ysgol o dan drefniadau newydd y cwricwlwm'**

5.6 Roedd mwyafrif llethol yr uwch arweinwyr (89 y cant) a 59 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod yn ***'glir ynghylch yr hyn a fydd yn aros yr un fath a'r hyn a fydd yn wahanol yn fy ysgol o dan drefniadau newydd y cwricwlwm'***.

**Ffigur 15. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad 'Rwy'n glir ynghylch yr hyn a fydd yn aros yr un fath a'r hyn a fydd yn wahanol yn fy ysgol o dan drefniadau newydd y cwricwlwm': pob sector**




N = 343 o uwch arweinwyr, 222 o ymarferwyr


5.7 Roedd ymarferwyr mewn ysgolion cynradd (84 y cant) yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na'r rheini mewn ysgolion uwchradd (46 y cant).

**Ymatebion i'r datganiad 'Rwy'n glir ynghylch yr hyn a fydd yn aros yr un fath a'r hyn a fydd yn wahanol yn fy ysgol o dan drefniadau newydd y cwricwlwm'**

5.8 Roedd ychydig o dan hanner (46 y cant) yr uwch arweinwyr a dros hanner (57) yr ymarferwyr yn anghytuno â'r datganiad: ***'Rwy'n glir ynghylch yr hyn a fydd yn aros yr un fath a'r hyn a fydd yn wahanol yn fy ysgol o dan y trefniadau asesu newydd'***[19]

[19] Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn cael ei ystyried yn nodedig (Gweler Adran 3 am ddiffiniad o wahaniaethau nodedig).

**Ffigur 16. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad 'Rwy'n glir ynghylch yr hyn a fydd yn aros yr un fath a'r hyn a fydd yn wahanol yn fy ysgol o dan y trefniadau asesu newydd': pob sector**




N = 343 o uwch arweinwyr, 222 o ymarferwyr

5.9 Roedd ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd (70 y cant) yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na'r rheini mewn ysgolion cynradd (31 y cant).

5.10 Roedd uwch arweinwyr o ranbarth Canolbarth y De (30 y cant) yn llai tebygol na'r rheini o ranbarthau'r Canolbarth a'r Gorllewin (52 y cant) a'r De-ddwyrain (62 y cant) o gytuno â'r datganiad hwn. Roedd ymatebwyr o ranbarth y Gogledd yn llai tebygol o gytuno (36 y cant) na'r rheini o ranbarth y De-ddwyrain (62 y cant).

*Ymatebion ansoddol i gwestiwn penagored am wybodaeth am drefniadau newydd y cwricwlwm*

5.11 Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sylwadau ychwanegol am y datganiadau ynghylch eu gwybodaeth am drefniadau newydd y cwricwlwm. I gyd, dewisodd 167 o ymatebwyr roi sylwadau ysgrifenedig yn ateb y cwestiwn hwn. Mae'r adran hon yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd.

<u>Gwybodaeth am y trefniadau asesu</u>

5.12 Dywedodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr i'r arolwg fod ganddynt ddiffyg gwybodaeth am natur yr asesiadau i gefnogi cynnydd dysgwyr o dan y trefniadau newydd. Teimlid nad oedd digon o wybodaeth am asesu a/neu bod y wybodaeth honno'n aneglur o'i chymharu ag elfennau eraill yn fframwaith a chanllawiau'r

Cwricwlwm i Gymru. Dywedodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod yr ansicrwydd hwn yn ei gwneud hi'n anodd cynllunio at garfannau'r dyfodol, yn enwedig wrth edrych yn eu blaenau at asesu ar lefel TGAU a'r cymwysterau newydd a oedd yn cael eu datblygu. Datgelodd rhai ymatebion i'r arolwg bod y cwestiynau cyson am asesu yn effeithio ar allu arweinwyr ysgolion i sicrhau bod staff yn ymwneud â'r broses, ac ar eu gallu i wneud cynnydd gydag elfennau eraill o baratoadau'r cwricwlwm:

'Rwy'n pryderu am sut mae'r cwricwlwm newydd yn mynd i gael ei asesu. Wrth gyflwyno'r cwricwlwm i'r staff, dyma'r cwestiwn sydd gan yr holl staff uwchradd, a byddai'n haws sicrhau eu hymrwymiad nhw gyda'r wybodaeth hon!' Uwch arweinydd, ysgol pob oed.

5.13 Gan roi sylwadau i gwestiynau am eu gwybodaeth am y diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu, mynegodd ymatebwyr i'r arolwg bryder am sut y gellid sicrhau cysondeb yn y trefniadau asesu i gefnogi cynnydd dysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys cysondeb rhwng dulliau gweithio athrawon yn yr un ysgol, cysondeb o fewn clystyrau, a chysondeb rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.

5.14 Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau ysgrifenedig yn rhai gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr a deimlai fod aneglurder yn hyn o beth, a bod angen rhagor o ganllawiau. Cyfeiriodd eraill at broblemau penodol yn gysylltiedig ag asesu, gan gynnwys:

- Mynegodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd **ansicrwydd ynghylch sut y byddai asesu'n digwydd** i gefnogi cynnydd dysgwyr yn ystod y cyfnod sy'n cyfateb i gyfnod allweddol 3 ar hyn o bryd;

'Dim syniad sut y bydd CA3 yn cael ei asesu – lefelau? Tracio sgiliau? Pa ddata fydd eu hangen wrth adrodd i rieni neu i Lywodraeth Cymru?' Athro ysgol uwchradd

- Yr angen i esbonio **a fydd y meini prawf ar gyfer asesu yn cael eu safoni ac os hynny sut;** dywedodd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd ei bod yn debygol y byddai amrywiaeth eang o wahanol systemau asesu yn cael eu defnyddio yng Nghymru cyn TGAU;

'Y cyfan rwy'n ei wybod yw bod camau cynnydd. Does gen i ddim rhagor o wybodaeth am brofi cenedlaethol nac am unrhyw ddata a fydd yn cael eu casglu, nac am unrhyw gymedroli y bydd angen ei wneud, ac yn y blaen.' Pennaeth, ysgol gynradd.

- Pryderon am **sut i adrodd am gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion** at ddibenion atebolrwydd i Estyn a rhieni;
- Diffyg eglurder ynghylch **sut y byddai cynnydd dysgwyr yn cael ei dracio** – yn enwedig ymhlith y grwpiau mwyaf agored i niwed.

5.15 Yn yr achosion lle’r oedd ysgolion wedi dechrau’r broses o ddatblygu eu modelau asesu eu hunain i gofnodi cynnydd dysgwyr, dywedodd nifer fod angen sicrwydd bod y modelau hyn yn addas ac y byddent yn bodloni anghenion partneriaid eraill yn y system, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y consortiwm rhanbarthol ac Estyn.

> ‘Mae’r Uwch Dîm Arwain wedi darllen canllawiau’r cwricwlwm ac wedi defnyddio’r rhain i ddatblygu model ar gyfer cynnydd ac asesu. Serch hynny, rydyn ni’n teimlo ein bod ni angen sicrwydd a rhagor o ganllawiau yn y maes hwn i sicrhau ein bod ni’n gwneud cynnydd gyda’r Cwricwlwm i Gymru.’ Uwch arweinydd, ysgol gynradd.

> ‘Mae gan yr ysgol asesiadau diagnostig mewnol cadarn ar gyfer sillafu, darllen a rhifedd a model ar gyfer casglu amrywiaeth o wybodaeth er mwyn i athrawon lunio barn wybodus am sut mae disgyblion yn gwneud cynnydd. Ein model ni’n hunain yw hwn – dydyn ni ddim yn gwybod a yw’n gweddu i’r cwricwlwm newydd neu beidio, gan nad yw’n asesu’n uniongyrchol o dan y MDPh.’ Pennaeth, ysgol gynradd.

<u>Cyfathrebu a gwybodaeth i wella dealltwriaeth o’r Cwricwlwm i Gymru</u>

5.16 Wrth ateb yr un cwestiwn, rhoddodd ymatebwyr sylwadau am y wybodaeth a’r canllawiau a oedd ar gael i wella dealltwriaeth o’r Cwricwlwm i Gymru. Dywedodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod swmp y wybodaeth sydd wedi’i chyhoeddi yn ei gwneud hi’n anodd symud drwy’r dogfennau canllaw a’u defnyddio.

5.17 Dywedodd uwch arweinwyr eu bod wedi addasu a ‘hidlo’ canllawiau Llywodraeth Cymru i’w defnyddio yn ystod sesiynau dysgu proffesiynol mewnol yn yr ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn fwy hygyrch i athrawon. Rhoddodd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd enghreifftiau o hyn. Dywedodd ymarferwyr hefyd eu bod wedi treulio amser yn adolygu’r canllawiau ac yn addasu elfennau ohonynt i wella’u gwybodaeth. Serch hynny, roedd rhai ymarferwyr yn erfyn am ganllawiau mwy ymarferol i helpu gyda’r broses o ddylunio’r cwricwlwm a’i roi ar waith.

> ‘Mae ysgolion yn teimlo bod y canllawiau a’r damcaniaethu yn eu llethu. Mae angen cymorth ymarferol i symud ymlaen...’ Pennaeth, ysgol gynradd.

> ‘Er bod llawer o waith wedi'i wneud a llawer o wybodaeth ar y we, nid yw'n glir sut y dylai ysgolion cynllunio a llunio Cwricwlwm ei hunain. Does dim digon o wybodaeth am asesu wedi cael ei rhyddhau hyd yn hyn.’ Ymarferydd, ysgol gynradd.

5.18 Er bod y rhan fwyaf o bobl yn gadarnhaol am ddyheadau ac egwyddorion bras y Cwricwlwm i Gymru, dywedodd nifer o ymarferwyr – mewn ysgolion cynradd ond mewn ysgolion uwchradd yn enwedig – nad oeddent yn deall yn llwyr sut y byddai’r newidiadau’n cael ‘eu rhoi ar waith yn ymarferol’.

> ‘Rwy’n deall y diwygiadau, pam eu bod nhw’n digwydd, a’r dyheadau, ond mae gwahaniaeth mawr rhwng y dyheadau a realiti’r hyn sy’n mynd i ddigwydd.’ Ymarferydd, ysgol gynradd.

5.19 Dywedodd nifer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr eu bod yn siomedig nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth gan ysgolion arloesi i’w helpu i ddeall y cwricwlwm. Teimlai’r unigolion hyn eu bod “ddwy neu dair blynedd” ar ôl yr ysgolion a oedd wedi bod yn rhan o’r broses ddiwygio am gyfnod hwy.

<u>Effaith COVID-19 ar ddealltwriaeth pobl o’r diwygiadau i’r cwricwlwm a sut y maent wedi ymwneud â’r broses</u>

5.20 Cyfeiriodd ymatebwyr at yr amharu a fu ar addysgu a dysgu dros y 18 mis blaenorol, ac at y ffaith bod pwyslais athrawon wedi bod ar addasu i addysgu o bell ac ar fodelau darparu newydd. Golygai hyn nad oedd dealltwriaeth pobl o’r cwricwlwm newydd wedi’i datblygu cymaint ag y byddai wedi gwneud fel arall. Roedd diffyg cydweithio ag ysgolion eraill ac ysgolion yn gweithio mewn ffyrdd mwy ynysig wedi bod yn rhwystr i greu dealltwriaeth o’r Cwricwlwm i Gymru.

> ‘Oherwydd y pandemig mae tua dwy flynedd wedi’u colli o’r broses o ddeall a rhoi cynnig ar y cwricwlwm newydd yn gyson yn yr ysgol, gyda’r gwahanol oedrannau. Dydy’r pandemig ddim wedi galluogi unrhyw ymchwil weithredu sylweddol yn yr ysgol mewn rhai o’r meysydd newydd ac felly mae hynny wedi amharu ar ba mor gyflym y bydd ysgolion yn ‘barod am y cwricwlwm newydd’’. Pennaeth, ysgol gynradd.

5.21 Dywedodd uwch arweinwyr hefyd fod lefelau dealltwriaeth athrawon o’r newidiadau yn amrywio, gyda’r amrywiad hwn yn aml yn dibynnu ar lefel y trafodaethau a’r arweinyddiaeth mewn Meysydd.

Dealltwriaeth o weledigaeth y Cwricwlwm i Gymru

5.22 Cymysg oedd barn pobl am weledigaeth y Cwricwlwm i Gymru. Wrth ateb y cwestiwn hwn am eu gwybodaeth am y diwygiadau, dywedodd rhai ymatebwyr eu bod o blaid y weledigaeth a'r dyheadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, gan nodi bod gan y fframwaith y potensial i roi'r sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen ar blant a phobl ifanc mewn byd sy'n newid. Cyfeiriodd yr ymatebwyr hyn at deimlo'n gyffrous am y diwygiadau, gan fynegi'u hymrwymiad i wireddu gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru.

5.23 Mynegodd lleiafrif o ymatebwyr feirniadaeth am weledigaeth y Cwricwlwm i Gymru, a hynny ar lefel genedlaethol a lefel gweledigaeth yr ysgol ill dwy. Dywedodd rhai ymarferwyr nad oeddent yn ymwybodol o weledigaeth eu hysgol ac felly nad oeddent yn gwybod beth fyddai'n newid drwy roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Roedd eraill yn deall yr egwyddorion bras ond yn teimlo bod diffyg eglurder ynghylch sut y mae disgwyl i bethau ddigwydd yn ymarferol. Nid oedd nifer bychan naill ai'n deall y rhesymeg dros ddiwygio'r cwricwlwm a gallu hynny i arwain at y newidiadau y dymunir eu gweld, neu nid oeddent yn cytuno â'r rhesymeg honno.

> 'Rwy'n deall y diwygiadau, pam eu bod nhw'n digwydd, a'r dyheadau, ond mae gwahaniaeth mawr rhwng y dyheadau a realiti'r hyn sy'n mynd i ddigwydd.' Ymarferydd, ysgol gynradd.

## 6. Deall sut i ymateb i newid y cwricwlwm

6.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau sy'n ymwneud â dealltwriaeth ymarferwyr o sut i ymateb i newid y cwricwlwm. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg ddynodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am eu paratoadau at y cwricwlwm newydd. Dyma oedd y rhain:

- 'Rwy'n deall yr hyn sy'n ofynnol i fy ysgol ei wneud er mwyn dylunio ein cwricwlwm ein hunain i gyd-fynd â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru'
- 'Rwy'n deall yr hyn sy'n ofynnol i fy ysgol ei wneud er mwyn cynllunio ein trefniadau asesu ein hunain i gyd-fynd â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru'
- 'Rwy'n deall yr hyn sydd angen i mi wneud er mwyn paratoi ar gyfer a gweithredu newidiadau i'r cwricwlwm yn fy ysgol'
- 'Yn seiliedig ar y cynnydd hyd yma, rwy'n hyderus y byddaf yn gallu ymgorffori'r elfennau canlynol o'r Cwricwlwm i Gymru yn fy ymarfer proffesiynol o fis Medi 2022'
    - y pedwar diben;
    - y Meysydd[20];
    - y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig;
    - yr egwyddorion cynnydd;
    - y disgrifiadau dysgu;
    - y 12 egwyddor addysgegol;
    - y sgiliau gorfodol trawsgwricwlaidd (Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol);
    - y themâu trawsbynciol: Profiadau sy'n Gysylltiedig â Gyrfaoedd a Gwaith; Addysg Hawliau Dynol, Amrywiaeth;


[20] Wedi'u labelu â 'MDPh' yn yr holiadur gwreiddiol.

- elfennau gorfodol y cwricwlwm: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Cymraeg a Saesneg.

**Ymatebion i'r datganiad 'Rwy'n deall yr hyn sy'n ofynnol i fy ysgol ei wneud er mwyn dylunio ein cwricwlwm ein hunain i gyd-fynd â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru'**

6.2 Roedd mwyafrif helaeth yr uwch arweinwyr (91 y cant) a 68 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod yn '***deall yr hyn sy'n ofynnol i fy ysgol ei wneud er mwyn dylunio ein cwricwlwm ein hunain i gyd-fynd â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru***'.

**Ffigur 17. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad 'Rwy'n deall yr hyn sy'n ofynnol i fy ysgol ei wneud er mwyn dylunio ein cwricwlwm ein hunain i gyd-fynd â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru': pob sector**




N = 341 o uwch arweinwyr, 221 o ymarferwyr

6.3 Roedd ymarferwyr mewn ysgolion cynradd (86 y cant) yn fwy tebygol nag ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd (60 y cant) o gytuno â'r datganiad hwn.


**Ymatebion i'r datganiad 'Rwy'n deall yr hyn sy'n ofynnol i fy ysgol ei wneud er mwyn cynllunio ein trefniadau asesu ein hunain i gyd-fynd â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru'**

6.4 Roedd rhaniad gweddol gytbwys ymhlith uwch arweinwyr ac ymarferwyr o ran y canrannau a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r datganiad: ***'Rwy'n deall yr hyn***

***sy'n ofynnol i fy ysgol ei wneud er mwyn cynllunio ein trefniadau asesu ein hunain i gyd-fynd â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru'***

- Roedd 45 o uwch arweinwyr yn cytuno â'r datganiad hwn a 41 y cant yn anghytuno.
- Roedd 41 y cant o ymarferwyr yn cytuno â'r datganiad a 46 y cant yn anghytuno.[21]

**Ffigur 18. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad 'Rwy'n deall yr hyn sy'n ofynnol i fy ysgol ei wneud er mwyn cynllunio ein trefniadau asesu ein hunain i gyd-fynd â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru': pob sector**




N = 343 o uwch arweinwyr, 221 o ymarferwyr

6.5 Roedd ymarferwyr mewn ysgolion cynradd (57 y cant) yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na'r rheini mewn ysgolion uwchradd (33 y cant).


6.6 Roedd uwch arweinwyr o ranbarth Canolbarth y De (31 y cant) yn llai tebygol na'r rheini o ranbarthau'r Canolbarth a'r Gorllewin (56 y cant) a'r De-ddwyrain (60 y cant) o gytuno â'r datganiad hwn.

[21] Nid yw'r gwahaniaeth hwn rhwng uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn cael ei ystyried yn nodedig (Gweler Adran 3 am ddiffiniad o wahaniaethau nodedig).

**Ymatebion i'r datganiad 'Rwy'n deall yr hyn sydd angen i mi wneud er mwyn paratoi ar gyfer a gweithredu newidiadau i'r cwricwlwm yn fy ysgol'**

6.7 Roedd mwyafrif llethol yr uwch arweinwyr (92 y cant) a 60 y cant o ymarferwyr yn cytuno eu bod yn ***'deall yr hyn sydd angen i mi wneud er mwyn paratoi ar gyfer a gweithredu newidiadau i'r cwricwlwm yn fy ysgol'***.

**Ffigur 19: Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad 'Rwy'n deall yr hyn sydd angen i mi wneud er mwyn paratoi ar gyfer a gweithredu newidiadau i'r cwricwlwm yn fy ysgol': pob sector**




N = 341 o uwch arweinwyr, 221 o ymarferwyr

6.8 Roedd ymarferwyr mewn ysgolion cynradd (81 y cant) yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na'r rheini mewn ysgolion uwchradd (50 y cant).

*Ymatebion ansoddol i gwestiwn penagored am ddeall sut i ymateb i newid y cwricwlwm*

6.9 Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sylwadau ychwanegol am y datganiadau ynghylch eu dealltwriaeth o sut i ymateb i drefniadau'r cwricwlwm newydd. I gyd, rhoddodd 101 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig yn ateb y cwestiwn hwn. Mae'r adran hon yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd.

Deall y trefniadau asesu

6.10 Roedd y sylwadau gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr wrth ateb y cwestiwn hwn yn adleisio nifer o'r pwyntiau a godwyd mewn ymatebion i gwestiynau eraill, gan

gynnwys mewn perthynas ag asesu. Dywedwyd bod asesu yn o'r elfennau yn y broses o ddiwygio'r cwricwlwm y mae gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr y lleiaf o wybodaeth yn ei chylch, gyda llawer yn cyfeirio at amwysedd y disgwyliadau o ran asesu i gefnogi cynnydd dysgwyr.

> 'Rwy'n deall beth sy'n ofynnol, ond yn teimlo nad yw hyn yn cyd-fynd... dydw i ddim yn deall ar hyn o bryd sut y byddwn ni'n asesu gan ein bod ni wedi cael cyngor bod y camau cynnydd yn rhan o ddyluniad y cwricwlwm yn hytrach nag asesu.' Athro, ysgol gynradd.

6.11 Dywedodd uwch arweinwyr, gan gynnwys y rheini a deimlai eu bod wedi meithrin dealltwriaeth dda o'r Cwricwlwm i Gymru, ei bod yn 'anodd edrych ymhellach ymlaen' gyda hyder llwyr oherwydd yr ansicrwydd a oedd yn gysylltiedig â'r trefniadau asesu a chynnydd. Dywedodd nifer o ysgolion eu bod wedi cyflwyno neu wedi treialu systemau newydd a 'blaengar' ar sail fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Nid oeddent yn sicr a fyddai Estyn yn deall neu hyd yn oed yn 'hoffi' yr hyn yr oeddent yn ei wneud fel ysgol o ran y dulliau asesu ffurfiannol a chrynodol.

> 'Yn fy ysgol i, rydyn ni wedi edrych yn ofalus ar ein trefniadau asesu presennol ac wedi ystyried pa asesiadau sy'n rhoi'r mwyaf o wybodaeth inni am blant unigol ac yn ein galluogi i ganfod meysydd i'w datblygu. Rydyn ni'n teimlo bod hyn wedi rhoi gwell dealltwriaeth inni o ddysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr. Serch hynny, rydyn ni'n teimlo ein bod ni wedi bod yn 'ddewr' gan nad yw nifer o ysgolion eraill wedi cymryd y naid hon. Rydyn ni'n gobeithio ein bod ni ar y trywydd iawn, ond mae angen rhagor o wybodaeth arnon ni.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd.

<u>Amser i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwygio'r cwricwlwm</u>

6.12 Ailadroddodd ymatebwyr bryderon am ddiffyg amser i ddatblygu eu dealltwriaeth o newid y cwricwlwm, a dywedwyd hefyd bod pandemig COVID-19 wedi gwaethygu'r heriau hyn. Pe baent yn cael mwy o amser i baratoi at gyflwyno'r cwricwlwm, tybiai ymatebwyr y byddai hyn yn galluogi ymarferwyr i fod yn fwy trylwyr, i ymwneud yn well â'r broses, ac i fod yn fwy hyderus wrth gyfrannu at newid y cwricwlwm.

<u>Deall y broses o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm</u>

6.13 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y broses o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm. Roedd y sylwadau'n dangos mai cymysg oedd y farn am hyn. Dywedodd rhai – uwch arweinwyr yn bennaf – fod dealltwriaeth glir ledled yr ysgol o'r broses gynllunio, a'u

bod yn trafod â rhanddeiliaid perthnasol ac yn gwreiddio adolygu a gwerthuso yn eu proses gynllunio. Serch hynny, teimlai eraill fod eu diffyg dealltwriaeth gyffredinol o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt fel rhan o'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm yn amharu ar eu gallu i gefnogi'r gwaith o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm yn effeithiol. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y dasg o gyfrannu at y broses o ddylunio'r cwricwlwm yn brofiad cwbl newydd iddynt, a bod hynny wedi arwain at heriau. Dywedodd yr ymatebwyr hyn y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael canllawiau mwy strwythuredig ac enghreifftiau ymarferol yn sail i drafodaethau.

> 'Ddim yn sicr sut y dylai'r broses gynllunio edrych o ran cynlluniau tymor hir, canolig a byr. Tybed a fydd unrhyw fformatau cynllunio'n cael eu rhannu ag ysgolion, a disgwyliad o'r hyn a ddylai gael ei gynnwys mewn cynlluniau tymor byr a chanolig.' Pennaeth, ysgol gynradd.

> 'Mae dylunio cwricwlwm yn rhywbeth cwbl anghyfarwydd a newydd i'r rhan fwyaf o sefydliadau. Mae yna newid yn y disgwyliadau wedi bod yn ystod y broses wrth gyfeirio nawr at y 'fframwaith y Cwricwlwm i Gymru' yn golygu bod ysgolion/clystyrau unigol yn gyfrifol am lunio'r cwricwlwm cyn dechrau ystyried cynlluniau dysgu - er hynny nid yw'r gyfran o DPP sydd gan athrawon wedi cynyddu yn genedlaethol er mwyn diwallu hyn. Rhaid cydnabod bod mewnbwn arbenigydd cwricwlwm wrth lunio cwricwlwm newydd yn hanfodol. Rydym yn awyddus i baratoi ar gyfer gweithredu newidiadau ond mae sut i fynd ati i wneud hyn wedi bod yn rhwystr cyson. Mae'r Arweinwyr maes wedi arbrofi, ymholi a mapio ar gyfer eu meysydd uwchradd ond mae ceisio datblygu ffordd o gofnodi'r continwwm hwn ar draws y clwstwr ar gyfer 3 - 16 mewn ffordd sy'n ymarferol i athrawon eu defnyddio a'u ddeall o flwyddyn i flwyddyn wedi profi i fod yn her ac nid oes datrysiad wedi dod i'r amlwg hyd yn hyn.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd.

**Ymateb i'r datganiad 'Yn seiliedig ar y cynnydd hyd yma, rwy'n hyderus y byddaf yn gallu ymgorffori'r elfennau canlynol o'r Cwricwlwm i Gymru yn fy ymarfer proffesiynol o fis Medi 2022'**

6.14 Roedd mwyafrif llethol yr uwch arweinwyr yn cytuno eu bod yn hyderus y gallent ymgorffori'r elfennau canlynol o'r Cwricwlwm i Gymru yn eu hymarfer proffesiynol o fis Medi 2022:

- **y pedwar diben** (98 y cant);
- **y Meysydd** (95 y cant);
- **y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig** (93 y cant);


- **y sgiliau gorfodol trawsgwricwlaidd** (Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol) (97 y cant);
- **y 12 egwyddor addysgegol** (95 y cant).

6.15 Roedd mwyafrif clir o blith yr uwch arweinwyr yn cytuno eu bod yn hyderus y gallent ymgorffori'r elfennau canlynol o'r Cwricwlwm i Gymru yn eu hymarfer proffesiynol:

- **y themâu trawsbynciol: Profiadau sy'n Gysylltiedig â Gyrfaoedd a Gwaith; Addysg Hawliau Dynol, Amrywiaeth** (roedd 83 y cant yn cytuno);
- **y disgrifiadau dysgu** (82 y cant);
- **elfennau gorfodol y cwricwlwm: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Cymraeg a Saesneg** (82 y cant).

6.16 Roedd mwyafrif clir o blith yr uwch arweinwyr yn cytuno eu bod yn hyderus y gallent ymgorffori'r **egwyddorion cynnydd** yn eu hymarfer proffesiynol (75 y cant). Mae'r lefel is hon o gytuno, o'i chymharu â'r elfennau eraill yn y cwricwlwm, yn adlewyrchu rhai o'r pwyntiau ynghylch deall asesu a chynnydd a godwyd yn yr ymatebion ansoddol (gweler hefyd adrannau 5.12, 6.10, 6.27).

**Ffigur 20. Ymateb uwch arweinwyr i'r datganiad 'Yn seiliedig ar y cynnydd hyd yma, rwy'n hyderus y byddaf yn gallu ymgorffori'r elfennau canlynol o'r Cwricwlwm i Gymru yn fy ymarfer proffesiynol o fis Medi 2022': pob sector**




Nodyn: Am resymau gofod, defnyddir 'N/A' uchod i dalfyrru'r opsiwn ateb 'Nid yw hwn yn berthnasol i mi'.

N=341


6.17 O'u cymharu â'r uwch arweinwyr, roedd canran is o ymarferwyr (er yn fwyafrif o hyd ym mhob achos) yn cytuno eu bod yn hyderus y gallent ymgorffori'r elfennau canlynol o'r Cwricwlwm i Gymru yn eu hymarfer proffesiynol o fis Medi 2022:

- **Y pedwar diben:** 74 y cant o ymarferwyr, o'u cymharu â 98 y cant o uwch arweinwyr;

- **Y Meysydd:**[22] 72 y cant o ymarferwyr, o'u cymharu â 95 y cant o uwch arweinwyr;
- **Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:** 70 y cant o ymarferwyr, o'u cymharu â 93 y cant o uwch arweinwyr;
- **Yr egwyddorion cynnydd:** 56 y cant o ymarferwyr, o'u cymharu â 75 y cant o uwch arweinwyr;
- **Y disgrifiadau dysgu:** 64 y cant o ymarferwyr, o'u cymharu ag 82 y cant o uwch arweinwyr;
- **Y sgiliau gorfodol trawsgwricwlaidd:** 78 y cant o ymarferwyr, o'u cymharu â 97 y cant o uwch arweinwyr;
- **Elfennau gorfodol y cwricwlwm: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Cymraeg a Saesneg:** 59 y cant o ymarferwyr, o'u cymharu ag 82 y cant o uwch arweinwyr;
- **Y themâu trawsbynciol: Profiadau sy'n Gysylltiedig â Gyrfaoedd a Gwaith; Addysg Hawliau Dynol, Amrywiaeth:** 62 y cant o ymarferwyr, o'u cymharu ag 83 y cant o uwch arweinwyr.

[22] Wedi'u labelu â 'MDPh' yn yr holiadur gwreiddiol.

**Ffigur 21. Ymateb ymarferwyr i’r datganiad ‘Yn seiliedig ar y cynnydd hyd yma, rwy'n hyderus y byddaf yn gallu ymgorffori'r elfennau canlynol o'r Cwricwlwm i Gymru yn fy ymarfer proffesiynol o fis Medi 2022’: pob sector**




Nodyn: Am resymau gofod, defnyddir ‘N/A’ uchod i dalfyrru’r opsiwn ateb ‘Nid yw hwn yn berthnasol i mi’.

N=222

6.18 Roedd ymarferwyr mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn hyderus am ymgorffori elfennau o’r cwricwlwm yn eu hymarfer na’u cymheiriaid mewn ysgolion uwchradd.

- **Y pedwar diben:** Roedd 93 y cant o’r ymarferwyr cynradd yn cytuno eu bod yn hyderus, o’u cymharu â 67 y cant o’r ymarferwyr uwchradd;

- **Y Meysydd:**[23] 90 y cant o ymarferwyr cynradd, 62 y cant o ymarferwyr uwchradd;
- **Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:** 90 y cant o ymarferwyr cynradd, 56 y cant o ymarferwyr uwchradd;
- **Y 12 egwyddor addysgegol:** 84 y cant o ymarferwyr cynradd, 51 y cant o ymarferwyr uwchradd;
- **Yr egwyddorion cynnydd:** 76 y cant o ymarferwyr cynradd, 45 y cant o ymarferwyr uwchradd;
- **Y disgrifiadau dysgu:** 82 y cant o ymarferwyr cynradd, 53 y cant o ymarferwyr uwchradd;
- **Elfennau gorfodol y cwricwlwm: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Cymraeg a Saesneg:** 83 y cant o ymarferwyr cynradd, 44 y cant o ymarferwyr uwchradd;
- **Y sgiliau gorfodol trawsgwricwlaidd: Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol:** 94 y cant o ymarferwyr cynradd, 70 y cant o ymarferwyr uwchradd;
- **Themâu trawsbynciol y cwricwlwm: Profiadau sy'n Gysylltiedig â Gyrfaoedd a Gwaith; Addysg Hawliau Dynol, Amrywiaeth:** 78 y cant o ymarferwyr cynradd, 53 y cant o ymarferwyr uwchradd.

6.19 O ran y gwahaniaethau yn ôl rhanbarth, roedd uwch arweinwyr yn rhanbarth y Gogledd (74 y cant) yn llai tebygol na'r rheini yn rhanbarth y De-ddwyrain (98 y cant) o gytuno eu bod yn hyderus y gallent ymgorffori'r ***disgrifiadau dysgu*** yn eu hymarfer proffesiynol o fis Medi 2022.

*Ymatebion ansoddol i gwestiwn penagored: 'Y prif bethau y byddaf yn eu gwneud i baratoi ar gyfer cwricwlwm newydd ein hysgol yw…'*

6.20 Gofynnwyd i'r ymatebwyr gwblhau datganiad penagored yn dynodi'r camau y byddent yn eu cymryd i baratoi at y cwricwlwm newydd. I gyd, rhoddodd 412 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig yn ateb y cwestiwn hwn. Mae'r adran hon yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd.

[23] Wedi'u labelu â 'MDPh' yn yr holiadur gwreiddiol.

Cydweithio

6.21 Cydweithio oedd y thema fwyaf cyffredin o ddigon ymhlith yr ymatebwyr wrth sôn am eu paratoadau at roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Crybwyllodd nifer gynlluniau i gydweithio â 'rhanddeiliaid perthnasol', gan gyfeirio'n bennaf naill ai at gynnal arolygon uniongyrchol ymhlith disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned leol ynghylch newidiadau i'r cwricwlwm, neu at sicrhau bod yr holl bartïon yn ymwybodol o'r newidiadau ac yn ymwneud â'r broses. Soniodd nifer hefyd am y bwriad i gydweithio ag ysgolion eraill, gyda phwyslais ar rannu ac arsylwi'r arferion gorau, gofyn am wybodaeth gan ysgolion arloesi, a chydweithio ag ysgolion clwstwr i sicrhau parhad yn y dysgu rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd. Crybwyllodd ymatebwyr hefyd sut yr oeddent yn bwriadu cydweithio â chydweithwyr yn eu hysgol. Cyfeiriodd nifer o uwch arweinwyr at bwysigrwydd cynnwys yr holl staff yn y broses gynllunio i hyrwyddo ymdeimlad o fod yn rhan o'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm ac i gyd-berchnogi hynny. Cyfeiriodd ambell ymatebwr hefyd at gydweithio o fewn adrannau a rhwng adrannau er mwyn rhoi'r Meysydd newydd ar waith yn effeithiol.

Dysgu proffesiynol

6.22 Cyfeiriodd ymatebwyr at y cyfleoedd dysgu proffesiynol roedd eu hysgolion wedi'u trefnu i gefnogi'r paratoadau at y cwricwlwm newydd. Roedd hyn yn cynnwys cyfleoedd dysgu proffesiynol gan ddarparwyr allanol a chonsortia rhanbarthol, ond hefyd gyfleoedd dysgu proffesiynol mewnol yn yr ysgol drwy ddiwrnodau HMS a sesiynau gyda'r hwyr. Teimlai nifer fod dysgu proffesiynol parhaus yn hanfodol er mwyn iddynt deimlo'n hyderus yn eu gallu i gefnogi'r broses o ddylunio a darparu'r cwricwlwm. Dywedodd uwch arweinwyr y byddent yn blaenoriaethu sicrhau bod digon o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael i'w staff, er i rai grybwyll hefyd yr heriau o wneud hynny ar adeg pan mae adnoddau'n brin wrth i ysgolion adfer yn dilyn effaith y pandemig.

> 'Parhau i roi cyfleoedd datblygu proffesiynol i staff i sicrhau ein bod i gyd yn deall y Cwricwlwm i Gymru drwy ein gwaith i fapio'r cwricwlwm a sicrhau bod ganddyn nhw'r sgiliau angenrheidiol i'w arwain a'i ddatblygu – gan feithrin gallu athrawon i gael effaith.'– Pennaeth, ysgol gynradd

> ‘Diweddaru fy ngwybodaeth o’r cwricwlwm newydd drwy fynychu cyrsiau a fydd yn datblygu fy nealltwriaeth bersonol i o’r hyn a fydd i’w ddisgwyl.’– Gweithiwr cymorth dysgu, ysgol gynradd

<u>Y meysydd dysgu a phrofiad (Meysydd):</u>

6.23 Cyfeiriodd ymatebwyr at drafodaethau a chynlluniau i ailstrwythuro’r cwricwlwm, gan symud tuag at y cwricwlwm integredig a amlinellir yng nghanllawiau’r Cwricwlwm i Gymru. Dywedodd nifer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod y gwaith wedi dechrau i ailddatblygu ac ailstrwythuro meysydd pwnc, gan sicrhau bod digon o ehangder a dyfnder ym mhob Maes. Crybwyllodd uwch arweinwyr benodi arweinwyr Meysydd, i lywio’r broses o ddatblygu gweledigaeth ar gyfer pob Maes, gan weithio gyda staff yn eu hysgol ac, mewn rhai achosion, gydag arweinwyr Meysydd eraill yn y clwstwr i sicrhau cysondeb. Dywedodd ymatebwyr eu bod yn disgwyl, yn eu hymarfer a’u gwaith cynllunio, y byddent yn fwy ymwybodol o addysgu trawsgwricwlaidd, gan weithio’n agosach â chydweithwyr i ganfod y cysylltiadau rhwng Meysydd i sicrhau profiad dysgu ‘llyfn’ a ‘chydgysylltiedig’ i blant a phobl ifanc.

> ‘Chwilio am gysylltiadau yn y cynlluniau presennol ac yna addasu hynny yn unol â fy MDPh [Maes] a diwygio unrhyw waith y mae angen ei addasu. Cydweithio ac arloesi yn yr adran o ran y cynlluniau newydd sy’n gysylltiedig â’r cyd-destun Cymreig a byd-eang perthnasol’. Uwch arweinydd, ysgol uwchradd

> ‘Sicrhau fy mod yn gallu cydweithio â phob maes dysgu [Meysydd] er mwyn i ddisgyblion fanteisio ar ddyfnder ac ehangder ein cwricwlwm a gallu creu cysylltiadau o’r naill bwnc i’r llall. Edrych eto ar gynlluniau gwaith a’u haddasu er mwyn i’r cynnwys a’r sgiliau baratoi disgyblion at fywyd y tu hwnt i gatiau ein hysgol. Sicrhau bod y pedwar diben yn flaenllaw yn fy holl wersi a bod y derminoleg yn amlwg er mwyn i’r disgyblion feithrin dealltwriaeth o’r darlun ehangach.’ Ymarferydd, ysgol uwchradd.

<u>Datblygu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm</u>

6.24 Disgrifiodd ymatebwyr eu dulliau o ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm, gyda rhai’n pwysleisio pwysigrwydd hyn er mwyn datblygu ‘cyd-berchnogaeth’ a ‘dealltwriaeth ysgol gyfan’. Teimlai ymarferwyr y byddai hyn yn helpu ymarferwyr i ddatblygu eu cwricwlwm ysgol ar y cyd ac mewn ffordd hyderus. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd cynnwys dysgwyr, llywodraethwyr a’r gymuned leol yn rhan o’r

broses o lywio'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm, gan sicrhau bod yr holl bartïon perthnasol yn ymwybodol o'r newidiadau ac yn rhan o'r broses o ddatblygu eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm.

<u>Addasu, treialu a gwerthuso</u>

6.25 Yn olaf, cyfeiriodd ymatebwyr at dasgau a oedd yn gysylltiedig â datblygu dulliau newydd o weithio, arbrofi, a gwerthuso effeithiolrwydd hynny er mwyn bwydo yn ôl i'r broses o ddylunio a darparu'r cwricwlwm. Roedd cydnabyddiaeth bod ailddylunio'r cwricwlwm yn broses raddol y mae angen ei seilio ar dreialu ac adolygu parhaus ac ar y cyd. Mae hyn yn golygu adolygu darpariaeth bresennol y cwricwlwm i asesu beth a fydd yn aros yr un fath a chanfod blychau yn yr hyn y mae'r cwricwlwm yn rhoi sylw iddo yn unol â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym mhob Maes. Rhoddodd ymarferwyr enghreifftiau o waith cychwynnol ymarferwyr yn eu hysgolion i dreialu a gwerthuso dulliau gweithio wrth baratoi at gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

> 'Gan edrych ar y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, rydyn ni wedi pennu'r meysydd y mae angen eu datblygu. Mae'r posibilrwydd o greu cysylltiadau trawsgwricwlaidd wedi'u canfod. At hynny, ar ôl ymgyfarwyddo â'r fframwaith, byddwn ni'n gosod ei feini prawf ochr yn ochr â'r Cynlluniau Gwaith presennol i benderfynu beth ellir ei gadw neu beth ddylid ei symleiddio/cael gwared arno.' Arweinydd canol, ysgol uwchradd

> 'Darllen, ymchwilio a myfyrio am yr hyn y mae angen inni ei wneud, beth rydyn ni eisoes yn ei wneud yn dda, a beth mae angen inni'i wneud yn wahanol. Cynllunio, treialu a myfyrio'n barhaus. Sicrhau ein bod yn deall y 4 diben craidd, a'u bod wedi'u gwreiddio. Edrych ar gydrannau'r cwricwlwm a'r hyn y mae angen inni ei gynnwys.' Pennaeth, ysgol gynradd

*Ymatebion ansoddol i gwestiwn penagored: 'Wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru, y newidiadau mwyaf arwyddocaol i fy ymarfer proffesiynol fydd…'*

6.26 Gan ddilyn yr un dull â'r cwestiwn blaenorol, gofynnwyd i ymatebwyr gwblhau datganiad penagored yn dangos pa newidiadau y byddent yn eu gwneud i'w hymarfer wrth ymateb i'r cwricwlwm newydd. I gyd, rhoddodd 362 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig yn ateb y cwestiwn hwn. Mae'r adran hon yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd.

Newidiadau i'r trefniadau asesu

6.27 Pwysleisiodd ymarferwyr fod newidiadau i'r trefniadau asesu a chydweithio yn ganolog i'w paratoadau at y cwricwlwm newydd. Dywedodd nifer mai'r newidiadau mwyaf i'w hymarfer fyddai dulliau newydd o feddwl am gynnydd dysgwyr, ac o gefnogi'r rheini. Teimlai nifer fod angen mwy o eglurder ynghylch y mater hwn.

6.28 Dyma'r pethau a grybwyllwyd amlaf gan ymatebwyr mewn ysgolion cynradd:

- eu bod yn **gweithio tuag at gyd-ddealltwriaeth o'r trefniadau asesu** o dan y cwricwlwm newydd, gan geisio sicrhau cysondeb dull rhwng gwahanol grwpiau blwyddyn. Mae rhai ysgolion cynradd wedi dechrau gweithio fel clwstwr i rannu eu syniadau a'u cynlluniau ar gyfer asesu.
- eu bod yn **defnyddio'r camau cynnydd a'r disgrifiadau dysgu yn sail i'w syniadau**, ac yn ymwybodol o'r angen i osgoi 'dull rhestr dicio' wrth ddefnyddio'r camau cynnydd a'r disgrifiadau dysgu;
- eu bod yn ymwybodol o'r **angen i gymedroli** 'natur y camau cynnydd ar draws y clwstwr', gan bwysleisio pwysigrwydd cynnwys ysgolion uwchradd yn y trafodaethau hyn;
- mewn rhai achosion, eu bod yn parhau i ddefnyddio **asesiadau personol addasol** at ddibenion diagnostig wrth iddynt gefnu'n raddol ar ddefnyddio lefelau, ac asesu cynnydd dysgwyr yn lle hynny.[24]
- lle yr oeddent wedi gwneud cynnydd ac wedi dechrau datblygu eu fframweithiau a'u strategaethau asesu eu hunain, **eu bod yn brin o hyder** ac yn cwestiynu 'a oeddent yn gwneud hyn y ffordd iawn'.

6.29 Dywedodd ymatebwyr mewn ysgolion uwchradd y canlynol:

- eu bod yn deall bod **newidiadau sylweddol o'u blaenau** o ran asesu, gyda'r holl gyfnodau addysg yn pontio i 'asesu ffurfiannol mwy ystyrlon' sy'n rhoi gwybodaeth i athrawon am sut y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd o dan y pedwar diben;
- mewn rhai achosion, eu bod yn **teimlo nad ydynt mewn sefyllfa dda i drafod neu gynllunio'r trefniadau asesu** oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud;

[24] Gweler Asesiadau personol: gwybodaeth i rieni a gofalwyr - Hwb (gov.wales)

- mewn rhai achosion, roeddent yn feirniadol bod gofyn iddynt ddatblygu dull o asesu heb wybod ‘beth fydd natur cymwysterau’r dyfodol’.
- adleisiwyd pryderon arweinwyr uwch mewn ysgolion cynradd o ran deall **sut i ddefnyddio camau cynnydd.** Lle’r oeddent wedi dechrau arbrofi a dylunio’u cynlluniau asesu eu hunain, dywedodd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd fod hyn yn teimlo’n ‘llawn risg’, a bod risg na fyddai’n cyd-fynd â’r dulliau mewn ysgolion eraill.

> ‘Mae’r diffyg canllawiau ynghylch asesu yn bryder gwirioneddol. Mae cydweithwyr yn pryderu am y llwyth gwaith ac am ba mor debygol yw y byddan nhw’n hynod o atebol. Mae rhieni a disgyblion yn pryderu am fesur cynnydd ochr yn ochr ag ysgolion eraill a’r safonau cenedlaethol.’ Uwch arweinydd, ysgol uwchradd

<u>Arloesi mewn ymarfer addysgu</u>

6.30 Yn eu hymatebion, soniodd ymarferwyr am yr angen i (barhau i) addasu i arferion addysgu newydd, a chrybwyllwyd ‘arloesi’ ac ‘arbrofi’ yn aml. Disgrifiwyd newid cyffredinol mewn ymarfer addysgegol sy’n galluogi arweinwyr ac ymarferwyr i fod yn fwy arloesol ac arbrofol ac i gymryd mwy o risgiau, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddeilliannau a fesurir. Mae hyn yn golygu ddull creadigol a ffres o weithio ym maes addysgeg. Mae hefyd yn golygu meithrin hyder ymhlith ymarferwyr i ailystyried eu gwaith, ac i symud tuag at fod yn ‘hwyluswyr dysgu’.

> ‘Bydd yn rhaid imi feddwl o’r newydd am beth rwy’n ei addysgu, sut rwy’n ei addysgu, a beth rwy’ am i’r disgyblion yn fy nosbarth ei ddysgu. Rwy’n credu y bydd mwy o ryddid i fod yn greadigol yn y cwricwlwm newydd ac i ddatblygu sgiliau a dulliau gweithio newydd.’ Athro, ysgol gynradd

6.31 Yn gysylltiedig â hyn, roedd uwch arweinwyr yn cydnabod bod angen iddynt feithrin hyder ymhlith athrawon i arbrofi, i fabwysiadu dulliau addysgu newydd, ac i symud tuag at sefyllfa lle mae ‘pob athro yn arweinydd’, gan ysgogi newid. Cyfeiriodd uwch arweinwyr at bwysigrwydd hyrwyddo gallu athrawon i gael effaith ac i berchnogi’r cwricwlwm newydd. Roedd yr ymatebion yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod athrawon yn teimlo’u bod yn gallu dylanwadu a chyfrannu go iawn at y broses ddiwygio.

‘Ni all hyn fod yn ddull o’r brig i’r gwaelod. Rhaid iddo dreiddio i bob aelod o staff, ac i bob disgybl, rhiant a llywodraethwr os yw’r cwricwlwm am fod yn un dilys a pherthnasol.’ Pennaeth, ysgol gynradd

6.32 Yn aml, trafododd uwch arweinwyr ac ymarferwyr fel ei gilydd y rhyddid a’r hyblygrwydd newydd sy’n deillio o’r newidiadau i’r cwricwlwm. Yn aml, cyferbynnwyd hyn ag addysgu mewn fframwaith cwricwlwm mwy sefydlog, gyda’r ymarferwyr yn croesawu’r cyfle i feddwl o’r newydd am yr hyn y maent yn ei addysgu. Roedd cael rhyddid i lywio’r cwricwlwm yn bwysig i nifer o ymatebwyr, gan eu galluogi i greu cysylltiadau unigryw a chreadigol rhwng Meysydd ac mewn perthynas â chyd-destunau lleol a byd-eang. O safbwynt arweinwyr, mae hyn hefyd yn golygu meithrin diwylliant gwaith newydd i greu hyder i gyd-fynd â’r rhyddid newydd hwn wrth ddylunio’u cwricwlwm eu hunain. Cyfeiriodd nifer at roi ‘annibyniaeth’ newydd i athrawon sy’n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain drwy addysgu.

Pwyntiau ehangach a godwyd mewn ymateb i’r cwestiwn hwn

6.33 Pwysleisiodd uwch arweinwyr yr angen am ddull graddol a pharhaus o hyrwyddo dealltwriaeth o’r Cwricwlwm i Gymru ar lefel ysgol gyfan. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd roedd gweithgarwch i godi ymwybyddiaeth, neilltuo cyfrifoldeb i unigolion i ymchwilio ac edrych ar elfennau penodol o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru; a chyfleoedd rheolaidd i drafod a lledaenu gwybodaeth yn fewnol. Mewn rhai achosion, dywedodd ysgolion fod y broses hon wedi dechrau dair blynedd yn ôl, ar ôl cydnabod maint y rhaglen ddiwygio a’r angen am gyfnod rhagarweiniol sylweddol a oedd yn cynnwys y staff ar bob lefel.

6.34 Dywedodd uwch arweinwyr fod neilltuo amser ar gyfer sesiynau dysgu proffesiynol yn fewnol yn yr ysgol i drafod a chynllunio’u dull newydd o ymdrin â’r cwricwlwm wedi helpu â’r broses o ddatblygu dealltwriaeth o’r diwygiadau. Dyma enghreifftiau o’r gweithgareddau sydd wedi’u cyflwyno mewn ysgolion:

- **Sesiynau gwybodaeth ac ymgyfarwyddo** yn canolbwyntio ar wahanol elfennau o’r canllawiau. Roedd hyn yn cynnwys treulio amser yn ystod diwrnodau HMS a chyfarfodydd staff rheolaidd yn edrych yn agosach ar yr

egwyddorion addysgegol, y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, a'r disgrifiadau dysgu.

- Annog athrawon i gadw **dyddiaduron,** yn myfyrio am sut yr oeddent yn ymgorffori'r egwyddorion addysgegol yn eu haddysgu, a rhannu eu syniadau a'u profiadau â chydweithwyr;
- **Neilltuo cyfrifoldebau i staff i arwain ar Feysydd,** yn aml mewn grwpiau bychain. Mewn nifer o achosion, anogwyd arweinwyr Meysydd i ryngweithio a chydweithio â'r rheini mewn Meysydd eraill er mwyn dysgu o ddulliau ei gilydd a rhannu gwybodaeth.

6.35 Cododd uwch arweinwyr ac ymarferwyr amrywiaeth o bwyntiau eraill, gan gyfeirio at gamau gweithredu a oedd ar y gweill neu wedi'u cynllunio i helpu'r paratoadau at y cwricwlwm newydd. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- Rhoi **mwy o bwyslais ar lais y dysgwr** yn sail i'r broses o gynllunio a darparu'r cwricwlwm er mwyn sicrhau profiad dysgu mwy unigryw a pherthnasol sy'n fwy perthnasol i ddiddordebau dysgwyr. Soniodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr am bwysigrwydd sicrhau bod gan ddysgwyr fwy o lais wrth arwain eu siwrnai ddysgu eu hunain.

'Gweithredu mewn ffordd llawer mwy hyblyg - ymateb i ddigwyddiadau lleol, cenedlaethol a byd eang. Sicrhau bod llais y disgybl yn gryfach nag erioed. Manteisio ar y cyfle i ddilyn trywydd y dysgwyr - dim cwricwlwm rhy rhagnodol'.
Pennaeth, ysgol gynradd

- **Sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael i athrawon i roi'r gallu a'r hyder iddynt ddatblygu'r cwricwlwm ysgol ar y cyd.** Roedd uwch arweinwyr yn cydnabod bod angen i hyn fod yn gyfuniad o weithgarwch sy'n cael ei arwain gan yr ysgol a dysgu proffesiynol a ddarperir drwy raglenni cenedlaethol a rhanbarthol, a thrwy ddarparwyr allanol.
- **Cynllunio'n strategol gyda threfniadau arwain a llywodraethu addas:** roedd ysgolion a ddywedodd eu bod wedi gwneud cynnydd da wrth gynllunio'r cwricwlwm yn aml yn cyfeirio at gael tîm arwain strategol yn goruchwylio'r datblygiadau, gyda chymorth arweinwyr neu dimau Meysydd a fyddai'n cyfarfod yn aml i drafod y datblygiadau a'r cynlluniau a oedd ar y gweill ar gyfer y cwricwlwm, ac i adolygu'r dulliau a oedd yn cael eu treialu.
- Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, dywedodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr eu bod yn deall yr angen i **roi mwy o bwyslais ar ddysgu trawsgwricwlaidd fel rhan o'u hymarfer cynllunio ac addysgu.** Dywedodd nifer o ysgolion

cynradd a rhai ysgolion uwchradd fod dulliau sy'n seiliedig ar bynciau yn rhoi cyfleoedd i ddarparu cwricwlwm sy'n creu cysylltiadau rhwng Meysydd ac yn darparu profiad dysgu mwy integredig i ddisgyblion.

'Cydweithio â staff ar draws yr ysgol i sicrhau bod yna gydblethu a dealltwriaeth ar draws yr ysgol o sut mae'r meysydd dysgu a phrofiad yn cael eu datblygu' Pennaeth, ysgol gynradd

'[Mae angen imi...] sicrhau fy mod yn gallu cydweithio â phob maes dysgu [Meysydd] er mwyn i ddisgyblion fanteisio ar ddyfnder ac ehangder ein cwricwlwm a gallu creu cysylltiadau o'r naill bwnc i'r llall. Edrych eto ar gynlluniau gwaith a'u haddasu er mwyn i'r cynnwys a'r sgiliau baratoi disgyblion at fywyd y tu hwnt i gatiau ein hysgol. Sicrhau bod y pedwar diben yn flaenllaw yn fy holl wersi a bod y derminoleg yn amlwg er mwyn i'r disgyblion feithrin dealltwriaeth o'r darlun ehangach.' Ymarferydd, ysgol uwchradd.

- **Sicrhau pwyslais ar les yn ystod trafodaethau am ddylunio'r cwricwlwm newydd** a thrafodaethau am ddulliau asesu.
- Cynllunio cwricwlwm sy'n rhoi ystyriaeth i'r **rhaglen drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac yn cyd-fynd â hi**: mynegodd ymarferwyr bryder bod y gwaith sy'n rhan o ddiwygio'r cwricwlwm ochr yn ochr â'r angen i drawsnewid profiadau a deilliannau plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn broses lafurus a oedd yn rhoi straen ar gapasiti.
- **Cryfhau'r ymwneud ag asiantaethau allanol** – sefydliadau cyhoeddus, sefydliadau'r sector gwirfoddol a gweithwyr eraill i sicrhau bod profiadau sy'n ymwneud â gwaith a gyrfaoedd wedi'u gwreiddio yn y cwricwlwm.

## 7. Ymrwymiad i newid y cwricwlwm


7.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n gysylltiedig ag ymrwymiad ymatebwyr i newid y cwricwlwm. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg ddynodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am eu hymrwymiad i newid y cwricwlwm. Dyma oedd y rhain:

- 'Rwyf wedi ymrwymo i ddyheadau'r Cwricwlwm i Gymru'
- 'Rwyf wedi ymrwymo i wneud newidiadau i fy ymarfer proffesiynol er mwyn helpu dysgwyr i wireddu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru'
- 'Rwyf wedi ymrwymo i ddysgu mwy am y Cwricwlwm i Gymru'

### Ymatebion i'r datganiad 'Rwyf wedi ymrwymo i ddyheadau'r Cwricwlwm i Gymru'

7.2 Roedd mwyafrif llethol (98 y cant) yr uwch arweinwyr a 78 y cant o ymarferwyr yn cytuno â'r datganiad ***'Rwyf wedi ymrwymo i ddyheadau'r Cwricwlwm i Gymru'***;

**Ffigur 22. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad 'Rwyf wedi ymrwymo i ddyheadau'r Cwricwlwm i Gymru': pob sector**





N = 324 o uwch arweinwyr, 218 o ymarferwyr

7.3 Roedd mwyafrif clir (95 y cant) yr ymarferwyr mewn ysgolion cynradd yn cytuno â'r datganiad hwn, o'u cymharu â 68 y cant o ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd.

**Ymatebion i'r datganiad 'Rwyf wedi ymrwymo i wneud newidiadau i fy ymarfer proffesiynol er mwyn helpu dysgwyr i wireddu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru'**

7.4 Roedd mwyafrif llethol (98 y cant) yr uwch arweinwyr ac 87 y cant o ymarferwyr yn cytuno â'r datganiad '***Rwyf wedi ymrwymo i wneud newidiadau i fy ymarfer proffesiynol er mwyn helpu dysgwyr i wireddu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru'***.[25]

**Ffigur 23. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad 'Rwyf wedi ymrwymo i wneud newidiadau i fy ymarfer proffesiynol er mwyn helpu dysgwyr i wireddu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru': pob sector**





N = 326 o uwch arweinwyr, 218 o ymarferwyr

**Ymatebion i'r datganiad 'Rwyf wedi ymrwymo i ddysgu mwy am y Cwricwlwm i Gymru'**

7.5 Roedd mwyafrif llethol (99.6 y cant) yr uwch arweinwyr a 91 y cant o ymarferwyr yn cytuno â'r datganiad ***'Rwyf wedi ymrwymo i ddysgu mwy am y Cwricwlwm i Gymru'***.[26]

[25] Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn cael ei ystyried yn nodedig (Gweler Adran 3 am ddiffiniad o wahaniaethau nodedig).
[26] Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn cael ei ystyried yn nodedig (Gweler Adran 3 am ddiffiniad o wahaniaethau nodedig).

**Ffigur 24. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad 'Rwyf wedi ymrwymo i ddysgu mwy am y Cwricwlwm i Gymru': pob sector**




N = 325 o uwch arweinwyr, 221 o ymarferwyr

*Ymatebion ansoddol i gwestiwn testun agored am yr ymrwymiad i ddiwygio'r cwricwlwm*

7.6 Gofynnwyd i ymatebwyr roi rhagor o sylwadau i gyd-fynd â'u hatebion i'r datganiadau ynghylch eu hymrwymiad i ddiwygio'r cwricwlwm. I gyd, rhoddodd 104 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig yn ateb y cwestiwn hwn. Mae'r adran hon yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd.

<u>Ymrwymiad clir i'r diwygiadau</u>

7.7 Roedd y sylwadau gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr i raddau helaeth yn adlewyrchu'r teimladau positif a'r ymrwymiad i'r diwygiadau a welir yn y data a gyflwynir uchod. Soniodd ymatebwyr am y cyfleoedd a gynigir gan y cwricwlwm newydd i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion ac i'w datblygu fel dinasyddion. Dywedodd nifer eu bod yn teimlo bod y diwygiadau'n symud tuag at greu system addysg fwy blaengar yng Nghymru.

> 'Mae'r cwricwlwm newydd yn rhoi cyfle i ymarferwyr helpu ein dysgwyr i baratoi at alwadau byd sydd angen dinasyddion sy'n gallu cyfrannu at fyd sy'n newid yn gyflym tu hwnt.' Pennaeth, ysgol gynradd

> 'Rwy'n llwyr gredu bod y Cwricwlwm i Gymru yn mynd ag addysg yng Nghymru i'r cyfeiriad iawn. Ni ddylai profiadau disgyblion yn yr ysgol heddiw fod yr un fath â phrofiadau eu rhieni yn y gorffennol. Mae angen i anghenion cwricwlwm yr

ysgol esblygu ac addasu'n barhaus er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn berthnasol ac yn addas i'r disgyblion ar yr adeg honno. Pennaeth, ysgol gynradd.

Pryderon am amser ac adnoddau

7.8 Serch hynny, dywedodd nifer o ymatebwyr fod diffyg amser i ymroi i'r paratoadau yn wyneb blaenoriaethau a heriau eraill yn amharu ar eu hymrwymiad a'u brwdfrydedd dros y cwricwlwm newydd. Dywedodd rhai y byddent yn teimlo mwy o ymrwymiad i'r newidiadau pe baent yn cael mwy o amser i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth er mwyn peidio â theimlo'u bod yn brysio'r paratoadau yn y fath fodd. Awgrymwyd bod effaith COVID-19 wedi gwaethygu'r teimlad hwn o ddiffyg amser i baratoi 'yn iawn'.

'Er bod llawer o amcanion y Cwricwlwm i Gymru yn dda mewn egwyddor, mewn realiti nid oes digon o amser i baratoi'n drylwyr, oherwydd effaith pandemig byd-eang.' Arweinydd canol, ysgol uwchradd

'Mae ymrwymiad yn un peth ond mae realiti'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn rhywbeth gwahanol - mae modd gwireddu'r ymrwymiad mewn amser 'normal' ond ar hyn o bryd mae materion iechyd a diogelwch a threfniadau asesu graddau yn boddi amser datblygiadau allweddol.' Uwch arweinydd, ysgol uwchradd

## 8. Gwaith paratoi i ddylunio, mabwysiadu a gwireddu'r cwricwlwm

8.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg mewn perthynas â gwaith paratoi ysgolion i ddylunio, mabwysiadu a gwireddu'r cwricwlwm. Gofynnwyd nifer o gwestiynau mewn gwahanol fformatau yn y rhan hon o'r holiadur.

8.2 I ddechrau, gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg a oedd eu hysgol 'wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer eich cwricwlwm newydd?'

8.3 Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg ddynodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad hwn:

- 'Hyd yma, mae digon o amser wedi bod ar gael o fewn calendr yr ysgol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd'

8.4 Gofynnwyd i ymatebwyr ddweud i ba raddau y mae gwahanol gategorïau o unigolion wedi cyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd yr ysgol. Y rhain oedd: uwch arweinwyr o fewn yr ysgol; staff addysgu; staff cynorthwyol, llywodraethwyr; dysgwyr; rhieni a gofalwyr; cynrychiolwyr eraill yn y gymuned leol.

8.5 Nesaf, gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oedd ymarferwyr yn eu hysgol yn cydweithio i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd (roedd hyn yn cynnwys cydweithio rhwng ymarferwyr o fewn yr ysgol; cydweithio ag ysgolion eraill; a chydweithio â phartneriaid Addysg Uwch).

8.6 Yn olaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg ddynodi i ba raddau yr oedd eu hysgol wedi ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol:


- 'Mae ein hysgol wedi treialu dulliau yn y dosbarth sydd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd'
- 'Mae athrawon yn ein hysgol wedi cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol i gefnogi'r paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd'
- 'Mae ein hysgol yn adolygu ein paratoadau ar gyfer addysgu'r cwricwlwm newydd'

**Ymatebion i'r cwestiwn 'A yw eich ysgol wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer eich cwricwlwm newydd?'**

8.7 Dywedodd mwyafrif clir yr uwch arweinwyr (81 y cant) bod eu hysgol ***'wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer ei chwricwlwm newydd'***; dywedodd 18 y cant nad oedd hi wedi gwneud hynny, ac nid oedd 1.6 y cant yn gwybod.

8.8 O'u cymharu ag uwch arweinwyr, dywedodd canran is o ymarferwyr fod eu hysgol wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer ei chwricwlwm newydd, er bod hyn i raddau helaeth gan fod cyfran uwch wedi ateb 'Ddim yn gwybod'. Dywedodd ychydig dros hanner (55 y cant) yr ymarferwyr fod eu hysgol wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm newydd, dywedodd 19 y cant nad oedd hi wedi gwneud hynny, a dywedodd 26 y cant nad oeddent yn gwybod.

**Ffigur 25. Ymatebion i'r cwestiwn 'A yw eich ysgol wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer eich cwricwlwm newydd?': pob sector**




N = 320 o uwch arweinwyr, 221 o ymarferwyr


8.9 Roedd cyfran yr ymarferwyr mewn ysgolion cynradd a atebodd 'Ydy' i'r cwestiwn hwn (70 y cant) yn uwch na'r ymatebwyr o ysgolion uwchradd a wnaeth hynny (47 y cant).

8.10 Roedd uwch arweinwyr yn rhanbarth y Gogledd (65 y cant) yn llai tebygol na'r rheini yn rhanbarth y De-ddwyrain (89 y cant) o ddatgan bod eu hysgol wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm newydd.

**Ymatebion i'r datganiad 'Hyd yma, mae digon o amser wedi bod ar gael o fewn calendr yr ysgol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd'**

8.11 Roedd ychydig dros hanner (54 y cant) yr uwch arweinwyr a 62 y cant o ymarferwyr yn anghytuno â'r datganiad: ***'Hyd yma, mae digon o amser wedi bod ar gael o fewn calendr yr ysgol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd'***.

**Ffigur 26. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r cwestiwn 'Hyd yma, mae digon o amser wedi bod ar gael o fewn calendr yr ysgol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd': pob sector**




N = 325 o uwch arweinwyr, 221 o ymarferwyr

8.12 Roedd ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd (76 y cant) yn fwy tebygol nag ymarferwyr mewn ysgolion cynradd (36 y cant) o anghytuno â'r datganiad.

**Cyfraniad ymarferwyr a rhanddeiliaid**

8.13 Gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau y mae'r grwpiau canlynol wedi cyfrannu'n weithgar at y broses o ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol: *uwch arweinwyr, staff addysgu, dysgwyr, llywodraethwyr,* a *rhieni a gofalwyr.*

8.14 Yn ôl yr ymatebion gan uwch arweinwyr, roedd uwch arweinwyr a staff addysgu wedi gwneud mwy wrth gyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol na staff cynorthwyol, dysgwyr a llywodraethwyr:

- Dywedodd mwyafrif llethol yr uwch arweinwyr (98 y cant) fod ***uwch arweinwyr*** yn eu hysgol wedi cyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol, gydag 88 y cant yn dweud eu bod wedi gwneud 'llawer' wrth gyfrannu'n weithgar;

- Dywedodd mwyafrif llethol yr uwch arweinwyr (98 y cant) fod ***staff addysgu*** yn eu hysgol wedi cyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol, gyda 77 y cant yn dweud eu bod wedi gwneud 'llawer' wrth gyfrannu'n weithgar;
- Dywedodd ychydig dros hanner (58 y cant) yr uwch arweinwyr fod ***dysgwyr*** wedi gwneud 'ychydig' wrth gyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol, gyda thraean (32 y cant) yn dweud eu bod wedi gwneud 'llawer' yn hyn o beth;
- Dywedodd ychydig dros hanner (55 y cant) yr uwch arweinwyr fod ***staff cynorthwyol*** wedi gwneud 'ychydig' wrth gyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio eu cwricwlwm newydd eu hysgol, gyda thraean (32 y cant) yn dweud eu bod wedi gwneud 'llawer' yn hyn o beth;
- Dywedodd dau draean (67 y cant) yr uwch arweinwyr fod **llywodraethwyr** wedi gwneud 'ychydig' wrth gyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol, gydag 11 y cant yn dweud eu bod wedi gwneud 'llawer' yn hyn o beth;
- Dywedodd ychydig dan hanner (49 y cant) yr uwch arweinwyr fod ***rhieni a gofalwyr*** wedi gwneud 'ychydig' wrth gyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol, gyda 5 y cant yn dweud eu bod wedi gwneud 'llawer' yn hyn o beth.

8.15 Dangosodd yr ymatebion gan ymarferwyr fod argraff bod *athrawon, staff cynorthwyol* a *dysgwyr* wedi gwneud llai nag *uwch arweinwyr* wrth gyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol:[27]

- Dywedodd cyfran lai o ymarferwyr (34 y cant) fod ***staff addysgu*** wedi cyfrannu 'llawer' at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol, o'i gymharu â 77 y cant o uwch arweinwyr;
- Dywedodd llai na hanner yr ymarferwyr (37 y cant) fod ***staff cynorthwyol*** wedi cyfrannu naill ai 'ychydig' neu 'lawer' at ddylunio neu lywio'r cwricwlwm, o'i gymharu ag ychydig dros hanner yr uwch arweinwyr (55 y cant);

[27] Rhoddodd canrannau sylweddol o ymarferwyr yr ateb 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiynau hyn.

- Dywedodd llai na hanner yr ymarferwyr (40 y cant) fod ***dysgwyr*** wedi gwneud naill ai 'ychydig' neu 'lawer' wrth gyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio'r cwricwlwm, o'i gymharu ag ychydig dros hanner (58 y cant) yr uwch arweinwyr.

8.16 Roedd ymarferwyr mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion uwchradd o ddweud bod ***staff cynorthwyol, dysgwyr, llywodraethwyr*** a ***rhieni a gofalwyr*** wedi cyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol (ticiodd canran sylweddol o ymarferwyr uwchradd y blwch 'ddim yn gwybod' wrth ochr pob opsiwn a gyflwynwyd yn y cwestiwn hwn):

- dywedodd 14 y cant o ymarferwyr uwchradd fod ***staff cynorthwyol*** wedi cyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol, o'i gymharu â 75 y cant o ymarferwyr cynradd;[28]
- dywedodd 9 y cant o ymarferwyr uwchradd fod ***llywodraethwyr*** wedi cyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol, o'i gymharu â 51 y cant o ymarferwyr cynradd;[29]
- dywedodd 27 y cant o ymarferwyr uwchradd fod ***dysgwyr*** wedi cyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol, o'i gymharu â 65 y cant o ymarferwyr cynradd;[30]
- dywedodd 6 y cant o ymarferwyr uwchradd fod ***rhieni a gofalwyr*** wedi cyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol, o'i gymharu â 35 y cant o ymarferwyr cynradd.[31]

8.17 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (35 y cant) yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (16 y cant) o ddatgan bod ***staff cymorth*** wedi gwneud 'llawer' wrth gyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol.

8.18 Roedd uwch arweinwyr yn rhanbarth y De-ddwyrain (45 y cant) yn fwy tebygol na'r rheini yn rhanbarthau'r Gogledd (19 y cant) a'r Canolbarth a'r Gorllewin (22 y cant)

[28] Rhoddodd canran sylweddol o ymarferwyr yr ateb 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn (50 y cant).
[29] Rhoddodd canran sylweddol o ymarferwyr yr ateb 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn (74 y cant).
[30] Rhoddodd canran sylweddol o ymarferwyr yr ateb 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn (38 y cant).
[31] Rhoddodd canran sylweddol o ymarferwyr yr ateb 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn (59 y cant).

o ddatgan bod ***staff cynorthwyol*** wedi gwneud 'llawer' wrth gyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eu hysgol.

**Cydweithio i gefnogi dyluniad y cwricwlwm newydd**

8.19 Gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oedd ymarferwyr yn eu hysgol yn cydweithio â phartneriaid i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd, yn benodol, cydweithio ag: ymarferwyr eraill yn eu hysgol, ysgolion eraill a phartneriaid Addysg Uwch.

8.20 Dywedodd mwyafrif llethol (98 y cant) yr uwch arweinwyr fod ymarferwyr yn eu hysgol yn cydweithio 'llawer' (75 y cant) neu 'ychydig' (23 y cant) ***ag ymarferwyr eraill yn eu hysgol*** i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd. O'u cymharu ag uwch arweinwyr, dywedodd cyfran lai o ymarferwyr (75 y cant), er yn fwyafrif clir o hyd, fod ymarferwyr yn eu hysgol yn cydweithio 'llawer' (32 y cant) neu 'ychydig' (45 y cant) ag ***ymarferwyr eraill yn eu hysgol*** i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd.

8.21 Dywedodd mwyafrif llethol (89 y cant) yr uwch arweinwyr fod ymarferwyr yn eu hysgol yn cydweithio 'llawer' (28 y cant) neu 'ychydig' (61 y cant) ag ***ysgolion eraill*** i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd. O'u cymharu ag uwch arweinwyr, dywedodd canran is o ymarferwyr (41 y cant) fod ymarferwyr yn eu hysgol yn cydweithio 'llawer' (11 y cant) neu 'ychydig' (31 y cant) ag ***ysgolion eraill*** i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd.

8.22 Dywedodd ychydig dros hanner (55 y cant) yr uwch arweinwyr nad oedd ymarferwyr yn eu hysgol yn cydweithio â ***phartneriaid Addysg Uwch*** i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd. Dywedodd llai na hanner (43 y cant) eu bod yn gwneud hynny 'ychydig' (33 y cant) neu 'lawer' (10 y cant). Dywedodd ychydig dros hanner (56 y cant) yr ymarferwyr nad oeddent yn gwybod a oedd eu hysgol yn cydweithio â ***phartneriaid Addysg Uwch*** i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd.

8.23 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd (30 y cant) yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion uwchradd (17 y cant) o ddweud eu bod yn cydweithio 'llawer' ag ***ysgolion eraill****.* Dywedodd cyfran uwch o ymarferwyr mewn ysgolion cynradd

nag ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd eu bod wedi cydweithio ag ***ysgolion eraill*** (63 y cant mewn ysgolion cynradd, 29 y cant mewn ysgolion uwchradd) ac â ***phartneriaid Addysg Uwch*** (34 y cant mewn ysgolion cynradd, 7 y cant mewn ysgolion uwchradd) i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd.[32]

8.24 Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (58 y cant) yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (35 y cant) o ddatgan bod eu hysgol yn cydweithio 'llawer' neu 'ychydig' â ***phartneriaid Addysg Uwch*** i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd.

8.25 Roedd uwch arweinwyr yn rhanbarthau'r Gogledd (43 y cant) a'r De-ddwyrain (36 y cant) yn fwy tebygol na'r rheini yn rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin (9 y cant) o ddatgan bod eu hysgol yn cydweithio 'llawer' ag ***ysgolion eraill*** i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd. Roedd uwch arweinwyr yn rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin (79 y cant) yn fwy tebygol na'r rheini yn rhanbarthau'r Gogledd (51 y Cant) a'r De-ddwyrain (57 y cant) o ddatgan bod eu hysgol yn cydweithio 'ychydig' yn hyn o beth.


**Ymateb i'r datganiad 'Mae ein hysgol wedi treialu dulliau yn y dosbarth sydd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd'**

8.26 Dywedodd mwyafrif helaeth yr uwch arweinwyr (97 y cant) bod eu hysgol ***'wedi treialu dulliau yn y dosbarth sydd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd'***, gyda 59 y cant yn datgan eu bod wedi gwneud hynny 'llawer' a 38 y cant yn dweud eu bod wedi gwneud hynny 'ychydig'; dywedodd 2 y cant nad oeddent wedi gwneud hyn.

8.27 O'u cymharu ag uwch arweinwyr, dywedodd canran is o ymarferwyr (66 y cant) fod eu hysgol wedi treialu dulliau yn y dosbarth sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd. Dywedodd un rhan o bump (20 y cant) o ymarferwyr eu bod wedi gwneud hynny 'llawer' a dywedodd 46 y cant eu bod wedi gwneud hynny 'ychydig'; dywedodd tua un rhan o bump (21 y cant) nad oeddent wedi gwneud hyn.

[32] Rhoddodd canrannau sylweddol o ymarferwyr yr ateb 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiynau hyn.

**Ffigur 27. Ymateb uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r cwestiwn 'Mae ein hysgol wedi treialu dulliau yn y dosbarth sydd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd': pob sector**





N = 322 o uwch arweinwyr, 218 o ymarferwyr

**Ymateb i'r datganiad 'Mae athrawon yn ein hysgol wedi cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol i gefnogi'r paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd'**

8.28 Dywedodd mwyafrif llethol yr uwch arweinwyr (95 y cant) bod ***'athrawon yn ein hysgol wedi cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol i gefnogi paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd***', gyda thua hanner (50) yn datgan eu bod wedi gwneud hynny 'ychydig' a 45 y cant yn dweud eu bod wedi gwneud hynny 'llawer'.

8.29 O'u cymharu ag uwch arweinwyr, dywedodd canran is (69 y cant) o ymarferwyr fod ***'athrawon yn eu hysgol wedi cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol i gefnogi paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd'***. Dywedodd tua hanner (50) yr ymarferwyr fod hyn wedi digwydd 'ychydig' a dywedodd 18 y cant ei fod wedi digwydd 'llawer'.

**Ffigur 28. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r cwestiwn 'Mae athrawon yn ein hysgol wedi cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol i gefnogi paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd': pob sector**





N = 321 o uwch arweinwyr, 219 o ymarferwyr

**Ymatebion i'r datganiad 'Mae ein hysgol yn adolygu ein paratoadau ar gyfer addysgu'r cwricwlwm newydd'**

8.30 Dywedodd mwyafrif llethol (98 y cant) o uwch arweinwyr fod '***ein hysgol yn adolygu ein paratoadau ar gyfer addysgu'r cwricwlwm newydd',*** tra dywedodd dros ddau draean (69 y cant) eu bod wedi gwneud hynny 'llawer' a dros chwarter (29 y cant) eu bod wedi gwneud hynny 'ychydig'; dywedodd 2 y cant nad oeddent wedi gwneud hyn.

8.31 O'u cymharu ag uwch arweinwyr, dywedodd canran is (76 y cant) o ymarferwyr fod '***ein hysgol yn adolygu ein paratoadau ar gyfer addysgu'r cwricwlwm newydd***'. Dywedodd hanner (50 y cant) yr ymarferwyr fod hyn wedi digwydd 'ychydig' a dywedodd 26 y cant ei fod wedi digwydd 'llawer'.

**Ffigur 29. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad 'Mae ein hysgol yn adolygu ein paratoadau ar gyfer addysgu'r cwricwlwm newydd': pob sector**




N = 322 o uwch arweinwyr, 219 o ymarferwyr

8.32 Dywedodd canran uwch o ymarferwyr mewn ysgolion cynradd (90 y cant) fod eu hysgol yn adolygu ei pharatoadau nag ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd (69 y cant).

8.33 Roedd uwch arweinwyr yn rhanbarth y De-ddwyrain (85 y cant) yn fwy tebygol na'r rheini yn rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin (57 y cant) o nodi bod eu hysgol yn gwneud 'llawer' i adolygu ei pharatoadau ar gyfer addysgu'r cwricwlwm newydd. Roedd uwch arweinwyr yn rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin (41 y cant) yn fwy

tebygol na'r rheini yn rhanbarth y De-ddwyrain (13 y cant) o ddatgan bod eu hysgol yn gwneud 'ychydig' o hynny.

*Ymatebion ansoddol i gwestiwn testun agored am y paratoadau i ddiwygio'r cwricwlwm*

8.34 Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sylwadau ychwanegol am y datganiadau ynghylch eu paratoadau i ddylunio, mabwysiadu a gwireddu eu cwricwlwm. I gyd, rhoddodd 101 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig yn ateb y cwestiwn hwn. Mae'r adran hon yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd.

<u>Effaith y pandemig ar baratoadau</u>

8.35 Fel y nodwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, dywedwyd mai diffyg amser oedd y prif reswm pam y teimlai rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr nad oeddent wedi gwneud cymaint o gynnydd gyda pharatoadau'r cwricwlwm ag y byddent wedi'i obeithio. Dywedodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd fod y pandemig wedi dargyfeirio amser a sylw sylweddol i ffwrdd o baratoadau'r cwricwlwm. Roedd y gwaith yr oedd yn rhaid ei wneud i roi graddau a bennir gan y ganolfan, i sicrhau lles staff a dysgwyr yn ystod y pandemig, ac i oruchwylio prosesau iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â COVID-19 i gyd wedi cyfrannu at oedi yn yr amserlenni i ddiwygio'r cwricwlwm.

8.36 Dywedodd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd eu bod yn teimlo'n bryderus am yr amser a gymerai i ddatblygu cwricwlwm newydd ar y cyd, yn enwedig lle'r oedd y pwyslais ar ddatblygu dull o weithio drwy gydweithio a thrafodaethau mewnol yn yr ysgol. Ymhlith y materion a oedd yn ymwneud ag effaith COVID-19 ac a oedd wedi amharu ar y paratoadau, roedd staff yn ynysu, rheolau cadw pellter cymdeithasol yn creu rhwystr i gydweithio'n effeithiol o fewn y clwstwr, addasu i ddysgu cyfunol, a bliner ymysg y staff.

> 'Mae cyfyngiadau COVID wedi golygu bod rhwydweithio a chydweithio yn hynod o anodd. I raddau, mae hefyd wedi golygu bod yn rhaid rhoi'r broses o ddatblygu ein cwricwlwm ein hunain o'r neilltu am y tro, wrth i ymarferwyr ailddysgu sut i addysgu gan ddefnyddio dulliau ar-lein ac wrth i arweinwyr ddatblygu asesiadau risg a gwybodaeth am ddiogelwch, yn ogystal â dysgu drwy hybiau yn ystod y cyfnod clo cyntaf.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

‘Bu’n rhaid i waith yn yr ysgol i baratoi at y cwricwlwm newydd fod yn eilbeth am y tro wrth roi sylw i alwadau’r pandemig ac effaith hynny ar gymuned ein hysgol.’ Ymarferydd, ysgol gynradd

Crynodeb o’r sylwadau am ddatblygu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol

8.37 Dywedodd arweinwyr ysgolion fod datblygu gweledigaeth ar gyfer cwricwlwm newydd eu hysgol yn ganolog i’r paratoadau. Pan ddywedir bod hyn wedi gweithio’n dda, mae’r ysgolion wedi dilyn dull graddol o weithio, gan gynyddu’r nifer sy’n rhan o’r broses ym mhob cam. Gan amlaf, mae hyn wedi golygu’r canlynol:

- Yr uwch dîm arwain yn datblygu gweledigaeth gychwynnol (gan gynnwys y llywodraethwyr mewn rhai achosion);
- Mireinio hyn drwy drafodaethau ag arweinwyr Meysydd;
- Ymgynghori ynghylch hyn / y gweledigaethau hyn ymhlith yr holl staff;
- Casglu adborth gan y dysgwyr a mireinio’r weledigaeth ymhellach wrth ymateb i hyn;
- Rhannu’r weledigaeth â rhieni (mae’r rhan fwyaf o ysgolion yn bwriadu gwneud hyn ystod y flwyddyn academaidd bresennol).

8.38 Dywedodd ymatebwyr y gall cynnal trafodaethau am eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm helpu i greu ymdeimlad o ddiben ymysg pawb, sicrhau ymdeimlad o berchnogaeth ar bob lefel yn yr ysgol, a rhoi hyder i athrawon yn eu rôl fel pobl sy’n datblygu’r cwricwlwm ar y cyd. Mae arweinwyr ysgolion hefyd yn datblygu gweledigaethau ar gyfer eu Meysydd penodol, ar sail y weledigaeth eang, ac maent yn cynnwys athrawon yn y broses hon. Mewn rhai achosion, mae ysgolion wedi ymgynghori ag ysgolion eraill yn eu clwstwr (gan gynnwys ysgolion arloesi) i ofyn am eu barn ynghylch sut y maent wedi bwrw ati â’r broses.

8.39 Wrth ddatblygu eu gweledigaethau ar gyfer y cwricwlwm, mae ysgolion wedi pwysleisio pwysigrwydd: datblygu cwricwlwm dilys; gwreiddio’r cwricwlwm yng ngwerthoedd a diwylliant Cymru; creu cwricwlwm ymatebol a chynhwysol sy’n ymateb i anghenion dysgwyr; creu cwricwlwm cynhwysol; gosod nodau uchelgeisiol a disgwyliadau uchel; canolbwyntio ar les.

8.40 Yn y lleiafrif o achosion lle nad oedd ysgolion eto wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm newydd, dywedwyd bod hyn oherwydd nad oedd gan y staff ddigon o amser i'w ymrwymo i'r gwaith yn wyneb blaenoriaethau eraill yn ystod y flwyddyn a fu.

Cydweithio i gefnogi'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm

8.41 Dywedodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod y broses o ddatblygu'r cwricwlwm wedi'i seilio ar egwyddorion cryf, sef cydweithio drwy grwpiau o staff sy'n trafod, yn cynllunio, yn treialu ac yn adolygu gweithgarwch. Mae staff yn datblygu ac yn rhannu cynlluniau ar gyfer y cwricwlwm, yn trafod cryfderau a gwendidau gwahanol ddulliau, ac yn gofyn am adborth ar ôl treialu dulliau a dysgu yn seiliedig ar bynciau. Dywedodd ymarferwyr eu bod wedi dechrau gweithio yn eu Meysydd ac ar draws Meysydd i ddatblygu cynlluniau ar gyfer y cwricwlwm.

8.42 Dywedodd uwch arweinwyr fod y Cwricwlwm i Gymru wedi bod yn gatalydd i gynnal mwy o ddeialog am arferion addysgu yn eu hysgolion. Mae mwy o drafodaethau'n cael eu cynnal am addysgeg yn anffurfiol ac yng nghyfarfodydd y staff.

> 'Mae'r staff yn rhannu syniadau ac arferion yn barhaus, ac yn myfyrio ac yn dysgu gan ei gilydd.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

8.43 Rhoddwyd enghreifftiau yn y sectorau cynradd ac uwchradd o sut roedd ymarferwyr yn cydweithio, er i nifer ddweud mai megis dechrau oedd llawer o'r gweithgarwch hwn:

- Mae diwrnodau HMS yn rhoi cyfleoedd i drafod a chydweithio.
- Dywedodd ymarferwyr eu bod yn gweithio mewn timau o fewn Meysydd i edrych ar gamau cynnydd a disgrifiadau dysgu, gan ddatblygu syniadau am sut y gellid ymgorffori'r rhain yng nghynlluniau'r cwricwlwm.
- Datblygu templedi cynllunio mewn ysgolion i geisio sicrhau cysondeb rhwng Meysydd a rhwng gwahanol grwpiau blwyddyn.
- Cydweithio rhwng ymarferwyr yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3.

## 9. Y gallu i ymarfer mewn ffyrdd sy’n gwireddu’r cwricwlwm

9.1 Mae’r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau’r arolwg mewn perthynas â’r gallu i ymarfer mewn ffyrdd sy’n gwireddu’r cwricwlwm.

9.2 Gofynnwyd i ymatebwyr i’r arolwg ddynodi i ba raddau roeddent yn cytuno neu’n anghytuno â’r datganiadau hyn:

- ‘Mae gennyf y sgiliau i gefnogi dyluniad cwricwlwm newydd ein hysgol’
- ‘Rwy'n hyderus y byddaf yn gallu cyrchu'r dysgu proffesiynol y bydd ei angen arnaf er mwyn helpu i ddylunio'r cwricwlwm newydd’
- ‘Rwy'n hyderus yn fy ngallu i addasu fy ymarfer proffesiynol mewn ffyrdd fydd yn fy ngalluogi i roi'r cwricwlwm newydd ar waith’

9.3 Gofynnwyd i uwch arweinwyr (yn unig) wedyn i ba raddau roeddent yn cytuno neu’n anghytuno ag ail gyfres o ddatganiadau:


- ‘Mae gan fy ysgol staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol i ddylunio'r cwricwlwm newydd’
- ‘Mae gan staff fy ysgol gapasiti digonol i ddylunio'r cwricwlwm newydd’
- ‘Mae gan staff fy ysgol y sgiliau angenrheidiol i gynllunio a gweithredu gwersi yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru newydd’
- ‘Mae gan fy ysgol y caledwedd a'r seilwaith digidol sy'n angenrheidiol i roi'r cwricwlwm newydd ar waith’
- ‘Mae gan fy ysgol y feddalwedd sy'n angenrheidiol i roi'r cwricwlwm newydd ar waith’
- ‘Mae gan fy ysgol y deunyddiau/adnoddau addysgu a dysgu sy'n angenrheidiol i roi'r cwricwlwm newydd ar waith’

**Ymatebion i'r datganiad 'Mae gennyf y sgiliau i gefnogi dyluniad cwricwlwm newydd ein hysgol'**

*Uwch arweinwyr*

9.4 Roedd mwyafrif llethol (95 y cant) yr uwch arweinwyr a 75 y cant o ymarferwyr yn cytuno â'r datganiad ***'Mae gennyf y sgiliau i gefnogi dyluniad cwricwlwm newydd ein hysgol'***.

**Ffigur 30. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad 'Mae gennyf y sgiliau i gefnogi dyluniad cwricwlwm newydd ein hysgol': pob sector**





N = 322 o uwch arweinwyr, 217 o ymarferwyr

9.5 Roedd canran uwch o ymarferwyr mewn ysgolion cynradd (90 y cant) yn cytuno â'r datganiad hwn, o'u cymharu ag ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd (65 y cant).

**Ymatebion i'r datganiad 'Rwy'n hyderus y byddaf yn gallu cyrchu'r dysgu proffesiynol y bydd ei angen arnaf er mwyn helpu i ddylunio'r cwricwlwm newydd'**

9.6 Roedd mwyafrif llethol (91 y cant) yr uwch arweinwyr a 60 y cant o ymarferwyr yn cytuno â'r datganiad 'Rwy'n hyderus y byddaf yn gallu cyrchu'r dysgu proffesiynol y bydd ei angen arnaf er mwyn helpu i ddylunio'r cwricwlwm newydd'.

**Ffigur 31. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i'r datganiad 'Rwy'n hyderus y byddaf yn gallu cyrchu'r dysgu proffesiynol y bydd ei angen arnaf er mwyn helpu i ddylunio'r cwricwlwm newydd': pob sector**




N = 323 o uwch arweinwyr, 217 o ymarferwyr


9.7 Roedd canran uwch o ymarferwyr mewn ysgolion cynradd (82 y cant) yn cytuno â'r datganiad hwn, o'u cymharu ag ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd (49 y cant).

9.8 Roedd uwch arweinwyr o ranbarth y De-ddwyrain (83 y cant) yn fwy tebygol na'r rheini yn rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin (60 y cant) o 'gytuno' neu o 'gytuno'n gryf' â'r datganiad.

**Ymatebion i'r datganiad 'Rwy'n hyderus yn fy ngallu i addasu fy ymarfer proffesiynol mewn ffyrdd fydd yn fy ngalluogi i roi'r cwricwlwm newydd ar waith'**

9.9 Roedd mwyafrif llethol yr uwch arweinwyr (98 y cant) ac 82 y cant o ymarferwyr yn cytuno â'r datganiad ***'Rwy'n hyderus yn fy ngallu i addasu fy ymarfer proffesiynol mewn ffyrdd fydd yn fy ngalluogi i roi'r cwricwlwm newydd ar waith'***; roedd 2 y cant yn anghytuno â'r datganiad hwn.

**Ffigur 32. Ymatebion uwch arweinwyr ac ymatebion i'r datganiad 'Rwy'n hyderus yn fy ngallu i addasu fy ymarfer proffesiynol mewn ffyrdd fydd yn fy ngalluogi i roi'r cwricwlwm newydd ar waith': pob sector**




N = 317 o uwch arweinwyr, 217 o ymarferwyr

9.10 Roedd canran uwch o ymarferwyr mewn ysgolion cynradd (93 y cant) yn cytuno â'r datganiad hwn, o'u cymharu ag ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd (76 y cant).

### Cwestiynau i uwch arweinwyr am allu'r ysgol

9.11 Dim ond i benaethiaid ac uwch arweinwyr y gofynnwyd y cwestiynau canlynol am allu'r ysgol.

### Ymatebion i'r datganiad 'Mae gan fy ysgol staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol i ddylunio'r cwricwlwm newydd (uwch arweinwyr yn unig)'

9.12 Roedd mwyafrif helaeth (95 y cant) yr uwch arweinwyr yn cytuno â'r datganiad '***Mae gan fy ysgol staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol i ddylunio'r cwricwlwm newydd'***; roedd 2 y cant yn anghytuno â'r datganiad hwn.

### Ymatebion i'r datganiad 'Mae gan staff fy ysgol gapasiti digonol i ddylunio'r cwricwlwm newydd (uwch arweinwyr yn unig)'

9.13 Roedd mwyafrif clir (84 y cant) yr uwch arweinwyr yn cytuno â'r datganiad '***Mae gan staff fy ysgol gapasiti digonol i ddylunio'r cwricwlwm newydd***'; roedd 13 y cant yn anghytuno â'r datganiad hwn.

**Ymatebion i’r datganiad ‘Mae gan staff fy ysgol y sgiliau angenrheidiol i gynllunio a gweithredu gwersi yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru newydd (uwch arweinwyr yn unig)’**

9.14 Roedd mwyafrif llethol (97 y cant) yr uwch arweinwyr yn cytuno â’r datganiad: ***‘Mae gan staff fy ysgol y sgiliau angenrheidiol i gynllunio a gweithredu gwersi yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru newydd’;*** roedd 2 y cant yn anghytuno â’r datganiad hwn.

**Ymatebion i’r datganiad ‘Mae gan fy ysgol y caledwedd a'r seilwaith digidol sy'n angenrheidiol i roi'r cwricwlwm newydd ar waith (uwch arweinwyr yn unig)’**

9.15 Roedd mwyafrif llethol yr uwch arweinwyr (85 y cant) yn cytuno â’r datganiad ***‘Mae gan fy ysgol y caledwedd a’r seilwaith digidol sy’n angenrheidiol i roi’r cwricwlwm newydd ar waith’***; roedd 10 y cant o’r uwch arweinwyr yn anghytuno â’r datganiad hwn.

9.16 Roedd canran uwch o uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd (89 y cant) yn cytuno â’r datganiad hwn, o’u cymharu ag uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd (66 y cant).

**Ymatebion i’r datganiad ‘Mae gan fy ysgol y feddalwedd sy'n angenrheidiol i roi'r cwricwlwm newydd ar waith (uwch arweinwyr yn unig)’**

9.17 Roedd mwyafrif llethol (85 y cant) yr uwch arweinwyr yn cytuno â’r datganiad ***‘Mae gan fy ysgol y feddalwedd sy'n angenrheidiol i roi'r cwricwlwm newydd ar waith’***; roedd 10 y cant yn anghytuno â’r datganiad hwn.

9.18 Roedd canran uwch o uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd (88 y cant) yn cytuno â’r datganiad hwn, o’u cymharu ag uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd (67 y cant).

**Ymatebion i'r datganiad 'Mae gan fy ysgol y deunyddiau/adnoddau addysgu a dysgu sy'n angenrheidiol i roi'r cwricwlwm newydd ar waith (uwch arweinwyr yn unig)'**

9.19 Roedd mwyafrif llethol yr uwch arweinwyr (83 y cant) yn cytuno â'r datganiad ***'Mae gan fy ysgol y deunyddiau/adnoddau addysgu a dysgu sy'n angenrheidiol i roi'r cwricwlwm newydd ar waith'***; roedd 10 y cant yn anghytuno â'r datganiad hwn.

*Ymatebion ansoddol i gwestiwn testun agored am y gallu i gefnogi'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm*

9.20 Gofynnwyd i ymatebwyr roi rhagor o sylwadau i gyd-fynd â'u hatebion i'r datganiadau ynghylch eu gallu i gefnogi'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm. I gyd, rhoddodd 81 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig yn ateb y cwestiwn hwn. Mae'r adran hon yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd.

9.21 Yn y rhan fwyaf o achosion, yn eu hatebion i'r arolwg, mynegodd uwch arweinwyr hyder yn sgiliau a gallu eu staff. Dywedwyd bod gan athrawon yr ymrwymiad, y wybodaeth a'r gallu i wneud gwaith datblygu ar y cyd a darparu cwricwlwm llwyddiannus yn unol â gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru.

9.22 Mynegodd uwch arweinwyr ac athrawon frwdfrydedd dros y cwricwlwm newydd yn y mwyafrif llethol o'r achosion. Nodwyd bod y cwricwlwm newydd yn dal i gymell pobl ac yn dal i greu cyffro mewn ysgolion. Dywedodd ymatebwyr eu bod wedi buddsoddi amser yn uwchsgilio ac yn dysgu i sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu'n effeithiol at ddyluniad y cwricwlwm. Siaradodd nifer am danio'u brwdfrydedd o'r newydd fel athrawon, ac am gael ymdeimlad o ddiben newydd i'w gwaith.

> 'Rwyf wedi bod yn dysgu ers 31 o flynyddoedd ond ar ôl derbyn anogaeth ac arweiniad gan athrawes iau yn yr ysgol rydw i wedi mentro i arbrofi gyda dull newydd o ddysgu. Rydw i wrth fy modd - mae wedi tanio rhywbeth ynddo fi eto ac rwyf yn edrych ymlaen i fynd i'r dosbarth ar rai dyddiau! Roeddwn wedi mynd yn stêl ac angen hyn. Mae'r plant yn gweld pwrpas i'r gwaith ac eisiau ei wneud o!' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

9.23 Serch hynny, mynegodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr nifer o bryderon hefyd:

- Ailadroddwyd y pwyntiau am y diffyg amser i arweinwyr ac athrawon ymwneud â'r broses o ddylunio'r cwricwlwm;

- Roedd teimlad ymhlith rhai nad oedd digon o gefnogaeth wedi'i rhoi iddynt er mwyn datblygu'r sgiliau, y cymwyseddau a'r adnoddau ymarferol i wireddu'r cwricwlwm. Teimlai uwch arweinwyr (ac ymarferwyr hefyd) fod y cyfleoedd dysgu proffesiynol yn gyfyngedig ac yn anodd i'w cael.  Mewn achosion eraill, teimlai arweinwyr fod yr hyfforddiant a oedd ar gael o ansawdd gwael ac nid oedd yn rhoi digon o wybodaeth i bobl. Yn benodol, crybwyllodd nifer o'r ymatebion y byddai cymorth ac enghreifftiau mwy ymarferol yn fwy defnyddiol na chynnwys rhywfaint o'r hyfforddiant a ganolbwyntiai'n drwm ar y rhesymau damcaniaethol sy'n sail i'r newidiadau i'r cwricwlwm.

'Mae'r hyfforddiant hyd yma wedi bod yn wael. Roedd y modiwlau ar reoli newid a gweledigaeth ar y cyfan yn wastraff llawer o amser i fy holl uwch dîm rheoli. Dim ond i ddangos teyrngarwch i'n cynghorwr gwella ysgol ac i'r tîm y mynychais. Mae gormod o ddamcaniaethu, a dim digon o awgrymiadau am "sut" i wneud pethau'n ymarferol.' Uwch arweinydd, ysgol gynradd

- Mynegodd rhai arweinwyr y pryder nad oedd ganddyn nhw a'u staff arbenigedd ym maes dylunio cwricwlwm, ac nad oeddent wedi cael eu hyfforddi 'sut i ddatblygu cwricwlwm'.

9.24 Cyfeiriodd uwch arweinwyr at gyllid fel rhwystr i roi'r gallu a'r adnoddau i ysgolion fwrw ymlaen â'r broses o ddylunio eu cwricwlwm.  Teimlai rhai fod angen cyllid i ryddhau staff o rai o'u hymrwymiadau addysgu er mwyn gallu ymchwilio a chefnogi'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm. Dywedodd arweinwyr hefyd y byddai angen rhagor o gyllid fel rhan o'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm, gan gynnwys: ffioedd tanysgrifio ar gyfer mwy o ddeunyddiau ar-lein; adnoddau newydd ar gyfer dysgu awyr agored; cyllid TG ar gyfer mwy o ddysgu cyfunol; a chyllid i ysgolion allu fforddio amser cynllunio i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth i staff addysgu.

'Er bod cynnydd wedi bod yn y cyllid drwy'r rhaglen recriwtio, adfer a chodi safonau, mae angen cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn cyllid i ddod o hyd i'r 'amser' prin hwnnw i staff allu cynllunio'r cwricwlwm newydd hwn.  Ni ellir disgwyl i ysgolion roi newid mor sylweddol mewn ymarfer ar waith heb fuddsoddiad anferth. Serch hynny, dylai'r buddsoddiad fod ar lefel ysgolion, nid lefel ranbarthol neu genedlaethol. Mae angen lleihau amser cyswllt staff er mwyn iddyn nhw allu cymryd rhan, ac mae hyn yn costio arian!' Pennaeth, ysgol uwchradd.

## 10. Casgliadau a materion i'w hystyried

10.1 Mae'r casgliadau a'r materion i'w hystyried ymhellach sydd i'w gweld isod wedi cael eu datblygu ar sail y canfyddiadau a gyflwynwyd yn Adrannau 4-9.

**Gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymrwymiad i ddiwygio'r cwricwlwm**

10.2 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr ynghylch eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r diwygiadau i'r cwricwlwm yn gadarnhaol. Canfu'r arolwg fod mwyafrif llethol yr uwch arweinwyr a mwyafrif clir ymhlith yr ymarferwyr yn cytuno bod y rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm yn glir iddynt a'u bod yn gwybod beth oedd angen ei wneud yn eu hysgol i sicrhau bod dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu cyflawni. Mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos lefelau cryf o ymrwymiad i ddiwygio'r cwricwlwm ymhlith uwch arweinwyr ac ymarferwyr.

10.3 Dywedodd mwyafrif clir ymhlith yr uwch arweinwyr eu bod mewn sefyllfa dda i ddylunio'u cwricwlwm eu hunain a gwneud newidiadau i'w hymarfer proffesiynol yn barod at y bwriad i gyflwyno'r cwricwlwm o fis Medi 2022. Dywedodd cyfran is o ymarferwyr – tua'u hanner – eu bod yn teimlo bod eu hysgol yn barod i ddylunio'u cwricwlwm ac addasu eu hymarfer proffesiynol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm. Roedd gwybodaeth am sut i ymateb i'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm a'r ddealltwriaeth o'r broses honno'n gyson is ymhlith ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd nag uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion cynradd.

**Y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â pharatoi i ddiwygio'r cwricwlwm**

10.4 Mae uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn cydnabod y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r diwygiadau, gan gynnwys hyblygrwydd a rhyddid i lywio cwricwlwm eu hysgol; y cyfle i arloesi ac arbrofi mwy ag arferion addysgu; a datblygu dysgu sydd wedi'i deilwra fwy ac yn berthnasol i ddiddordebau dysgwyr. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn teimlo'n gyffrous am y cwricwlwm newydd, gan ddweud eu bod yn teimlo brwdfrydedd o'r newydd dros addysgu a bod ganddynt ymdeimlad newydd o ddiben i'w gwaith.

10.5 Dangosodd ymatebwyr i'r arolwg eu dealltwriaeth o sut roedd eu hysgol a'u harferion proffesiynol eu hunain yn newid wrth baratoi at y cwricwlwm newydd. Dywedodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr eu bod wedi gwneud cynnydd o ran:

- **Cydweithio** mewnol yn yr ysgol i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y cwricwlwm, i gynllunio a thrafod addysgeg, ac i dreialu dulliau gweithio newydd;
- Y gallu i gael cyfleoedd **dysgu proffesiynol** – yn aml yn cael eu darparu'n fewnol yn yr ysgol – i roi'r hyder a'r gallu i athrawon i ddatblygu eu cwricwlwm ar y cyd;
- Meithrin newid mewn **meddylfryd ac mewn arferion addysgu:** mae athrawon yn cael eu hannog i fod yn fwy arloesol ac arbrofol, ac i fod â hyder mewn dulliau mwy creadigol;
- Rhoi mwy o bwyslais ar **lais dysgwyr** yn sail i gynllunio'r cwricwlwm;
- Canolbwyntio ar **ddysgu trawsgwricwlaidd ac integredig** fel rhan o'u harferion cynllunio ac addysgu.

### Gwahaniaethau rhwng yr is-grwpiau

10.6 Roedd patrymau cyson i'w gweld yn yr ymatebion cyffredinol i'r arolwg. O'u cymharu â'u cymheiriaid mewn ysgolion uwchradd, roedd ymatebwyr mewn ysgolion cynradd yr un mor gadarnhaol neu'n fwy cadarnhaol yn eu hymatebion i'r holl gwestiynau. Bron ym mhob maes a drafodwyd yn yr arolwg, roedd lleiafrif bychan, o leiaf, o uwch reolwyr ac ymarferwyr a soniodd am ddiffyg ymrwymiad, gwybodaeth neu barodrwydd.

10.7 Roedd gwybodaeth am sut i ymateb i'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm a'r ddealltwriaeth o'r broses honno'n gyson is ymhlith ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd nag uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion cynradd. Gwelwyd hefyd bod lefelau hyder ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn is na lefelau hyder uwch arweinwyr yn eu gallu i ymgorffori gwahanol elfennau o'r cwricwlwm yn eu hymarfer erbyn mis Medi 2022. Roedd hyn yn cynnwys yr egwyddorion addysgegol, yr egwyddorion cynnydd a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, sy'n cael eu hystyried yn ganolog i wireddu'r cwricwlwm.

10.8 Er i fwyafrif yr uwch arweinwyr mewn ysgolion ddweud eu bod wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm, dangosodd ymatebion ymarferwyr nad

oeddent wastad yn ymwybodol o hyn. Yn yr un modd, o'u cymharu ag ymarferwyr, soniodd uwch arweinwyr am lefelau uwch o gydweithio i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd. Mewn ymatebion ansoddol i gwestiynau penagored, dywedodd rhai ymatebwyr na fu amser i ymwneud ag ymarferwyr cymaint ag y gobeithiwyd yn y trafodaethau am ddiwygio'r cwricwlwm.

10.9 Soniodd uwch arweinwyr am lefelau uchel o gydweithio, ond nid yw'n ymddangos bod nifer o ymarferwyr yn ymwybodol o'r cydweithio yn eu hysgol nac o gamau allweddol fel datblygu gweledigaeth eu hysgol. Mae hyn yn awgrymu y dylai ysgolion barhau i gael eu hannog i fabwysiadu dull 'ysgol gyfan' o ymwneud ag ymarferwyr, gan gyfathrebu'r cynnydd a wneir i'r holl ymarferwyr yn yr ysgol.

10.10 Mae hyn yn codi cwestiynau am ba mor effeithiol yw rhai uwch arweinwyr wrth ymwneud â staff ar bob lefel yn eu hysgolion fel rhan o'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm, ac mae'n gwestiwn a yw gwybodaeth a chanllawiau'n cael eu rhannu'n effeithiol.

10.11 Roedd data'r arolwg yn dangos mai prin oedd y gwahaniaeth amlwg yn yr ymatebion gan arweinwyr ac ymarferwyr yn ôl rhanbarth ac yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol. Yn y naill is-grŵp a'r llall, roedd rhai amrywiadau yn yr ymatebion i gwestiynau penodol (gweler 10.14, er enghraifft).

*Materion i'w hystyried*

i. Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid ystyried pa gamau y gellid eu cymryd i sicrhau bod pob ymarferwr, ac yn enwedig y rheini mewn ysgolion uwchradd, yn meithrin y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt i ddylunio'u cwricwlwm a'u trefniadau asesu a'u rhoi ar waith.

ii. Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid gefnogi uwch arweinwyr i sicrhau bod pob ymarferwr yn ymwybodol o weledigaeth cwricwlwm ei ysgol ac yn deall ei gyfraniad at helpu i gyflawni'r weledigaeth hon drwy ei ymarfer.

iii. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gwasanaethau gwella ysgolion, gan gynnwys consortia rhanbarthol, i ganfod ysgolion sy'n ymwneud llai â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm, a rhoi cymorth wedi'i dargedu i arweinwyr ac athrawon ar bob lefel yn yr ysgolion hyn.

**Yr amser a'r gallu i ymwneud â pharatoadau'r cwricwlwm**

10.12 Dywedodd y rhan fwyaf o uwch arweinwyr ac ymarferwyr nad oeddent wedi cael digon o amser i baratoi at gyflwyno'r cwricwlwm. Mae'n amlwg o ddata'r arolwg bod yr amharu a fu yn sgil pandemig COVID-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar baratoadau ysgolion i ddiwygio'r cwricwlwm yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. Yn ystod y cyfnod pan oedd yr arolwg ar agor (Gorffennaf 2021), cyhoeddodd Llywodraeth Cymru na fyddai rhoi'r cwricwlwm newydd yn ffurfiol ar waith yn orfodol i ysgolion uwchradd tan 2023, gyda'r cwricwlwm yn cael ei gyflwyno i flynyddoedd 7 ac 8 yn y flwyddyn honno.

*Mater i'w ystyried*

iv. Wrth i'r adferiad yn dilyn y pandemig barhau i roi pwysau ar gapasiti, ysbryd a lles athrawon, dylai Llywodraeth Cymru gadw golwg agos ar baratoadau ysgolion tuag at gerrig milltir mis Medi 2022 a 2023 ac ymateb yn ddiymdroi i anghenion penodol a ganfyddir.

**Asesu i gefnogi cynnydd dysgwyr**

10.13 Dywedodd nifer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod angen rhagor o ganllawiau a chymorth ar gyfer asesu i gefnogi cynnydd dysgwyr. Soniwyd am ddiffyg gwybodaeth am sut y dylid datblygu dulliau asesu'r dyfodol a pha gamau a fyddai'n cael eu cymryd i sicrhau bod y trefniadau asesu'n gyson, ac felly bod y cynnydd rhwng ysgolion yn gyson. Roedd ymarferwyr (yn enwedig mewn ysgolion uwchradd) yn llai tebygol nag uwch arweinwyr o ddweud eu bod yn deall y trefniadau asesu o dan y cwricwlwm newydd; dywedodd hanner yr ymarferwyr uwchradd nad oeddent yn deall beth y mae angen i'w hysgol ei wneud er mwyn cynllunio'u trefniadau asesu eu hunain i gefnogi cynnydd dysgwyr.

10.14 Soniodd nifer o ymatebwyr hefyd am eu pryder ynghylch sut y byddai asesu a chynnydd dysgwyr yn fwy cyffredinol yn cael eu cofnodi a'u defnyddio fel rhan o brosesau atebolrwydd.

*Mater i'w ystyried*

v. Gallai Llywodraeth Cymru a phartneriaid ystyried pa gyfleoedd dysgu a chanllawiau proffesiynol ychwanegol y gellid eu rhoi i ysgolion i egluro disgwyliadau mewn perthynas â phrosesau asesu a chynnydd.

**Adnoddau a chymorth ychwanegol**

10.15 Dywedodd y rhan fwyaf o uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod angen rhagor o gymorth neu adnoddau arnynt erbyn mis Medi 2022. Gwelwyd bod lefelau hyder ymarferwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, yn is na lefelau hyder uwch arweinwyr wrth drafod eu gallu i gael y cyfleoedd dysgu proffesiynol y mae eu hangen arnynt. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o lawer na'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Saesneg o ddweud bod angen cefnogaeth neu adnoddau ychwanegol ar eu hysgol er mwyn bod yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud hynny ym mis Medi 2022.

*Materion i'w hystyried*

vi. Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid barhau i ymwneud ag ysgolion (e.e. drwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu'r Cwricwlwm) i sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol a chymorth addas, gan gynnwys enghreifftiau o arferion da a deunyddiau cefnogi, ar gael i ysgolion yn y cyfnod sy'n arwain at fis Medi 2022.[33]

vii. Wrth wneud hynny, dylai'r broses o gynllunio'r holl gyfleoedd dysgu proffesiynol, y cymorth a'r adnoddau ystyried anghenion ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog.

[33] Gweler y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu'r Cwricwlwm - Hwb (gov.wales)

# 11. Atodiad A: Holiadur yr arolwg

## Diwygiadau’r cwricwlwm ac asesu: paratoadau ar gyfer 2022

## Ynglŷn â'ch ysgol neu leoliad

**1. Enw'r ysgol neu leoliad (gofynnol)**
Bydd eich atebion yn gwbl gyfrinachol ac ni fydd modd i'ch awdurdod lleol, consortiwm, Llywodraeth Cymru nac eraill adnabod eich ysgol. Casglwn enw'r ysgol er mwyn sicrhau nad ydym yn ail-gysylltu gyda chi yn ddiangen ac i helpu i wirio bod canfyddiadau yn seiliedig ar sampl gynrychioliadol o ysgolion.*

**2. Ym mha fath o ysgol neu leoliad ydych chi'n gweithio?**

- ☐ Ysgol gynradd neu ysgol feithrin
- ☐ Ysgol uwchradd
- ☐ Ysgol arbennig
- ☐ Uned Cyfeirio Disgyblion
- ☐ Ysgol pob oed (ysgol 3-16; 3-18)
- ☐ Lleoliad blynyddoedd cynnar nas gynhelir
- ☐ Nid wyf yn gweithio mewn ysgol, Uned Cyfeirio Disgyblion neu leoliad blynyddoedd cynnar nas gynhelir

**3. A yw eich ysgol neu leoliad yn un...**

- ☐ Cyfrwng Saesneg
- ☐ Cyfrwng Cymraeg
- ☐ Dwyieithog
- ☐ Dwy ffrwd
- ☐ Arall / Ddim yn berthnasol

**4. Ym mha ardal consortiwm addysg rhanbarthol mae eich ysgol?**

- ☐ Gogledd Cymru (ardal consortiwm GwE)
- ☐ Canol a Gorllewin Cymru (ardal consortiwm ERW)
- ☐ Canol De Cymru (ardal consortiwm CSC)
- ☐ De Ddwyrain Cymru (ardal consortiwm EAS)
- ☐ Ddim yn berthnasol - ddim yn rhan o gonsortiwm

**5. Nodwch os yw, neu os oedd, eich ysgol yn (ticiwch bob un sy'n berthnasol):**

- ☐ Ysgol arloesi (Pioneer school)
- ☐ Ysgol fraenaru (Innovation school)
- ☐ Ysgol arweiniol partneriaeth AGA / Rhan o bartneriaieth AGA
- ☐ Ysgol greadigol arweiniol
- ☐ Ddim un o'r uchod / ddim yn gwybod

**Amdanoch chi**

**6. Beth yw eich prif rôl yn yr ysgol? (gofynnol) ***

- ☐ Pennaeth
- ☐ Uwch arweinydd
- ☐ Arweinydd canol
- ☐ Athro
- ☐ Gweithiwr cymorth dysgu
- ☐ Arall (manylwch) ________________

**7. Sawl blwyddyn o brofiad sydd gennych o weithio ym maes addysgu/addysg?**

- ☐ Llai na 3 mlynedd
- ☐ 3-10 mlynedd
- ☐ 11-20 mlynedd
- ☐ 21-30 mlynedd
- ☐ 31+ mlynedd

**Strwythur y cwestiynau dilynol**

Mae adrannau dilynol yr arolwg wedi'u strwythuro yn ôl pum agwedd ar barodrwydd. Mae hwn yn addasiad o fodel a ddatblygwyd gan aelod o'r tîm ymchwil, yr Athro Claire Sinnema.

- Mae'r cwestiynau'n seiliedig ar:
- Gwybodaeth ynglŷn â newid y cwricwlwm
- Deall sut i ymateb i newid y cwricwlwm
- Ymrwymiad i newid y cwricwlwm
- Gwaith paratoi i ddylunio, mabwysiadu a gwireddu'r cwricwlwm
- Y gallu i ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwireddu'r cwricwlwm.

**Gwybodaeth ynglŷn â newid y cwricwlwm**

**8. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Cytuno i raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno i raddau | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm yn glir i mi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwy'n gwybod beth sy'n ofynnol yn fy ysgol i sicrhau bod dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu cyflawni | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwy'n glir ynghylch yr hyn a fydd yn aros yr un fath a'r hyn a fydd yn wahanol yn fy ysgol o dan drefniadau newydd y cwricwlwm | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwy'n glir ynghylch yr hyn a fydd yn aros yr un fath a'r hyn a fydd yn wahanol yn fy ysgol o dan y trefniadau asesu newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Rhowch unrhyw sylwadau i gefnogi'ch ymatebion.

**Deall sut i ymateb i newid y cwricwlwm**

**9. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Cytuno i raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno i raddau | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n deall yr hyn sy'n ofynnol i fy ysgol ei wneud er mwyn dylunio ein cwricwlwm ein hunain i gyd-fynd â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwy'n deall yr hyn sy'n ofynnol i fy ysgol ei wneud er mwyn cynllunio ein trefniadau asesu ein hunain i gyd-fynd â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwy'n deall yr hyn sydd angen i mi ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer a gweithredu newidiadau i'r cwricwlwm yn fy ysgol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Rhowch unrhyw sylwadau i gefnogi'ch ymatebion

**Deall sut i ymateb i newid y cwricwlwm**

**10. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol:**
**Yn seiliedig ar y cynnydd hyd yma, rwy'n hyderus y byddaf yn gallu ymgorffori'r elfennau canlynol o'r Cwriwcwlwm i Gymru yn fy ymarfer proffesiynol o fis Medi 2022.**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Cytuno i raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno i raddau | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Nid yw hwn yn berthnasol i mi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y pedwar diben | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Y meysydd dysgu a phrofiad (MDPh) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Y 12 egwyddor addysgegol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Egwyddorion cynnydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Disgrifiadau dysgu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Deall sut i ymateb i newid y cwricwlwm | | | | | | | | |

**11. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol:**
**Yn seiliedig ar y cynnydd hyd yma, rwy'n hyderus y byddaf yn gallu ymgorffori'r elfennau canlynol o'r Cwriwcwlwm i Gymru yn fy ymarfer proffesiynol o fis Medi 2022.**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Cytuno i raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno i raddau | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Nid yw hwn yn berthnasol i mi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Elfennau gorfodol y cwricwlwm: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Cymraeg a Saesneg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Y sgiliau gorfodol trawsgwricwlaidd: Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Themâu trawsbynciol y cwricwlwm: Profiadau sy'n Gysylltiedig â Gyrfaoedd a Gwaith (CWRE); Addysg Hawliau Dynol, Amrywiaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Mae cwestiynau dewisol pen-agored isod. Nodwch sylwadau cryno mewn ymateb i'r cwestiynau hyn os gwelwch yn dda.

**12. Y prif bethau y byddaf yn eu gwneud i baratoi ar gyfer cwricwlwm newydd ein hysgol yw...**

**13. Wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru, y newidiadau mwyaf arwyddocaol i fy ymarfer proffesiynol fydd...**

**Ymrwymiad i newid y cwricwlwm**

**14. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol:**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Cytuno i raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno i raddau | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod/ dim digon o ddealltwriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rwyf wedi ymrwymo i ddyheadau'r Cwricwlwm i Gymru | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwyf wedi ymrwymo i wneud newidiadau i fy ymarfer proffesiynol er mwyn helpu dysgwyr i wireddu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwyf wedi ymrwymo i ddysgu mwy am y Cwricwlwm i Gymru | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch unrhyw sylwadau i gefnogi'ch ymatebion**

**Gwaith paratoi i ddylunio, mabwysiadu a gwireddu'r cwricwlwm**

**15. A yw eich ysgol wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer eich cwricwlwm newydd?**

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim yn gwybod

**16. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol:**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Cytuno i raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno i raddau | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod / dim digon o ddealltwriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hyd yma, mae digon o amser wedi bod ar gael o fewn calendr yr ysgol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Gwaith paratoi i ddylunio, mabwysiadu a gwireddu'r cwricwlwm**

**17. Nodwch i ba raddau y mae'r canlynol wedi cyfrannu'n weithgar at ddylunio neu lywio cwricwlwm newydd eich ysgol:**

| | Ydyn, llawer | Ydyn, ychydig | Nac ydyn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Uwch arweinwyr o fewn yr ysgol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Staff addysgu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Staff cynorthwyol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Llywodraethwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dysgwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rhieni a gofalwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cynrychiolwyr eraill yn y gymuned leol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Gwaith paratoi i ddylunio, mabwysiadu a gwireddu'r cwricwlwm**

**18. Nodwch i ba raddau y mae ymarferwyr eich ysgol yn cydweithio i gefnogi dyluniad y cwricwlwm newydd:**

| | Ydyn, llawer | Ydyn, ychydig | Nac ydyn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Cydweithio rhwng ymarferwyr o fewn yr ysgol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cydweithio ag ysgolion eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cydweithio â phartneriaid Addysg Uwch | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**19. Nodwch os, ac i ba raddau, y mae eich ysgol wedi ymgymryd a'r gweithgareddau canlynol:**

| | Ydy/ydyn, llawer | Ydy/ydyn, ychydig | Nac ydy/ nac ydyn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Mae ein hysgol wedi treialu dulliau yn y dosbarth sydd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae athrawon yn ein hysgol wedi cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol i gefnogi paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae ein hysgol yn adolygu ein paratoadau ar gyfer addysgu'r cwricwlwm newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Rhowch sylwadau i gefnogi eich ymatebion

**Y gallu i ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwireddu'r cwricwlwm**

**20. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol:**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Cytuno i raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno i raddau | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod/ ddim digon o ddealltwriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae gennyf y sgiliau i gefnogi dyluniad cwricwlwm newydd ein hysgol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwy'n hyderus y byddaf yn gallu cyrchu'r dysgu proffesiynol y bydd ei angen arnaf er mwyn helpu i ddylunio'r cwricwlwm newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwy'n hyderus yn fy ngallu i addasu fy ymarfer proffesiynol mewn ffyrdd fydd yn fy ngalluogi i roi'r cwricwlwm newydd ar waith | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Rhowch unrhyw sylwadau i gefnogi'ch ymatebion

**Y gallu i ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwireddu'r cwricwlwm**

**21. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Cytuno i raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno i raddau | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod/ ddim digon o ddealltwriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae gan fy ysgol staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol i ddylunio'r cwricwlwm newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae gan staff fy ysgol gapasiti digonol i ddylunio'r cwricwlwm newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae gan staff fy ysgol y sgiliau angenrheidiol i gynllunio a gweithredu gwersi yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae gan fy ysgol y caledwedd a'r seilwaith digidol sy'n angenrheidiol i | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Cytuno i raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno i raddau | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod/ ddim digon o ddealltwriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| roi'r cwricwlwm newydd ar waith | | | | | | | | |
| Mae gan fy ysgol y feddalwedd sy'n angenrheidiol i roi'r cwricwlwm newydd ar waith | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae gan fy ysgol y deunyddiau/adnoddau addysgu a dysgu sy'n angenrheidiol i roi'r cwricwlwm newydd ar waith | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Rhowch unrhyw sylwadau i gefnogi'ch ymatebion

**Cwestiynau trosfwaol**

**22. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol:**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Cytuno i raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno i raddau | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod/ ddim digon o ddealltwriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i ddylunio ein cwricwlwm ein hunain yn barod i'w gyflwyno fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae fy ysgol mewn sefyllfa dda i wneud newidiadau i'n harfer proffesiynol yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae angen cefnogaeth neu adnoddau ychwanegol ar fy ysgol er mwyn bod yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel y bwriedir gwneud o fis Medi 2022 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Nodwch pa gefnogaeth ychwanegol y mae ei angen arnoch.**

| |
|---|
| |

**Cyswllt dilynol**

**23. Mae ymchwil ansoddol pellach wedi ei gynllunio ar gyfer Hydref 2021 er mwyn archwilio mewn rhagor o fanylder nifer o'r materion sydd yn cael eu trafod yn yr holiadur hwn.**

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn trafodaeth ddilynol, rhowch eich enw a'ch cyfeiriad ebost isod os gwelwch yn dda.

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Cyfeiriad ebost | |

## 12. Atodiad B: Proffil yr ymatebwyr

12.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno proffil y rheini a ymatebodd i'r arolwg ac a gafodd gyfweliadau ansoddol. Mae proffil y rheini a ymatebodd i'r arolwg ac a gafodd eu cyfweld yn cael ei gymharu â phroffil y boblogaeth, lle bydd hynny'n bosibl, i ddangos pa mor gynrychioladol yw'r samplau o'r bobl a ymatebodd ac a gafodd eu cyfweld.

### Yn ôl y math o leoliad

*Uwch arweinwyr*

12.2 O ysgolion cynradd y daeth ychydig dros dri chwarter (76 y cant) o'r 345 o ymatebion a ddaeth i law gan uwch arweinwyr mewn ysgolion unigryw, gydag ychydig o dan un rhan o bump (19 y cant) yn dod o ysgolion uwchradd. Roedd gweddill cyfran y sampl yn uwch arweinwyr o ysgolion pob oed (1 y cant), ysgolion arbennig (2 y cant) ac unedau cyfeirio disgyblion (1 y cant).

12.3 Drwy edrych ar ganran y sampl a berthynai i bob math o leoliad ochr yn ochr â chanran pob math o leoliad ym mhoblogaeth yr arolwg, mae

12.4

12.6 yn dangos y canlynol:

- roedd ysgolion uwchradd wedi'u gorgynrychioli fymryn yn y sampl (19 y cant o ymatebion unigryw), o'u cymharu â phoblogaeth yr arolwg (12 y cant o leoliadau).[34]
- roedd ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion wedi'u tangynrychioli fymryn yn y sampl.

12.7 Gan hynny, defnyddiwyd cyfernodau pwysoli i addasu cynrychiolaeth yr ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion i adlewyrchu poblogaeth y lleoliadau. Mae'r rhain hefyd i'w gweld yn

12.8

[34] Defnyddiwyd nifer y lleoliadau fel procsi ar gyfer nifer yr uwch arweinwyr ym mhoblogaeth yr arolwg. Cydnabyddir bod gan rai penaethiaid gyfrifoldeb dros fwy nag un ysgol ac nad yw nifer yr uwch arweinwyr gan hynny yr un fath â nifer y lleoliadau. Serch hynny, ystyrir hyn yn fesur procsi digon cadarn at ddiben y dadansoddiad.

12.10 isod.

**Tabl 2. Proffil yr uwch arweinwyr a gwblhaodd yr arolwg yn ôl y math o leoliad**

| Sector | Canran y lleoliadau yn y boblogaeth | Canran yn sampl yr arolwg (ymatebion unigryw)* | Nifer yr ymatebion unigryw gan uwch arweinwyr mewn ysgolion | Y cyfernod pwysoli a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi |
|---|---|---|---|---|
| Cynradd neu feithrin | 82% | 76% | 261 | 1.08 |
| Ysgolion pob oed (3-16 / 3-19) | 2% | 1% | 5 | 1.07 |
| Ysgolion uwchradd | 12% | 19% | 67 | 0.63 |
| Ysgolion arbennig | 3% | 2% | 8 | 1.13 |
| Unedau cyfeirio disgyblion | 2% | 1% | 4 | 1.25 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **100%** | **345** | **1** |

*Mae ymatebion unigryw yn golygu cyfrif un ymateb gan bob lleoliad yn unig, ac felly mae ymatebion ychwanegol gan bobl eraill yn yr ysgol honno wedi'u hepgor.
**Mae'r union gyfernod pwysoli yn amrywio fymryn ar gyfer pob cwestiwn yn dibynnu ar nifer yr ymatebwyr a gwblhaodd bob cwestiwn.

*Ymarferwyr*

12.11 Roedd 37 y cant o'r 222 o ymatebion a ddaeth i law gan ymarferwyr yn ymatebion o ysgolion cynradd, gyda 59 y cant yn ymatebion o ysgolion uwchradd. Roedd gweddill cyfran y sampl yn ymarferwyr o ysgolion pob oed (1 y cant), ysgolion arbennig (2 y cant) ac unedau cyfeirio disgyblion (1 y cant).

12.12 Drwy edrych ar ganran y sampl a berthynai i bob math o leoliad ochr yn ochr â chanran yr ymarferwyr o bob math ym mhoblogaeth yr arolwg, mae **Error! Reference source not found.** yn dangos y canlynol:

- roedd ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd wedi'u gorgynrychioli yn y sampl (59 y cant o'r ymatebion), o'u cymharu â phoblogaeth yr arolwg (32 y cant o'r ymarferwyr).[35]
- roedd ymarferwyr mewn ysgolion cynradd wedi'u tangynrychioli yn y sampl (37 y cant o'r ymatebion) o'u cymharu â phoblogaeth yr arolwg (57 y cant o'r ymarferwyr).

12.13 Gan hynny, defnyddiwyd cyfernodau pwysoli i addasu cynrychiolaeth yr ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion i adlewyrchu poblogaeth y lleoliadau. Mae'r rhain hefyd i'w gweld yn

[35] Defnyddiwyd data Cyngor y Gweithlu Addysg am nifer yr ymarferwyr cofrestredig ym mhob math o leoliad i greu proffil o boblogaeth yr arolwg. Gweler Ystadegau'r Gweithlu Addysg (Cyngor y Gweithlu Addysg)

12.14

12.16 isod.

**Tabl 3. Proffil yr ymarferwyr a gwblhaodd yr arolwg yn ôl y math o leoliad**

| Sector | Canran yr ymarferwyr yn y boblogaeth* | Y ganran yn sampl yr arolwg | Nifer yr ymatebion gan ymarferwyr | Y cyfernod pwysoli a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi** |
|---|---|---|---|---|
| Cynradd neu feithrin | 57% | 37% | 261 | 1.34 |
| Ysgolion pob oed (3-16 / 3-19) | 4% | 4% | 5 | 2.40 |
| Ysgolion uwchradd | 32% | 59% | 67 | 0.71 |
| Ysgolion arbennig | 6% | 1% | 8 | 3.37 |
| Unedau cyfeirio disgyblion | 1% | 1% | 4 | 0.43 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **100%** | **345** | **1** |

*Ar sail Ystadegau'r Gweithlu Addysg (Cyngor y Gweithlu Addysg)

**Mae'r union gyfernod pwysoli yn amrywio fymryn ar gyfer pob cwestiwn yn dibynnu ar nifer yr ymatebwyr a gwblhaodd bob cwestiwn.

### Yn ôl cyfrwng iaith

12.17 Roedd mwyafrif (69 y cant) y 333 o ymatebion a ddaeth i law gan uwch arweinwyr mewn ysgolion unigryw a ddosberthir yn ôl cyfrwng iaith yn ymatebion o ysgolion cyfrwng Saesneg, gyda mymryn o dan draean (31 y cant) yn ymatebion o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae Tabl 4 isod yn dangos bod y sampl ar y cyfan yn gynrychioladol o boblogaeth yr arolwg ac felly nid oes pwysoli wedi'i ddefnyddio ar gyfer cyfrwng iaith yr ysgolion wrth ddadansoddi.

**Tabl 4. Proffil poblogaeth lleoliadau a phoblogaeth sampl yr arolwg yn ôl cyfrwng iaith**

| Cyfrwng iaith y lleoliad | Nifer y lleoliadau yn y boblogaeth | Canran y lleoliadau yn y boblogaeth | Nifer y lleoliadau yn y sampl | Canran y lleoliadau yn y sampl |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrwng Saesneg | 984 | 69.1% | 233 | 70.0% |
| Cyfrwng Cymraeg* | 441 | 30.9% | 100 | 30.0% |
| **Cyfanswm**** | **1425** | **100.0%** | **333** | **100.0%** |

*Yn cynnwys ysgolion cynradd dwy ffrwd ac ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed (3-16/3-19) dwyieithog

**Nid yw ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion wedi'u dosbarthu yn ôl iaith ac felly maent wedi'u hepgor o'r dadansoddi yn ôl y cyfrwng dysgu

**Yn ôl y math o swydd**

12.18 Daeth cyfanswm o 345 o ymatebion i law gan uwch arweinwyr mewn ysgolion unigryw. Yn eu plith roedd 248 o benaethiaid a 97 o uwch arweinwyr (gan gynnwys dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol). Cafwyd 47 o ymatebion eraill gan uwch arweinwyr mewn ysgolion lle'r oedd y pennaeth hefyd wedi ymateb.

12.19 Daeth cyfanswm o 222 o ymatebion i law gan ymarferwyr. Yn eu plith roedd 81 o arweinwyr canol, 127 o athrawon, 13 o weithwyr cymorth dysgu ac un mewn swydd arall mewn ysgol. Daeth 6 o ymatebion eraill i law o leoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir.

**Yn ôl rhanbarth**

12.20 Roedd yr ymatebion gan uwch arweinwyr mewn ysgolion unigryw wedi'u gwasgaru'n gymharol gytbwys drwy bedwar rhanbarth Cymru (gweler Tabl 5 isod). Roedd lleoliadau o ranbarth Canolbarth y De wedi'u gorgynrychioli fymryn yn sampl, a lleoliadau o ranbarth y Canolbarth a'r Gorllewin a'r Gogledd wedi'u tangynrychioli fymryn. Serch hynny, nid oedd y gwahaniaethau hyn yn cal eu hystyried yn ddigon mawr i alw am bwysoli'r sampl, ac felly nid oes pwysoli wedi'i ddefnyddio ar gyfer rhanbarthau'r lleoliad wrth ddadansoddi.

**Tabl 5. Proffil poblogaeth y lleoliadau a phoblogaeth sampl yr arolwg yn ôl rhanbarth a'r cyfernod pwysoli a ddefnyddiwyd**

| Rhanbarth | Nifer y lleoliadau yn y boblogaeth* | % y lleoliadau yn y boblogaeth* | Nifer y lleoliadau yn y sampl | % y lleoliadau yn y sampl |
|---|---|---|---|---|
| Canolbarth y De | 386 | 26% | 114 | 33% |
| Y Canolbarth a'r Gorllewin | 465 | 31% | 89 | 26% |
| Y Gogledd | 407 | 27% | 84 | 24% |
| Y De-ddwyrain | 237 | 16% | 58 | 17% |
| Cyfanswm | 1495 | 100% | 345 | 100% |

*Ar sail CYBLD 2019/20

**Yn ôl cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim**

12.21 Cafodd data am nifer y disgyblion rhwng 5 a 15 oed sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn ôl ysgol (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), 2020) eu defnyddio i greu proffil poblogaeth yr ysgolion yn dibynnu a oes gan

ysgolion lai nag 20 y cant o ddisgyblion, 20-39 y cant o ddisgyblion, neu dros 40 y cant o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Cafodd nifer yr ymatebion unigryw gan ysgolion yn y sampl eu monitro yn ystod cyfnod y gwaith maes i sicrhau bod cynrychiolaeth ddigonol yn ôl band cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. Roedd canran yr ysgolion yn y sampl a oedd ym mhob band yn ddigon tebyg i'r data cenedlaethol, ac felly nid oes pwysoli wedi'i ddefnyddio ar cyfer cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim wrth ddadansoddi.

**Tabl 6. Proffil poblogaeth yr ysgolion a phoblogaeth sampl yr arolwg yn ôl canran y y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim***

| Math o leoliad | % y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ym mhoblogaeth yr ysgolion (CYBLD 2019/20) | | | | % y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn yr ysgolion yn sampl yr arolwg | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **<20%** | **20-39%** | **>40%** | **Total** | **<20%** | **20-39%** | **>40%** | **Cyfanswm** |
| Cynradd | 42.0% | 30.7% | 8.8% | 81.4% | 35.4% | 26.7% | 8.7% | 70.9% |
| Canol | 1.0% | 0.6% | 0.1% | 1.7% | 1.2% | 0.3% | 0.3% | 1.8% |
| Uwchradd | 8.8% | 4.7% | 0.3% | 13.9% | 14.7% | 9.3% | 0.6% | 24.6% |
| Arbennig | 0.0% | 1.1% | 2.0% | 3.0% | 0.0% | 1.2% | 1.5% | 2.7% |
| **Cyfanswm** | **51.8%** | **37.1%** | **11.1%** | **100.0%** | **51.4%** | **37.5%** | **11.1%** | **100.0%** |

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Llywodraeth Cymru

*Nid oes data cenedlaethol am ganran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar gael ar gyfer ysgolion meithrin ac unedau cyfeirio disgyblion, felly mae'r rhain wedi'u hepgor o'r dadansoddiad uchod.

### Yn ôl categorïau cefnogaeth y system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion

12.22 Cyhoeddwyd y data diweddaraf am gategorïau cefnogaeth y system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion ym mis Ionawr 2020. Defnyddiwyd canran yr ysgolion ym mhob categori yn genedlaethol i ddatblygu targed yn sampl yr arolwg ar gyfer pob categori. Cafodd nifer yr ymatebion unigryw gan ysgolion yn y sampl eu monitro yn ystod cyfnod y gwaith maes i sicrhau bod cynrychiolaeth ddigonol yn ôl pob categori. Roedd canran yr ysgolion yn y sampl a oedd ym mhob categori yn ddigon tebyg i'r data cenedlaethol, ac felly nid oes pwysoli wedi'i ddefnyddio ar cyfer categorïau cefnogaeth.

**Tabl 7. Proffil poblogaeth yr ysgolion a phoblogaeth sampl yr arolwg yn ôl categorïau cefnogaeth y system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion**

| Categori cefnogaeth (Ionawr 2020) | % yr ysgolion yn y boblogaeth | % yr ysgolion yn sampl yr arolwg |
|---|---|---|
| Coch | 3.5% | 3.2% |
| Ambr | 10.4% | 12.0% |
| Melyn | 38.8% | 36.4% |
| Gwyrdd | 47.3% | 48.4% |
| Cyfanswm | 100.0% | 100.0% |

Ffynhonnell: Y system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion: categorïau cefnogaeth